# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 24/02/2016

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
1. Questions to the Minister for Economy, Science and Transport

2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol
2. Questions to the Counsel General

Cwestiwn Brys: Ffatri Aston Martin
Urgent Question: The Aston Martin Factory

3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad
3. Questions to the Assembly Commission

4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg
4. Debate on the Children, Young People and Education Committee Report on its Inquiry into Welsh in Education Strategic Plans

5. Dadl ar yr Adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar Weithgareddau'r Cynrychiolwyr o Gymru ar Bwyllgor Rhanbarthau'r UE
5. Debate on the Report to the National Assembly for Wales on the Activities of the Welsh Representatives on the EU Committee of the Regions

6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Democratiaeth Leol
6. Welsh Conservatives Debate: Local Democracy

7. Cyfnod Pleidleisio
7. Voting Time

8. Dadl Fer: Darparu ar gyfer Canolbarth Cymru—Pam fod Angen Signal Ffonau Symudol Cyffredinol i Drawsnewid Economi Canolbarth Cymru
8. Short Debate: Mobilising Mid Wales—Why Universal Mobile Coverage is Needed to Transform the Mid Wales Economy


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

13:30

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Order, order. The National Assembly is in session.

Trefn, trefn. Dyma ddechrau trafodion y Cynulliad Cenedlaethol.

## 1. Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

## 1. Questions to the Minister for Economy, Science and Transport

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

13:30

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 1 is questions to the Minister for Economy, Science and Transport. Question 1, Gwenda Thomas.

Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yw Eitem 1. Cwestiwn 1, Gwenda Thomas.

### Datblygu'r Diwydiant Adeiladu

### Developing the Construction Industry

13:30

### Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu'r diwydiant adeiladu yng Nghymru? OAQ(4)0672(EST)*

*1. Will the Minister make a statement on the development of the Welsh construction industry? OAQ(4)0672(EST)*

13:30 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Wales is projected to see an annual average construction output growth of 7.1 per cent over the five years to 2020, the strongest of any of the devolved nations or English regions, which is almost triple the UK rate of 2.5 per cent.

Gwnaf. Rhagwelir y bydd twf o 7.1 y cant mewn allbwn adeiladu cyfartalog blynyddol yng Nghymru dros y pum mlynedd hyd at 2020, y cryfaf o blith unrhyw un o'r gwledydd datganoledig neu ranbarthau Lloegr, cyfradd sydd bron yn dair gwaith cyfradd y DU o 2.5 y cant.

13:30 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, Minister. Like many other constituencies in Wales, Neath has large areas of conifer woodlands. I note that the Welsh Government and Wood Knowledge Wales are organising a conference to stimulate increased use of home-grown timber in construction. Could you outline what other measures, please, there are to encourage the use of locally procured wood?

Diolch, Weinidog. Fel llawer o etholaethau eraill yng Nghymru, mae gan Gastell-nedd ardaloedd mawr o goetiroedd conwydd. Nodaf fod Llywodraeth Cymru a Wood Knowledge Wales yn trefnu cynhadledd i ysgogi mwy o ddefnydd o bren a dyfir yma yng Nghymru yn y diwydiant adeiladu. Os gwelwch yn dda, a allech amlinellu pa gamau eraill sydd ar waith i hybu'r defnydd o bren wedi'i gaffael yn lleol?

13:30 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The event itself, which is being held in March, will promote the use of timber in construction and show what the timber industry can offer, and it will attract a large number of speakers in the trade and the construction sector. It's a very important area of employment, actually, the timber. The increasing use of Welsh timber provides not only environmental benefits, but also social, economic and growth opportunities, and adding value to the supply chains, ensuring that there's work being undertaken by Peter Davies, who has been looking at this—he was the former Commissioner for Sustainable Futures—and they are looking at some of the issues and the barriers that occur to using timber in construction.

Bydd y digwyddiad ei hun, sy'n cael ei gynnal ym mis Mawrth, yn hybu'r defnydd o bren yn y diwydiant adeiladu ac yn dangos yr hyn y gall y diwydiant coed ei gynnig, a bydd yn denu nifer fawr o siaradwyr o'r fasnach a'r sector adeiladu. Mae pren, mewn gwirionedd, yn faes pwysig iawn o ran cyflogaeth. Mae'r defnydd cynyddol o bren Cymru yn darparu cyfleoedd cymdeithasol, economaidd a thwf yn ogystal â manteision amgylcheddol, ac yn ychwanegu gwerth at y cadwyni cyflenwi, gan sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud gan Peter Davies—cyn-Gomisiynydd Dyfodol Cynaliadwy—sydd wedi bod yn edrych ar hyn, ac maent yn edrych ar rai o'r problemau a'r rhwystrau rhag defnyddio coed yn y diwydiant adeiladu.

13:31 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Construction Industry Training Board Cymru has identified a lack of appropriately skilled construction workers as a barrier to workforce planning and the greatest barrier to reaping the opportunities presented for the sector in Wales over successive years. How, therefore, do you respond to the call in their 2016 manifesto for support and growth in productivity in construction through skills and training reform?

Mae Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yng Nghymru wedi nodi prinder gweithwyr adeiladu sydd â'r sgiliau priodol fel rhwystr i gynllunio'r gweithlu a'r rhwystr mwyaf i wneud y gorau o'r cyfleoedd i'r sector yng Nghymru dros sawl blwyddyn yn olynol. Felly, sut rydych yn ymateb i'r alwad yn eu maniffesto ar gyfer 2016 am gymorth a thwf mewn cynhyrchiant yn y diwydiant adeiladu drwy ddiwygio sgiliau a hyfforddiant?

13:32 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I know my colleague, the Deputy Minister for Skills and Technology, has all these matters in hand, regarding the concerns of the industry for future skills.

Wel, o ran pryderon y diwydiant ynglŷn â sgiliau yn y dyfodol, gwn fod yr holl faterion hyn yn cael sylw gan fy nghyd-Aelod, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg.

13:32 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you said, Minister, the construction sector in Wales is going to be one of the fastest in the UK in terms of growth and will probably create around 30,000 job opportunities in Wales. Are you able to outline, Minister, how the Welsh Government's investment in twenty-first century schools has benefited, and will benefit, the Welsh construction industry?

Fel y dywedoch, Weinidog, bydd y sector adeiladu yng Nghymru gyda'r cyflymaf yn y DU o ran twf ac yn creu tua 30,000 o gyfleoedd gwaith yng Nghymru, yn ôl pob tebyg. A allwch amlinellu, Weinidog, sut y mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn ysgolion yr unfed ganrif ar hugain wedi bod o fudd ac yn mynd i fod o fudd i'r diwydiant adeiladu yng Nghymru?

13:32 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think, as set out in the programme on twenty-first century schools, the infrastructure plans indicated will boost employment, supporting up to 300 jobs in the design and build of new schools in our communities right across Wales, with a total of £23 million allocated to the twenty-first century schools and education programme 2015-16. So, that will be greater investment again and will certainly help job opportunities across the piece.

Wel, fel y nodir yn y rhaglen ar ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, credaf y bydd y cynlluniau seilwaith a nodir yn rhoi hwb i gyflogaeth, gan gynnal hyd at 300 o swyddi yn y broses o ddylunio ac adeiladu ysgolion newydd yn ein cymunedau ledled Cymru, gyda chyfanswm o £23 miliwn wedi'i ddyrannu i raglen ysgolion ac addysg yr unfed ganrif ar hugain 2015-16. Felly, bydd hynny'n fwy o fuddsoddiad eto ac yn sicr yn helpu cyfleoedd gwaith yn gyffredinol.

13:33 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Minister, small construction companies operating in my constituency believe that the policy pursued by the Brecon Beacons National Park with regard to commuted sums is making small-scale development uneconomic and not deliverable, and, potentially, that has a huge impact on the number of jobs created by those small construction companies. What assessment have you made of the impact of policies such as that on smaller construction companies—those that aren't interested in developing huge housing developments, but actually interested in small, individual, one-, two-, three-, four-unit projects, which, at the moment, are not coming forward because of that policy?

Weinidog, mae cwmnïau adeiladu bychain yn fy etholaeth yn credu bod y polisi a weithredir gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn perthynas â symiau gohiriedig yn gwneud datblygiadau ar raddfa fach yn aneconomaidd ac yn amhosibl eu cyflawni, a gallai hynny, o bosibl, effeithio'n enfawr ar nifer y swyddi sy'n cael eu creu gan y cwmnïau adeiladu bychain hynny. Pa asesiad a wnaethoch o effaith polisïau o'r fath ar gwmnïau adeiladu llai o faint—y rhai heb unrhyw ddiddordeb mewn datblygu datblygiadau tai enfawr, ond sydd â diddordeb mewn prosiectau bach, unigol gydag un, dau, tri neu bedwar o unedau, nad ydynt yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd, oherwydd y polisi hwnnw?

13:33 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I have to say, I think it's so important that we look at the development of projects around villages. A handful of houses can make a tremendous difference in terms of rural housing, et cetera. It is obviously not my area, but it is one of the issues that has been raised by the builders with me, and it is one of the issues that I will continue to raise with the national parks. I've had meetings with the national parks about other issues that impact on economic development, and I'd certainly be happy to take this up.

Wel, mae'n rhaid i mi ddweud, credaf ei bod yn bwysig iawn i ni edrych ar y gwaith o ddatblygu prosiectau o amgylch pentrefi. Gall llond llaw o dai wneud gwahaniaeth aruthrol o ran tai gwledig ac ati. Yn amlwg, nid fy maes i yw hwn, ond mae'n fater y tynnodd yr adeiladwyr fy sylw ato, ac mae'n fater y byddaf yn parhau i'w godi gyda'r parciau cenedlaethol. Rwyf wedi cael cyfarfodydd gyda'r parciau cenedlaethol ynghylch materion eraill sy'n effeithio ar ddatblygiad economaidd, a byddwn yn sicr yn hapus i ymgymryd â hyn.

13:34 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One of the most brilliant made-in-Wales inventions is the SOLCER house in Bridgend, and it's attracted an awful lot of interest because of its ability to generate more power than any household would use. I wondered what assessment the Government has made of the construction skills required to build new homes to the SOLCER house standard on an industrial scale.

Un o'r dyfeisiadau mwyaf gwych a wnaed yng Nghymru yw'r tŷ SOLCER ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac mae wedi denu llawer iawn o ddiddordeb oherwydd ei allu i gynhyrchu mwy o ynni nag y byddai unrhyw aelwyd yn ei ddefnyddio. Tybed pa asesiad y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud o'r sgiliau adeiladu sydd eu hangen i adeiladu cartrefi newydd o safon y tŷ SOLCER ar raddfa ddiwydiannol.

13:34 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, due to our close working relationship with the Construction Industry Training Board, they are aware of the skills that will be required for what is a first-class project, and, hopefully, further developments of it in the future.

Wel, oherwydd ein perthynas waith agos gyda Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu, maent yn ymwybodol o'r sgiliau y bydd eu hangen ar gyfer yr hyn sy'n brosiect o'r radd flaenaf, a datblygiadau pellach ohono yn y dyfodol, gobeithio.

## Y Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol

## The National Transport Infrastructure

13:34 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i chyd-weinidogion am y seilwaith trafnidiaeth cenedlaethol? OAQ(4)0674(EST)*

*2. What discussions has the Minister had with Ministerial colleagues regarding the national transport infrastructure? OAQ(4)0674(EST)*

13:34 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I have regular discussions with Cabinet colleagues regarding infrastructure across Wales.

Wel, rwy'n trafod yn rheolaidd gyda chyd-Aelodau Cabinet ynghylch y seilwaith ledled Cymru.

13:35 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, local authorities are making decisions on new housing developments, but little or no consideration is given to the impact these will have on the trunk road network. What assessment has your Government made of the impact local planning decisions will have on the national transport infrastructure and what can you do to limit such impact?

Weinidog, mae awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â datblygiadau tai newydd, ond ni roddir fawr o ystyriaeth i effaith y rhain ar y rhwydwaith cefnffyrdd. Pa asesiad y mae eich Llywodraeth wedi'i wneud o'r effaith y bydd penderfyniadau cynllunio lleol yn ei chael ar y seilwaith trafnidiaeth cenedlaethol a'r hyn y gallwch ei wneud i liniaru effaith o'r fath?

13:35 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, we have regular discussions with our colleagues in local government regarding development. They make their views known to us if they think we can help and assist with any developments on roads, and that is an ongoing dialogue.

Wel, rydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda'n cydweithwyr llywodraeth leol mewn perthynas â datblygu. Maent yn rhoi gwybod i ni os ydynt yn credu y gallwn helpu a chynorthwyo gydag unrhyw ddatblygiadau ar y ffyrdd, ac mae honno'n ddeialog barhaus.

13:35 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, a constituent raised with me on Sunday the potential for using freight lines in the Neath valley to bring passenger transport into Swansea. What is the potential for extending the metro project further west and taking on board new lines like that to improve transport into the Swansea area?

Weinidog, ddydd Sul holodd etholwr i mi ynglŷn â'r posibilrwydd o ddefnyddio rheilffyrdd cludo nwyddau yng nghwm Nedd i gludo teithwyr i Abertawe. Beth yw potensial ymestyn y prosiect metro ymhellach i'r gorllewin a defnyddio rheilffyrdd newydd o'r fath i wella trafnidiaeth i mewn i ardal Abertawe?

13:36 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The city region itself has to now focus on some of the transport issues within the Swansea city region, and this is one of the areas that I would expect them to consider.

Mae'n rhaid i'r dinas-ranbarth ei hun ganolbwyntio ar rai o'r materion trafnidiaeth sy'n codi yn ninas-ranbarth Abertawe, a dyma un o'r meysydd y byddwn yn disgwyl iddynt eu hystyried.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will now call the party spokespeople, starting this week with the Conservative spokesperson, William Graham.

Galwaf yn awr ar lefarwyr y pleidiau, gan ddechrau'r wythnos hon gyda llefarydd y Ceidwadwyr, William Graham.

13:36 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, I wonder if I might ask you for assurances this time on Velothon Wales. You will know that the letters have already gone out to those parties that are likely to be affected. Last year was not a great success in terms of the interruption to so many businesses and people. The event itself was a great success. Could we have your assurance that, this time, every opportunity will be taken to avoid any of those dreadful problems for individuals?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, tybed a gaf fi ofyn i chi am sicrwydd y tro hwn ynghylch Felothon Cymru. Fe fyddwch yn ymwybodol fod y llythyrau eisoes wedi'u hanfon at y rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio. Nid oedd y llynedd yn llwyddiant mawr o ran y tarfu a fu ar gynifer o fusnesau a phobl. Roedd y digwyddiad ei hun yn llwyddiant mawr. A gawn ni sicrwydd gennych, y tro hwn, y manteisir ar bob cyfle i osgoi'r problemau ofnadwy hynny i unigolion?

13:36 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think as a result of the concerns that were expressed across the Chamber about the adverse impact it had on individuals, even though we applauded the success of the major event itself, there have been detailed discussions between us and the local authorities involved and what is quite clear is, in terms of 2016 route—the detailed route—there will be interactive maps, there will be telephone enquiry lines and all that's going to be dealt with in due course. But, also as well, in the planning of the event a more open and transparent dialogue with businesses and communities will have to take place. So, you have my assurance on that. But it is important to recognise that we have to take the community with us, because it does inconvenience the community even though, of course, it's good news for Wales in terms of the event.

Wel, yn sgil y pryderon a fynegwyd ar draws y Siambr ynghylch yr effaith andwyol a gafodd ar unigolion, er i ni ganmol llwyddiant y digwyddiad mawr ei hun, credaf fod trafodaethau manwl wedi bod rhyngom ni a'r awdurdodau lleol perthnasol, a'r hyn sy'n eithaf amlwg, o ran llwybr 2016—y llwybr manwl—yw y bydd mapiau rhyngweithiol a llinellau ffôn ar gyfer ymholiadau a bydd hyn oll yn cael sylw maes o law. Ond yn ogystal, wrth gynllunio'r digwyddiad, bydd yn rhaid cael deialog fwy agored a thryloyw gyda busnesau a chymunedau. Felly, rwy'n rhoi sicrwydd i chi ynghylch hynny. Ond mae'n bwysig cydnabod bod angen i ni gynnwys y gymuned hefyd, oherwydd mae'r digwyddiad yn anghyfleus i'r gymuned er ei fod yn newyddion da i Gymru, wrth gwrs.

13:37 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I also ask you—? You will have seen the report from the Enterprise and Business Committee particularly about Cardiff general station and the reservations with regard to its capacity. I appreciate that that Minister will be well aware of the large sums that will be involved to make a detailed improvement of that, let alone the problems with Network Rail. Could I ask the Minister whether she envisages that this will be a priority for her party if they form the Government?

A gaf fi ofyn i chi hefyd—? Byddwch wedi gweld yr adroddiad gan y Pwyllgor Menter a Busnes, yn benodol ynghylch gorsaf Caerdydd Canolog a'r amheuon ynglŷn â'i chapasiti. Rwy'n sylweddoli y bydd y Gweinidog yn ymwybodol iawn o'r symiau mawr a fydd yn angenrheidiol i wella honno'n drylwyr, heb sôn am y problemau gyda Network Rail. A gaf fi ofyn i'r Gweinidog a yw'n rhagweld y byddai hyn yn flaenoriaeth i'w phlaid os ydynt yn ffurfio Llywodraeth?

13:37 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think it should be a priority for all of us in terms of the Cardiff station improvements. Of course, we had a brief discussion in committee about these issues this morning, because the station must have capacity to manage the large increases we're expecting to see from passengers, whether they're making daily regular journeys to and from the railway station and, also as well, there's a real issue, I think, about what we need to do in terms of investment. Will the investment funds be available for Network Rail to undertake the work that we require? I have written to Sir Peter Hendy, advising of the Welsh Government's preference to see any future funding approved by Network Rail focus on improving train and passenger movement capacity. Areas such as those narrow staircases—can issues like that be addressed? We've got the queuing and crowd management issues that are there. So, there are particular issues that we are obviously lobbying for in terms of Network Rail and will continue to do so because I think it's important that the Welsh capital has a proper hub in terms of its capacity.

Wel, credaf y dylai gwelliannau i orsaf Caerdydd fod yn flaenoriaeth i bawb ohonom. Wrth gwrs, cawsom drafodaeth fer yn y pwyllgor am y materion hyn y bore yma, oherwydd mae'n rhaid i'r orsaf gael capasiti i ymdopi â'r cynnydd mawr rydym yn disgwyl ei weld yn nifer y teithwyr, pa un a ydynt yn gwneud teithiau dyddiol rheolaidd i ac o'r orsaf drenau, ac yn ogystal, credaf fod problem wirioneddol o ran yr hyn sydd angen ei wneud o ran buddsoddi. A fydd y cronfeydd buddsoddi ar gael i Network Rail wneud y gwaith sydd ei angen arnom? Rwyf wedi ysgrifennu at Syr Peter Hendy yn dweud y byddai'n well gan Lywodraeth Cymru weld unrhyw gyllid a gymeradwyir gan Network Rail yn y dyfodol yn canolbwyntio ar wella capasiti trenau a symud teithwyr. Llefydd fel y grisiau cul hynny—a oes modd mynd i'r afael â materion fel hynny? Mae gennym broblemau gyda chiwio a rheoli torfeydd yno. Felly, mae'n amlwg fod yna faterion penodol rydym yn lobïo amdanynt mewn perthynas â Network Rail a byddwn yn parhau i wneud hynny, gan fy mod yn meddwl ei bod yn bwysig i brifddinas Cymru gael canolfan drafnidiaeth briodol o ran ei chapasiti.

13:38 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I ask just a final question, if I may, with regard to Erasmus? There seems to be—. How do you encourage students throughout Wales to bid for more involvement in this very important and necessary programme?

A gaf fi ofyn un cwestiwn olaf ynglŷn ag Erasmus? Ymddengys bod—. Sut rydych chi'n annog myfyrwyr ledled Cymru i wneud cais am fwy o gyfranogiad yn y rhaglen bwysig ac angenrheidiol hon?

13:39 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, yes, now that you've raised this with me, I'll certainly have a word with my officials and see how we can help and assist with the query that you have raised.

Wel, ie, nawr eich bod wedi crybwyll y pwynt hwn, byddaf yn sicr yn cael gair gyda fy swyddogion i weld sut y gallwn helpu a chynorthwyo gyda'ch ymholiad.

13:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And now the Plaid Cymru spokesperson, Rhun ap Iorwerth.

Ac yn awr, llefarydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth.

13:39 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. In a recent freedom of information request submitted by Plaid Cymru, we requested information regarding how much Welsh-made steel has been used in public projects that the Welsh Government has overseen over the past five years. The Minister may or may not know that we were informed that this information has not been recorded. Given the Welsh Government's overall record of local procurement, and is still the worse of all governments in the UK on this measure, will the Minister comment on how exactly the Government aims to support the Welsh steel industry in the future through procurement processes if this Government can't even measure the current rate of Welsh steel procurement?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mewn cais rhyddid gwybodaeth diweddar a gyflwynwyd gan Blaid Cymru, gofynasom am wybodaeth ynglŷn â faint o ddur a wnaed yng Nghymru sydd wedi'i ddefnyddio mewn prosiectau cyhoeddus a oruchwyliwyd gan Lywodraeth Cymru dros y pum mlynedd ddiwethaf. Efallai y bydd y Gweinidog yn ymwybodol, neu efallai na fydd yn ymwybodol, ein bod wedi cael gwybod nad yw'r wybodaeth hon wedi'i chofnodi. O ystyried record gyffredinol Llywodraeth Cymru ym maes caffael lleol, a'r ffaith ei bod yn parhau i wneud yn waeth na phob un o lywodraethau'r DU ar y mesur hwn, a wnaiff y Gweinidog esbonio sut yn union y mae'r Llywodraeth yn bwriadu cefnogi diwydiant dur Cymru yn y dyfodol drwy brosesau caffael os nad yw'r Llywodraeth hon hyd yn oed yn gallu mesur y gyfradd bresennol o ddur Cymru a gaffaelir?

13:40 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, we recognise that there is an enormous amount of contracts and we do look at the issues within contracts. One of the issues that has been raised about steel is that we are looking to see what steel can be produced in Wales, from what sites, and what we can then do with the industry. We will have to look at how we start to record information within this area.

Wrth gwrs, rydym yn cydnabod bod llawer iawn o gontractau ac rydym yn edrych ar y materion sy'n codi o fewn contractau. Un o'r materion sydd wedi codi ynglŷn â dur yw ein bod yn ceisio gweld pa ddur y gellir ei gynhyrchu yng Nghymru, ac o ba safleoedd, a'r hyn gallwn ei wneud wedyn â'r diwydiant. Bydd yn rhaid i ni edrych i weld sut yr awn ati i ddechrau cofnodi gwybodaeth yn y maes hwn.

13:40 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm pleased that this is an area where the Minister agrees there has been a failing on the part of the Government. Another area: the European Union and the European Commission rightly are seen as a key component of putting rules and practices in place to protect the Welsh steel industry. Another freedom of information request submitted by Plaid Cymru has revealed that, over a four-year period, Welsh Government raised issues over the steel industry in just one single letter to the European Commission's vice-president for jobs, growth, investment and competitiveness. Now, all parties hopefully agree that we need to work closer with the European Union on this matter.

Rwy'n falch fod hwn yn faes lle y mae'r Gweinidog yn cytuno bod methiant wedi bod ar ran y Llywodraeth. Maes arall: gwelir yr Undeb Ewropeaidd a'r Comisiwn Ewropeaidd, yn hollol gywir, fel elfen allweddol yn y broses o roi rheolau ac arferion ar waith i amddiffyn y diwydiant dur yng Nghymru. Mae cais rhyddid gwybodaeth arall a gyflwynwyd gan Blaid Cymru wedi datgelu mai unwaith yn unig y mae Llywodraeth Cymru, dros gyfnod o bedair blynedd, wedi crybwyll materion yn ymwneud â'r diwydiant dur mewn llythyr at is-lywydd y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer swyddi, twf, buddsoddi a chystadleurwydd. Nawr, mae pob plaid, gobeithio, yn cytuno bod angen i ni weithio'n agosach gyda'r Undeb Ewropeaidd ar y mater hwn.

Just this week, Bethan Jenkins, Assembly Member for South Wales West, and Jill Evans, Plaid Cymru MEP, led a delegation to Brussels in order to hold two days of talks with senior European Commission officials to discuss its response to the ongoing steel crisis that has recently, of course, led to so many job losses. It is easy now, of course, for the Minister perhaps again to accept that the Government failed to be proactive enough in the past in its dealings with EU officials, but how will the Minister now, and in the future, address the issue of EU-level contact and lobbying by Welsh Government to promote the interests of the Welsh steel industry?

Yr wythnos hon, arweiniwyd dirprwyaeth gan Bethan Jenkins, Aelod y Cynulliad dros Orllewin De Cymru, a Jill Evans, ASE Plaid Cymru, i Frwsel er mwyn cynnal dau ddiwrnod o sgyrsiau gydag uwch swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd i drafod eu hymateb i'r argyfwng dur parhaus sydd wedi arwain yn ddiweddar, wrth gwrs, at golli cymaint o swyddi. Mae'n hawdd yn awr, wrth gwrs, i'r Gweinidog dderbyn eto efallai fod y Llywodraeth wedi methu â bod yn ddigon rhagweithiol yn y gorffennol yn ei hymwneud â swyddogion yr UE, ond sut y bydd y Gweinidog yn awr, ac yn y dyfodol, yn mynd ati i sicrhau cysylltiad a lobïo gan Lywodraeth Cymru ar lefel yr UE i hyrwyddo buddiannau diwydiant dur Cymru?

13:41 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think I need to make things absolutely clear: some of these claims are totally untrue about what we are and are not doing. At the end of the day, we have been one of the most proactive administrations in dealing with the steel industry. We have a close relationship with the steel industry—both the steel unions and the companies. We've been raising real concerns since 2011. Tata, of course, is an anchor company. We've had high-level meetings with them and we've done everything that we can.

Credaf fod angen i mi wneud pethau'n hollol glir: mae rhai o'r honiadau hyn yn hollol anghywir o ran yr hyn rydym yn ei wneud a ddim yn ei wneud. Yn y bôn, rydym wedi bod yn un o'r gweinyddiaethau mwyaf rhagweithiol wrth ymdrin â'r diwydiant dur. Mae gennym berthynas agos â'r diwydiant dur—yr undebau a'r cwmnïau dur fel ei gilydd. Rydym wedi bod yn mynegi pryderon real ers 2011. Mae Tata, wrth gwrs, yn gwmni angori. Rydym wedi cael cyfarfodydd lefel uchel gyda hwy ac wedi gwneud popeth yn ein gallu.

When you talk about what's happening in procurement, nobody else is doing this in terms of measuring what steel is in public contracts. We have effectively signed up to the charter in terms of procurement before anybody else, and we're doing the work.

Pan siaradwch am yr hyn sy'n digwydd ym maes caffael, nid oes neb arall yn gwneud hyn o ran mesur pa ddur sydd mewn contractau cyhoeddus. I bob pwrpas rydym wedi ymrwymo i'r siarter mewn perthynas â chaffael cyn unrhyw un arall, ac rydym yn gwneud y gwaith.

As regards lobbying and who we are talking to, it's not just a letter; we have an office in Brussels and we have regular dialogue across the piece. We all know that lobbying isn't just about a piece of paper and a letter, but about what you do. We also need to remember of course that the UK is the member state.

O ran lobïo, a phwy rydym yn siarad â hwy, nid un llythyr yn unig yw hynny; mae gennym swyddfa ym Mrwsel ac rydym yn cael trafodaethau rheolaidd yn gyffredinol. Gwyddom fod lobïo'n ymwneud â mwy na darn o bapur a llythyr; mae'n ymwneud hefyd â'r hyn rydych yn ei wneud. Mae'n rhaid i ni gofio hefyd, wrth gwrs, mai'r DU yw'r aelod-wladwriaeth.

13:42 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

But doubts still remain about activities in the past in terms of contact and lobbying of Welsh Government, and we sincerely hope that the lessons of the past will be learnt when it comes to the need for higher level engagement between Welsh Government and EU officials.

Ond mae amheuon yn parhau ynghylch gweithgareddau yn y gorffennol o ran sicrhau cysylltiad a lobïo gan Lywodraeth Cymru, ac rydym yn mawr obeithio y bydd gwersi o'r gorffennol yn cael eu dysgu o ran yr angen am ymgysylltiad ar lefel uwch rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion yr UE.

There are, of course, limitations to what the Welsh Government itself can do, based on the current devolution settlement, to help the Welsh steel industry, but the Minister has previously mentioned, as part of the steel taskforce, which of course we welcome and support, that Welsh Government could look at the possibilities open through business rate relief schemes, for example. The Scottish Government is currently leading the way and showing what can be done in Wales to support the steel industry by cutting business rates in Scotland for one year. This is exactly the kind of urgency I think that we need from the Welsh Labour Government. The Minister, I think, must now admit that action, even though we recognise that the Government is trying to move in a particular direction, is still rather slow coming. Will the Minister provide an update, then, on what is being done in terms of providing business rate relief to steel plants across Wales?

Mae cyfyngiadau, wrth gwrs, ar yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei hun ei wneud, yn seiliedig ar y setliad datganoli presennol, i helpu diwydiant dur Cymru, ond mae'r Gweinidog wedi crybwyll o'r blaen, fel rhan o'r tasglu dur yr ydym, wrth gwrs, yn ei groesawu a'i gefnogi, y gallai Llywodraeth Cymru edrych ar y posibiliadau a gynigir drwy gynlluniau rhyddhad ardrethi busnes, er enghraifft. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth yr Alban yn arwain y ffordd ac yn dangos beth y gellir ei wneud yng Nghymru i gefnogi'r diwydiant dur drwy dorri ardrethi busnes yn yr Alban am flwyddyn. Dyna'r union fath o frys y credaf fod angen i ni ei weld gan Lywodraeth Lafur Cymru. Credaf y dylai'r Gweinidog gyfaddef yn awr, er ein bod yn cydnabod bod y Llywodraeth yn ceisio symud i gyfeiriad penodol, fod y camau gweithredu braidd yn araf yn dod o hyd. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf, felly, ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei wneud o ran darparu rhyddhad ardrethi busnes i weithfeydd dur ledled Cymru?

13:43 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm afraid that I'm not prepared to admit that we're not doing anything and that we're too slow, because actually we're doing a tremendous amount of work that has been well respected by the industry and understood by the industry.

Ofnaf nad wyf yn barod i gyfaddef nad ydym yn gwneud unrhyw beth a'n bod yn rhy araf, oherwydd mewn gwirionedd rydym yn gwneud llawer iawn o waith sy'n cael ei barchu'n fawr a'i ddeall gan y diwydiant.

With regard to some of the issues on business rates, business rates are extremely complicated, as anybody who has ever spoken to the European Commission would understand in terms of what state aid is. There are limits to what you can do and the Scottish Government has chosen to take a particular tack, but let's not think that what they've done is going to massage the real problems in the steel industry and the support that is required. I don't accept your analysis of this. We're in total line with the industry about how we're trying to help. They support what we're doing and they always say that, as a Government, we've been extremely proactive in all the evidence that they've given to everybody.

O ran rhai o'r materion yn ymwneud ag ardrethi busnes, mae ardrethi busnes yn gymhleth dros ben, fel y byddai unrhyw un sydd wedi siarad â'r Comisiwn Ewropeaidd erioed yn ei ddeall o ran beth yn union yw cymorth gwladwriaethol. Mae terfynau ar yr hyn y gallwch ei wneud ac mae Llywodraeth yr Alban wedi dewis cymryd trywydd penodol, ond gadewch i ni beidio â meddwl bod yr hyn y maent wedi'i wneud yn mynd i leddfu'r gwir broblemau yn y diwydiant dur a'r gefnogaeth sydd ei hangen. Nid wyf yn derbyn eich dadansoddiad o hyn. Rydym yn cyd-fynd yn llwyr â'r diwydiant o ran sut rydym yn ceisio helpu. Maent yn cefnogi'r hyn rydym yn ei wneud ac maent yn dweud bob amser yn yr holl dystiolaeth y maent wedi'i rhoi i bawb ein bod ni, fel Llywodraeth, wedi bod yn hynod o ragweithiol.

13:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And now the Liberal Democrat spokesperson, Eluned Parrott.

Ac yn awr, llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, Eluned Parrott.

13:44

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Minister, I welcome the announcement from the First Minister over the weekend that this Government is planning to create a north Wales metro, but, to date, there's been no detail as to what that might look like. Now, clearly, north Wales does not have the same network of Valleys lines that south-east Wales does, so I wonder if you can tell us what that means in terms of routes and services for the people of north Wales.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, croesawaf y cyhoeddiad gan Brif Weinidog Cymru dros y penwythnos fod y Llywodraeth hon yn bwriadu creu metro gogledd Cymru, ond hyd yn hyn, ni chafwyd unrhyw fanylion ynglŷn â sut beth fydd hwnnw. Nawr, yn amlwg, nid oes gan ogledd Cymru rwydwaith o reilffyrdd y Cymoedd fel de-ddwyrain Cymru, felly tybed a allwch ddweud wrthym beth y mae hynny'n ei olygu o ran llwybrau a gwasanaethau i bobl gogledd Cymru.

13:44

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We are currently looking at the issues around a metro for north-west Wales—you are quite correct. It will focus very much on the integration of not just rail but, of course, bus services and what further work we can undertake. There is currently ongoing work, which I will make available in due course.

Gallaf. Rydym ar hyn o bryd yn edrych ar y materion sy'n ymwneud â metro ar gyfer gogledd-orllewin Cymru—rydych yn hollol gywir. Bydd yn canolbwyntio'n fawr ar integreiddio nid yn unig y rheilffyrdd, ond gwasanaethau bws hefyd, wrth gwrs, a pha waith pellach y gallwn ei wneud. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, a byddaf yn sicrhau ei fod ar gael maes o law.

13:45

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. Clearly, a metro for north Wales and a metro for south-east Wales are very important, but people in mid Wales will wonder what it is that they can expect and what you are doing to make sure that people who live, for example, in Powys or in Ceredigion are not forgotten about in this drive for metro systems, and still get the investment in routes and services that are vital in supporting rural communities and market towns.

Diolch am eich ateb, Weinidog. Yn amlwg, mae metro ar gyfer gogledd Cymru a metro ar gyfer de-ddwyrain Cymru yn bwysig iawn, ond bydd pobl yn y Canolbarth yn meddwl tybed beth y gallant ei ddisgwyl a beth rydych yn ei wneud i sicrhau nad yw pobl sy'n byw, er enghraifft, ym Mhowys neu yng Ngheredigion, yn cael eu hanghofio yn yr ymgyrch hon i gael systemau metro, a pharhau i gael y buddsoddiad mewn llwybrau a gwasanaethau sy'n hanfodol er mwyn cefnogi cymunedau gwledig a threfi marchnad.

13:45 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I say this? I think our record speaks for ourselves in terms of the investment that we've undertaken with mid and west Wales. We've had additional routes put on, and I've been particularly committed, as you know, to looking at the reopening of the Carmarthen and Aberystwyth line and even looking now about whether there are freight possibilities on that line. It will, of course, be a question of resource, but we are committed to that area. Of course, I think we need to carry on work, because we must make sure that just because you haven't got the population base, that you can't get the transport. The best thing that we could ever have, of course, is that if we could regulate buses, we could certainly ensure then that they are linked in to the rail hubs, et cetera, which I think will be essential for the future.

A gaf fi ddweud hyn? Credaf fod ein record yn siarad drosti ei hun o ran y buddsoddiad a wnaed gennym yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Rydym wedi sicrhau llwybrau ychwanegol, ac rwyf wedi ymrwymo'n benodol, fel y gwyddoch, i ailagor rheilffordd Caerfyrddin ac Aberystwyth ac rwy'n edrych yn awr, hyd yn oed, ar bosibiliadau cludo nwyddau ar y rheilffordd honno. Bydd yn ymwneud ag adnoddau, wrth gwrs, ond rydym wedi ymrwymo i'r ardal honno. Wrth gwrs, credaf fod angen i ni barhau i weithio, gan fod yn rhaid i ni sicrhau trafnidiaeth er nad yw'r boblogaeth yn fawr. Y peth gorau a allai ddigwydd, wrth gwrs, fyddai i ni allu rheoleiddio bysiau, fel y gallem sicrhau'n bendant wedyn eu bod yn cysylltu â'r canolfannau trenau, ac yn y blaen, a chredaf y bydd hynny'n hanfodol ar gyfer y dyfodol.

13:46 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Indeed, thank you for that. If the Deputy Presiding Officer will indulge me, I think I have the honour of asking you the last of the spokespeople's questions that you will face as a Minister in this place, and I wanted to put on record my best wishes for your future. I'm sure the other opposition spokespeople will agree that you have been a formidable opponent as well as a formidable figure in this Assembly, and we wish you well in the future. [Applause.]

Yn wir, diolch i chi am hynny. Os caf oddefgarwch y Dirprwy Lywydd, credaf mai gennyf i y mae'r fraint o ofyn yr olaf o gwestiynau'r llefarwyr y byddwch yn eu hwynebu fel Gweinidog yn y lle hwn, ac roeddwn am gofnodi fy nymuniadau gorau i chi yn y dyfodol. Rwy'n siŵr y bydd llefarwyr y gwrthbleidiau eraill yn cytuno eich bod wedi bod yn wrthwynebydd aruthrol yn ogystal â'n ffigwr aruthrol yn y Cynulliad hwn, a dymunwn yn dda i chi yn y dyfodol. [Cymeradwyaeth.]

However, I still have a question, which is around Swansea and the Swansea valleys, as Peter Black has just referred to, and their inclusion in the south Wales metro map is simply an arrow over Bridgend. That is not really adequate to take into account the kind of problems that we still have in Swansea and the Swansea valleys in terms of transport poverty and in terms of the dreadful congestion we saw on the road network this morning. I heard your answer with interest regarding the city region and what they might do for Swansea's transport network, but the question I have for you really is this: what funding is going to be made available to that city region so that they can develop a proper feasibility study for interventions that could really transform the western part of the south Wales corridor?

Fodd bynnag, mae gennyf gwestiwn, sy'n ymwneud ag Abertawe a chymoedd Abertawe, fel y mae Peter Black newydd sôn, a'r ffaith mai saeth dros Ben-y-bont ar Ogwr yn unig sy'n eu cynrychioli ar fap metro de Cymru. Nid yw hynny'n ddigon mewn gwirionedd o ystyried y math o broblemau sydd gennym o hyd yn Abertawe a chymoedd Abertawe o ran tlodi trafnidiaeth ac o ran y tagfeydd ofnadwy a welsom ar y rhwydwaith ffyrdd y bore yma. Roedd eich ateb yn ddiddorol ynglŷn â'r dinas-ranbarth a'r hyn y gallent ei wneud i rwydwaith trafnidiaeth Abertawe, ond y cwestiwn sydd gennyf i chi mewn gwirionedd yw hwn: pa arian fydd ar gael i'r dinas-ranbarth hwnnw er mwyn iddynt allu datblygu astudiaeth ddichonoldeb briodol ar gyfer ymyriadau a allai drawsnewid y rhan orllewinol o goridor de Cymru?

13:47 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Professor Cole is currently working with the city region board within that area to look at the development of the policy agenda and what could actually be achieved. He's actually started to look at what routes we can do in terms of active travel and what would be the best way of integrating. That work is carrying on and it will, in due course, have to get some support from the Welsh Government.

Ar hyn o bryd mae'r Athro Cole yn gweithio gyda bwrdd y dinas-ranbarth yn yr ardal i edrych ar ddatblygiad yr agenda bolisi a'r hyn y gellid ei gyflawni mewn gwirionedd. Mae wedi dechrau edrych ar y llwybrau y gallem eu gwneud o ran teithio llesol a beth fyddai'r ffordd orau o integreiddio. Mae'r gwaith hwnnw'n parhau, a maes o law, bydd yn rhaid iddo gael rhywfaint o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

## Gweithgynhyrchu yn Nhorfaen

## Manufacturing in Torfaen

13:47 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth ar gyfer gweithgynhyrchu yn Nhorfaen? OAQ(4)0679(EST)*

*3. Will the Minister provide an update on support for manufacturing in Torfaen? OAQ(4)0679(EST)*

13:47 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We recognise the importance of the manufacturing industry to Torfaen and the priority remains to develop and strengthen the manufacturing base in Torfaen.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y diwydiant gweithgynhyrchu i Dorfaen a'r flaenoriaeth o hyd yw datblygu a chryfhau'r sylfaen weithgynhyrchu yn Nhorfaen.

13:48 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Of course, historically, the sector has been the base of the Welsh economy, particularly in the Valleys, and I welcome your acknowledgment of the importance in Torfaen. Even today in Wales, it generates more than half of Wales's exports, even though it accounts for only one in 10 jobs. I particularly welcome that advanced materials and manufacturing is a key sector that you recognise. I wanted to ask about the Trades Union Congress's Better Jobs, Closer to Home campaign, which I've been delighted to see the Welsh Government embracing. I realise that the Minister for finance has led on those discussions, but I would like to ask whether you can update us today on what discussions you've had with the Minister and trade union colleagues on making sure that this campaign has a big impact within the manufacturing sector.

Diolch yn fawr, Weinidog. Wrth gwrs, yn hanesyddol, mae'r sector wedi bod yn sylfaen i economi Cymru, yn enwedig yn y Cymoedd, a chroesawaf eich cydnabyddiaeth o'i bwysigrwydd yn Nhorfaen. Hyd yn oed heddiw yng Nghymru, mae'n cynhyrchu dros hanner allforion Cymru, er mai un o bob 10 swydd yn unig sy'n perthyn i'r sector. Croesawaf yn arbennig y ffaith fod deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch yn sector allweddol sy'n cael ei gydnabod gennych. Roeddwn am holi ynglŷn ag ymgyrch Swyddi gwell yn nes at adref Cyngres yr Undebau Llafur, ac rwy'n falch iawn fod Llywodraeth Cymru wedi ei chroesawu. Rwy'n ymwybodol fod y Gweinidog cyllid wedi arwain ar y trafodaethau hynny, ond hoffwn ofyn a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni heddiw ynglŷn â pha drafodaethau a gawsoch gyda'r Gweinidog a chydweithwyr yn yr undebau llafur i sicrhau bod yr ymgyrch hon yn cael effaith fawr yn y sector gweithgynhyrchu.

13:48 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, you are quite right: my colleague Jane Hutt has led on this campaign, but we work closely together, and trade unions have made their individual representations to me about the importance of this campaign. When we talk about new transport systems, they're not to get people out from places all the time, they're also to get people into work. So, it's a two-way process in the Valleys, not just a one-way process down to the coast.

Ie, rydych yn llygad eich lle: mae fy nghyd-Aelod Jane Hutt wedi arwain ar yr ymgyrch hon, ond rydym yn gweithio'n agos gyda'n gilydd, ac mae undebau llafur wedi cyflwyno'u sylwadau unigol i mi ynghylch pwysigrwydd yr ymgyrch hon. Pan fyddwn yn sôn am systemau trafnidiaeth newydd, nid cludo pobl allan o leoedd yw eu pwrpas bob amser; maent yn ymwneud hefyd â chael pobl i mewn i waith. Felly, mae'n broses ddwyffordd yn y Cymoedd, nid proses unffordd i lawr at yr arfordir yn unig.

13:49 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, according to the House of Commons' library, the number of manufacturing jobs rose by 7 per cent in Scotland in the last year, but there has been a 3 per cent decline in employment in manufacturing in Wales for the same period. What reasons can the Minister give for this decline and what additional measures will she take to support manufacturing in Torfaen and other parts of Wales?

Weinidog, yn ôl llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, cododd nifer y swyddi gweithgynhyrchu 7 y cant yn yr Alban yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond bu gostyngiad o 3 y cant yn y lefelau cyflogaeth ym maes gweithgynhyrchu yng Nghymru yn yr un cyfnod. Pa resymau y gall y Gweinidog eu rhoi dros y dirywiad hwn a pha gamau ychwanegol y bydd yn eu cymryd i gefnogi gweithgynhyrchu yn Nhorfaen a rhannau eraill o Gymru?

13:49 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, we have a clear policy in supporting manufacturing. When there were the dips in the national economy, we actually put money into the system to ensure that we could help and assist businesses. Also, in terms of our training programme, they are very adept at actually coming in and helping companies when they've got particular training needs. Of course, announcements like the good announcement today will certainly enhance the prospect of further manufacturing in Wales.

Wel, mae gennym bolisi clir o ran cefnogi gweithgynhyrchu. Pan fu gostyngiadau yn yr economi genedlaethol, mewn gwirionedd rhoesom arian i mewn yn y system i sicrhau ein bod yn gallu helpu a chynorthwyo busnesau. Hefyd, mewn perthynas â'n rhaglen hyfforddiant, maent yn fedrus iawn yn dod i mewn a helpu cwmnïau pan fo ganddynt anghenion hyfforddi penodol. Wrth gwrs, bydd cyhoeddiadau fel y cyhoeddiad da heddiw yn sicr yn gwella'r rhagolygon o ran gweithgynhyrchu pellach yng Nghymru.

## Blaenoriaethau Trafnidiaeth yng Ngorllewin Cymru

## Transport Priorities for West Wales

13:50 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0676(EST)*

*4. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's transport priorities for west Wales? OAQ(4)0676(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Our transport priorities are set out in the national transport finance plan.

Mae ein blaenoriaethau trafnidiaeth wedi'u nodi yn y cynllun cyllid trafnidiaeth cenedlaethol.

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, in a statement last year, you made it clear that the dualling of the A40 could provide positive returns in the longer term and you committed to further options to improve transport links along the A40. In light of your statement, could you update Members on what steps the Welsh Government has specifically taken since your statement on the A40 last year, and can you confirm that you and the Government are now supportive of dualling the A40 in Pembrokeshire?

Weinidog, mewn datganiad y llynedd, fe wnaethoch yn glir y gallai deuoli'r A40 ddarparu buddion cadarnhaol yn y tymor hwy ac fe ymrwymoch i opsiynau pellach i wella cysylltiadau trafnidiaeth ar hyd yr A40. Yng ngoleuni eich datganiad, a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynglŷn â pha gamau penodol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd ers eich datganiad ar yr A40 y llynedd, ac a allwch gadarnhau eich bod chi a'r Llywodraeth bellach yn cefnogi deuoli'r A40 yn Sir Benfro?

Senedd.tv Fideo Video

13:50 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

We appointed an employer's agent in September last year and have begun the process of procuring a contractor to design and build the Llanddewi Velfrey part of this project. The current programme shows construction of this scheme starting at the end of 2017, subject to completion of the statutory process. The employer's agent will also look into the feasibility of an additional package of measures to improve the A40 between St Clears and Haverfordwest, using the 2+1 layout that has worked well, as you know, on the other A40 improvements. The key priority of the Haven Waterway enterprise zone is to ensure that we have the necessary infrastructure in place in terms of roads.

Penodwyd asiant y cyflogwr gennym ym mis Medi y llynedd ac rydym wedi dechrau ar y broses o gaffael contractwr i ddylunio ac adeiladu rhan Llanddewi Felffre o'r prosiect hwn. Mae'r rhaglen bresennol yn dangos y bydd y gwaith o adeiladu'r cynllun yn dechrau ar ddiwedd 2017, yn amodol ar gwblhau'r broses statudol. Bydd asiant y cyflogwr hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o becyn ychwanegol o fesurau i wella'r A40 rhwng Sanclêr a Hwlffordd, gan ddefnyddio'r drefn 2+1 sydd wedi gweithio'n dda, fel y gwyddoch, gyda'r gwelliannau eraill i'r A40. Blaenoriaeth allweddol ardal fenter Dyfrffordd y Daugleddau yw sicrhau bod y seilwaith angenrheidiol ar waith gennym o ran ffyrdd.

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Minister, I'm very pleased to hear the answer that you have just given to Paul Davies. As somebody who drives that road at least twice a week, I know the advantages that the investment has already made on that section of the road. You did say that you've employed an agent and that work will be starting on the Llanddewi Velfrey to Penblewin scheme pretty soon, Minister. Would you agree with me that this is the real value of the investment that has been made in the enterprise zone, so that we are able to work with businesses in that area to deliver the change that they need?

Weinidog, rwy'n falch iawn o glywed yr ateb rydych newydd ei roi i Paul Davies. Fel rhywun sy'n gyrru ar hyd y ffordd honno o leiaf ddwywaith yr wythnos, rwy'n ymwybodol o'r manteision sydd eisoes wedi dod i'r rhan honno o'r ffordd o ganlyniad i'r buddsoddiad. Fe ddywedoch eich bod wedi cyflogi asiant ac y bydd y gwaith yn dechrau ar gynllun Llanddewi Felffre i Benblewin yn eithaf buan, Weinidog. A ydych yn cytuno mai dyma wir werth y buddsoddiad a wnaed yn yr ardal fenter, fel ein bod yn gallu gweithio gyda busnesau yn yr ardal honno i gyflawni'r newid sydd ei angen arnynt?

Senedd.tv Fideo Video

13:52 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Yes. I think it's very important that we work with businesses and understand what their needs are. It's very important that we have a good road network in order to facilitate businesses to export out from that area and also to encourage jobs into that area.

Ydw. Credaf ei bod yn bwysig iawn i ni weithio gyda busnesau a deall beth yw eu hanghenion. Mae'n bwysig iawn fod gennym rwydwaith ffyrdd da er mwyn ei gwneud hi'n haws i fusnesau allforio o'r ardal ac i hybu swyddi yn yr ardal.

Senedd.tv Fideo Video

13:52 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rydych chi wedi bod yn gefnogol iawn hyd yn hyn o ymchwilio i'r posibiliad o ailagor y rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin. Rwyf ar ddeall bod yna drafodaethau cadarnhaol iawn yn parhau rhwng eich swyddogion chi a'r grŵp ymgyrchu Traws Link Cymru. Y cam nesaf, wrth gwrs, fydd i gomisiynu astudiaeth ddichonoldeb lawn ar gyfer y rheilffordd yma. Pryd ŷch chi'n rhagweld y bydd naill ai eich Llywodraeth chi neu'r Llywodraeth nesaf mewn sefyllfa i gymryd penderfyniad i gomisiynu astudiaeth ddichonoldeb lawn ar ailagor y rheilffordd bwysig yma?

Minister, you've been very supportive to date of looking into the possibility of reopening the rail line between Aberystwyth and Carmarthen. I'm given to understand that there have been some positive discussions ongoing between your officials and the Traws Link Cymru campaign group. The next step, of course, will be to commission a full feasibility study for this railway. When would you anticipate that either your Government or the next Government would be in a position to take a decision on commissioning a full feasibility study on reopening this important line?

13:53 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, I've had the independent scoping study and my officials have also had a peer group review workshop to look at all the issues. I'm now going to be having advice and considering the next steps with them, because I think it is important that we continue to take this project forward.

Yn amlwg, cefais yr astudiaeth gwmpasu annibynnol ac mae fy swyddogion hefyd wedi cynnal gweithdy adolygiadau gan grwpiau cymheiriaid i edrych ar yr holl faterion sy'n codi. Byddaf yn awr yn cael cyngor ac yn ystyried y camau nesaf gyda hwy, gan y credaf ei bod yn bwysig i ni barhau i ddatblygu'r prosiect hwn.

13:53 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As the Minister is well aware, Swansea is the gateway to west Wales. Transport infrastructure is important along the Fishguard to Swansea corridor, the Pembroke to Swansea corridor and the Aberaeron to Swansea corridor. What proposals are there to further improve these routes?

Fel y gŵyr y Gweinidog yn dda, Abertawe yw'r porth i orllewin Cymru. Mae seilwaith trafnidiaeth yn bwysig ar hyd y coridor o Abergwaun i Abertawe, y coridor o Benfro i Abertawe a'r coridor o Aberaeron i Abertawe. Pa gynigion sydd yna i wella'r llwybrau hyn ymhellach?

13:53 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think we've already got proposals to improve the routes, and I think there needs to be further work done in the context of discussions within the city region about them prioritising what further work needs to be done in the region to ensure that we can get economic prosperity across the whole region.

Credaf fod cynigion i wella'r llwybrau gennym eisoes, a chredaf fod angen gwneud gwaith pellach yng nghyd-destun trafodaethau yn y dinas-ranbarth ynglŷn â blaenoriaethu'r gwaith ychwanegol sydd angen ei wneud yn y rhanbarth i sicrhau ein bod yn cael ffyniant economaidd ar draws yr holl ranbarth.

13:53 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, staying with the theme of rail that was raised earlier, I'm sure that you will join me in hailing the positive news a few weeks ago that engineers within Ceredigion County Council have been working on the design for a Bow Street park and ride and a new station development. In this context, I think that would bring great benefits both to the north of Ceredigion, but also to alleviate traffic snarl-ups and parking within Aberystwyth itself. If the planning permission is forthcoming within Ceredigion, what assurance, Minister, can you give that there will be support forthcoming to take this exciting project forward to completion?

Weinidog, gan barhau gyda thema'r rheilffyrdd a grybwyllwyd yn gynharach, rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno â mi i groesawu'r newyddion cadarnhaol ychydig wythnosau yn ôl fod peirianwyr yng Nghyngor Sir Ceredigion wedi bod yn gweithio ar gynllun ar gyfer parcio a theithio yn Bow Street a gorsaf newydd. Yn y cyd-destun hwn, credaf y byddai hynny nid yn unig yn dod â manteision mawr i ogledd Ceredigion, ond hefyd yn lleddfu tagfeydd traffig a pharcio yn Aberystwyth ei hun. Os caiff y caniatâd cynllunio ei roi yng Ngheredigion, pa sicrwydd y gallwch ei roi, Weinidog, y rhoddir cymorth i gwblhau'r prosiect cyffrous hwn?

13:54 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I had the opportunity of visiting Bow Street station with the Assembly Member Elin Jones, and meeting some of the campaigners about the importance of Bow Street in terms of what we should be doing with stations. I have also raised the matter with Network Rail, because I think it is quite important, and some of the rail groups that are involved, which also think it's very important we have that undertaken. Obviously, these decisions might come outside my time of office here, but I think we are very committed to what we think is an extremely viable scheme in terms of improvements in Bow Street.

Cefais gyfle i ymweld â gorsaf Bow Street gyda'r Aelod Cynulliad Elin Jones, a chyfarfod â rhai o'r ymgyrchwyr ynglŷn â phwysigrwydd Bow Street o ran yr hyn y dylem fod yn ei wneud gyda gorsafoedd. Rwyf hefyd wedi crybwyll y mater wrth Network Rail, gan fy mod yn credu ei fod yn bwysig, a rhai o'r grwpiau rheilffyrdd cysylltiedig, sydd hefyd yn meddwl bod hynny'n bwysig iawn. Yn amlwg, efallai y daw'r penderfyniadau hyn ar ôl fy amser yn y swydd hon, ond credaf ein bod wedi ymrwymo'n fawr i'r hyn rydym yn ei ystyried yn gynllun hynod o ymarferol o ran gwelliannau yn Bow Street.

13:55 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rhan allweddol o seilwaith rheilffyrdd Cymru, wrth gwrs, yw rheilffyrdd y Cambrian o Amwythig i Aberystwyth ac o Fachynlleth i Bwllheli. Beth yw ymateb y Gweinidog i'r ffigurau rhyfeddol a ddangosodd gynnydd o dros 40 y cant yn y defnydd o'r rheilffordd i Aberystwyth a chynnydd ymron i 90 y cant yn y defnydd o reilffordd Arfordir y Cambrian? A yw'r Gweinidog yn sicr, ar ôl ei chyfnod disglair hi fel Gweinidog trafnidiaeth, y bydd yna barhad i fuddsoddi a datblygu y gwasanaethau hyn?

A key part of the rail infrastructure of Wales, of course, is the Cambrian lines from Shrewsbury to Aberystwyth and from Machynlleth to Pwllheli. What is the Minister's response to the incredible figures that showed an increase of over 40 per cent in the use of the line to Aberystwyth and an increase of almost 90 per cent in the use of the Cambrian Coast line? Is the Minister assured that, following her excellent spell as transport Minister, there will be continued investment and development of these services?

13:55 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I very much hope there will be continued development of this service, because I think the figures speak for themselves. It's important to recognise that if we are a devolved nation, we need to have the infrastructure that suits all the people who live within Wales.

Wel, gobeithiaf yn fawr y bydd y gwasanaeth hwn yn parhau i gael ei ddatblygu, gan fy mod yn credu bod y ffigurau'n siarad drostynt eu hunain. Mae'n bwysig cydnabod, os ydym yn genedl ddatganoledig, fod angen seilwaith arnom sy'n addas i'r holl bobl sy'n byw yng Nghymru.

**Gwella Economi Gorllewin Cymru**

**Improving the Economy of West Wales**

13:56 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella economi gorllewin Cymru? OAQ(4)0675(EST)*

*5. What is the Welsh Government doing to improve the economy of west Wales? OAQ(4)0675(EST)*

13:56 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We're taking forward a wide range of issues, including support for new and existing businesses, infrastructure improvements, business rates for small businesses, promoting Wales as a tourism destination and, of course, specifically within your area, the Haven Waterway enterprise zone.

Rydym yn bwrw ymlaen ag ystod eang o faterion, gan gynnwys cymorth i fusnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes, gwelliannau seilwaith, ardrethi busnes ar gyfer busnesau bach, hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i dwristiaid, ac wrth gwrs, yn eich ardal chi yn benodol, ardal fenter Dyfrffordd y Daugleddau.

13:56 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, last year, you announced that the Welsh Government was exploring an option to deliver a floating pontoon to allow large cruise ships to berth at Fishguard port from 2016 onwards. This, of course, would help in improving the local economy. Can you update us on the work that has been done on this specific project, as well as how the Welsh Government works with the port and other external partners to ensure that the commercial opportunities are actually maximised for the local area?

Weinidog, y llynedd, fe gyhoeddoch fod Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiwn i gyflwyno pontŵn arnofiol i ganiatáu i longau mordeithio angori ym mhorthladd Abergwaun o 2016 ymlaen. Byddai hyn, wrth gwrs, yn helpu i wella'r economi leol. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynglŷn â'r gwaith sydd wedi'i wneud ar y prosiect penodol hwn, yn ogystal â sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r porthladd a phartneriaid allanol eraill i sicrhau'r cyfleoedd masnachol gorau posibl mewn gwirionedd i'r ardal leol?

13:56 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. A new pontoon will be used by cruise liners in Fishguard this year. It's a Stena Line pontoon project, funded through the tourism investment support scheme. It will allow vessels to anchor out of the harbour and bring passengers in by tender. We think this is enormously important, but it's also nice to know that some of the cruise ships really delight in coming into Fishguard, and it's very important that we continue to have that business in.

Gallaf. Bydd pontŵn newydd yn cael ei ddefnyddio gan longau mordeithio yn Abergwaun eleni. Mae'n un o brosiectau pontŵn Stena Line, a ariennir drwy'r cynllun cymorth buddsoddi mewn twristiaeth. Bydd yn caniatáu i longau angori y tu allan i'r harbwr a chludo teithwyr i mewn drwy dendr. Credwn fod hyn yn hynod o bwysig, ond mae hefyd yn braf gwybod bod rhai o'r llongau mordeithio wrth eu bodd yn dod i Abergwaun, ac mae'n bwysig iawn ein bod yn parhau i gael y busnes hwnnw yno.

13:57 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will know that many of the companies in the Milford Haven enterprise zone are keen to contract with a potential barrage—a tidal lagoon, I should say—in Swansea bay, and that that is of great interest to west Wales because of the marine engineering and the very good transport links by sea, if necessary, that we have there. I am declaring an interest as a community shareholder in the proposal, as are many thousands and hundreds of local people, in the tidal barrage. What further talks have you had since the Government has decided to re-commission a completely new look at tidal energy, when we know the potential for tidal energy, both in terms of energy generation but in terms of job creation as well? Are you—the Welsh Government—part of this assessment, and what are you doing to try and influence the direction it takes?

Weinidog, fe fyddwch yn gwybod bod llawer o'r cwmnïau yn ardal fenter Aberdaugleddau yn awyddus i gontractio gyda'r morglawdd posibl—morlyn llanw, dylwn ddweud—ym mae Abertawe, a bod hwnnw o ddiddordeb mawr i orllewin Cymru oherwydd y beirianneg forol a'r cysylltiadau trafnidiaeth da iawn dros y môr sydd gennym yno os oes angen. Rwy'n datgan diddordeb fel cyfranddaliwr cymunedol yn y cynnig, fel cannoedd a miloedd lawer o bobl leol, yn y morglawdd llanw. Pa drafodaethau pellach a gawsoch ers i'r Llywodraeth benderfynu ailgomisiynu ystyriaeth hollol newydd o ynni'r llanw, a ninnau'n gwybod am botensial ynni'r llanw, o ran cynhyrchu ynni ond o ran creu swyddi hefyd? A ydych chi—Llywodraeth Cymru—yn rhan o'r asesiad hwn, a beth rydych yn ei wneud i geisio dylanwadu ar ei gyfeiriad?

13:58 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I had a discussion with Amber Rudd, once the decision was made that they were going to appoint independent chairs, who are even going to be independent of them, so we understand. I also continued discussions with Lord Bourne earlier this week to make the views of the Assembly quite clear across the piece: that we were broadly in favour, in principle, of the tidal lagoon and wished for the project to go forward. We've also indicated to them that if there's an independent assessment and an independent chair, we'd obviously like access with any information that we can bear to help with the independent chair. I think that the appointment of that independent chair will be quite important in terms of the direction of travel of that particular commission.

Ie, cefais drafodaeth gydag Amber Rudd, ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud eu bod am benodi cadeiryddion annibynnol, sy'n mynd i fod yn annibynnol arnynt hwy hyd yn oed, yn ôl yr hyn a ddeallwn. Bûm hefyd yn parhau â thrafodaethau gyda'r Arglwydd Bourne yn gynharach yr wythnos hon i wneud safbwyntiau'r Cynulliad yn glir yn gyffredinol: ein bod i raddau helaeth o blaid y morlyn llanw, mewn egwyddor, ac yn dymuno i'r prosiect fynd yn ei flaen. Rydym hefyd wedi dweud yn glir wrthynt, os ceir asesiad annibynnol a chadeirydd annibynnol, byddem yn amlwg yn hoffi mynediad gydag unrhyw wybodaeth y gallwn ei rhoi i helpu'r cadeirydd annibynnol. Credaf y bydd penodi'r cyfryw gadeirydd annibynnol yn eithaf pwysig o ran cyfeiriad teithio'r comisiwn arbennig hwnnw.

## Gwella'r A55

## Improving the A55

13:58 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith i wella'r A55? OAQ(4)0673(EST)*

*6. Will the Minister provide an update on improvement works to the A55? OAQ(4)0673(EST)*

13:58 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think we've got a number of projects under way to improve the safety and resilience of this key route. I think it's very important that we continue our investment in this route. The current works on the Conwy tunnel are part of a £42 million investment in the infrastructure of north Wales.

Wel, credaf fod nifer o brosiectau gennym ar waith i wella diogelwch a chydnerthedd y llwybr allweddol hwn. Credaf ei bod yn bwysig iawn i ni barhau â'n buddsoddiad yn y llwybr. Mae'r gwaith presennol ar dwnnel Conwy yn rhan o fuddsoddiad gwerth £42 miliwn yn seilwaith gogledd Cymru.

13:59 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. The millions of pounds that the Government is investing in improving the A55 are, of course, welcome but you will know, Minister, that improvement works have to be carried out, and they often cause disruption. Can I ask that, once all these works are ongoing, they stick to a strict timetable, accepting that weather and other problems can intervene, and that the public are fully informed and disruption of what is the vital major traffic artery for north Wales is kept to a minimum?

Diolch. Wrth gwrs, croesawir y miliynau o bunnoedd y mae'r Llywodraeth yn ei fuddsoddi i wella'r A55, ond fe fyddwch yn gwybod, Weinidog, fod yn rhaid cyflawni gwaith gwella ar y ffyrdd, a'i fod yn aml yn achosi aflonyddwch. A gaf fi ofyn, pan fydd yr holl waith hwn ar y gweill, eu bod yn cadw at amserlen gaeth, gan dderbyn y gall tywydd a phroblemau eraill ymyrryd, a bod y cyhoedd yn cael yr holl wybodaeth, a bod cyn lleied â phosibl o aflonyddu ar y llwybr hwn sy'n brif wythïen draffig hanfodol yng ngogledd Cymru?

13:59 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I totally concur, and I think it is important that information is always available beforehand on the Traffic Wales website and roadside signs. Issues have been raised with me that that hasn't necessarily always been the case. I understand how disruptive it can be, but it is about safety and the reliability of the network, which is my major and primary concern. Officials do work hard to try and keep disruption to a minimum. It is important that we recognise that, even though there is disruption, it is actually for the good of the travelling public in the future.

Wel, cytunaf yn llwyr, a chredaf ei bod yn bwysig fod gwybodaeth ar gael ymlaen llaw bob amser ar wefan Traffig Cymru ac ar arwyddion ar ochr y ffordd. Tynnwyd fy sylw at bryderon nad yw hynny o reidrwydd wedi bod yn wir bob amser. Rwy'n deall cymaint o aflonyddwch y gall hyn ei achosi, ond mae'n ymwneud â diogelwch a dibynadwyedd y rhwydwaith, sef yr hyn sydd bwysicaf i mi yn y bôn. Mae swyddogion yn gweithio'n galed i sicrhau cyn lleied â phosibl o aflonyddwch. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod, er gwaethaf yr aflonyddwch, ei fod mewn gwirionedd er lles y cyhoedd sy'n teithio yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you'll be aware that, over a year ago, at a cost of £4 million to the taxpayer, emergency cross-over points to facilitate traffic, especially during delays and congestion, were installed on the A55. Yet, during all the very many weeks that we had problematic roadworks there, these barriers were not used. I have to say that a lot of motorists and residents in Aberconwy are furious about this. Minister, will you confirm, please, and tell the Chamber why they were not used, when they have actually been put in there? And can you give us assurances that, during any more problematic roadworks there, these will be used at all times?

Weinidog, dros flwyddyn yn ôl, ar gost o £4 miliwn i'r trethdalwr, fe wyddoch fod lonydd gwrthlif mewn argyfwng wedi'u gosod ar yr A55 er mwyn hwyluso traffig, yn enwedig yn ystod cyfnodau o oedi a thagfeydd. Eto i gyd, yn ystod y nifer fawr o wythnosau y bu gwaith ffordd problemus yno, ni ddefnyddwyd y rhwystrau hyn. Mae'n rhaid i mi ddweud bod llawer o fodurwyr a thrigolion yn Aberconwy wedi'u gwylltio ynglŷn â hyn. Weinidog, a wnewch chi gadarnhau, os gwelwch yn dda, a dweud wrth y Siambr pam na chawsant eu defnyddio ar ôl eu rhoi yno? Ac a allwch roi sicrwydd i ni, yn ystod unrhyw waith ffordd problemus arall yno, y caiff y rhain eu defnyddio bob amser?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can we please not use the words 'problematic roadworks'? These roadworks have been undertaken for the safety and reliability of the network and for the safety and reliability of the people who are travelling on it. My primary concern when I do these roadworks is to ensure human life at the end of the day, because that is my principal concern. I appreciate how difficult some of this will be, and my officials try as hard as they can to mitigate it. I will certainly draw attention to your comments to my officials who help to run the network.

A gawn ni beidio â defnyddio'r geiriau 'gwaith ffordd problemus'? Gwnaed y gwaith hwn ar y ffordd er mwyn sicrhau diogelwch a dibynadwyedd y rhwydwaith a diogelwch a dibynadwyedd y bobl sy'n teithio arno. Y peth pwysicaf i mi pan wyf yn ymgymryd â'r gwaith hwn ar y ffordd yw diogelu bywydau pobl yn y pen draw, gan mai dyna sydd bwysicaf i mi. Rwy'n sylweddoli pa mor anodd yw peth o hyn, ac mae fy swyddogion yn ymdrechu mor galed ag y gallant i'w liniaru. Byddaf yn sicr yn dod â'ch sylwadau i sylw fy swyddogion sy'n helpu i gynnal y rhwydwaith.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, mae'r Llywodraeth, wrth gwrs, wedi ymrwymo bellach i uwchraddio'r A55 rhwng Abergwyngregyn a Thai'r Meibion. A allwch chi gadarnhau pryd yr ydych yn rhagweld y bydd y gwaith yna'n cychwyn ac, o bosibl, pryd yr ydych yn rhagweld y bydd y gwaith wedi'i gwblhau?

Minister, the Government has, of course, committed to upgrading the A55 between Abergwyngregyn and Tai'r Meibion. Can you confirm when you anticipate that work will start and when you anticipate it will be completed?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm not quite sure on the actual start date, and therefore I wouldn't know the completion date. So, in all honesty, I will check these figures rather than rely on my memory.

Wel, nid wyf yn hollol siŵr ynglŷn â'r dyddiad cychwyn, ac felly ni fyddwn yn gwybod y dyddiad cwblhau. Felly, a bod yn onest, fe edrychaf ar y ffigurau hyn yn hytrach na dibynnu ar fy nghof.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, pan wnaethoch chi gyhoeddi'r buddsoddiad o £42 miliwn yn y twneli yng Nghonwy i uwchraddio'r A55, ar 24 Mehefin y llynedd, fe ddywedasoch bryd hynny bod yna adolygiad llawn ynghylch pa welliannau eraill yr oedd eu hangen ar yr A55. A yw'r adolygiad hwnnw wedi cael ei gomisiynu, ac a ydych chi mewn sefyllfa i ddweud pryd y bydd yr adolygiad yn cael ei gyhoeddi?

Minister, when you announced the investment of £42 million in the Conwy tunnels to upgrade the A55, on 24 June last year, you stated that there was a full review of what other improvements were required on the A55. Has that review been commissioned and are you in a position to tell us when it will be published?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

There's ongoing work on that, and I would very much hope that some of this work will be completed in time for me to advise Assembly Members before we go into recess.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hynny, a byddwn yn gobeithio'n fawr y cwblheir rhywfaint o'r gwaith hwn mewn pryd i mi allu rhoi gwybod i Aelodau'r Cynulliad cyn y toriad.

Senedd.tv Fideo Video

### Buddsoddiad yn Nhorfaen

### Investment in Torfaen

14:02 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi mwy o fuddsoddiad yn Nhorfaen? OAQ(4)0678(EST)*

*7. Will the Minister outline the Welsh Government's priorities for supporting increased investment in Torfaen? OAQ(4)0678(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

It's a priority across the whole of Wales. We have a variety of programmes, including the provision of business support through Business Wales and transport and ICT infrastructure projects.

Mae'n flaenoriaeth ledled Cymru gyfan. Mae gennym amrywiaeth o raglenni, gan gynnwys darparu cymorth i fusnesau drwy Busnes Cymru a phrosiectau trafnidiaeth a seilwaith TGCh.

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. I was delighted that you could join me on Monday to visit the Parkway Hotel in Cwmbran. As you know, the hotel, which is owned by the de Savary family, has benefited from a lot of investment to improve facilities. I hope that, like me, you were incredibly impressed by the new rooms and facilities that they have there. Going forward, how best can we ensure that marketing packages to local businesses and further afield make clear all the excellent facilities we have available in Torfaen, so that we can maximise future investment?

Diolch yn fawr, Weinidog. Roeddwn yn falch iawn o glywed y gallwch ymuno â mi ddydd Llun i ymweld â Gwesty'r Parkway yng Nghwmbrân. Fel y gwyddoch, mae'r gwesty, sy'n eiddo i deulu de Savary, wedi elwa o lawer o fuddsoddiad i wella cyfleusterau. Rwy'n gobeithio bod yr ystafelloedd a'r cyfleusterau newydd sydd ganddynt yno wedi gwneud argraff arnoch, fel y gwnaethant arnaf innau. Wrth symud ymlaen, beth yw'r ffordd orau y gallwn sicrhau bod pecynnau marchnata i fusnesau lleol ac ymhellach i ffwrdd yn tynnu sylw at yr holl gyfleusterau ardderchog sydd ar gael gennym yn Nhorfaen, er mwyn i ni allu manteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad yn y dyfodol?

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I think it's very important that, when the city region group there looks at the opportunities for encouraging business in, particularly in the tourism agenda, they take the benefit of all facilities that are available in this region and try to market them appropriately.

Pan fydd y grŵp dinas-ranbarth yno yn edrych ar y cyfleoedd i annog busnesau, yn enwedig yn yr agenda dwristiaeth, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn eu bod yn elwa o'r holl gyfleusterau sydd ar gael yn y rhanbarth hwn ac yn ceisio'u marchnata yn briodol.

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Minister, what assessment have you made of the proposed—or hopefully proposed—improvements to the M4 relief road, which will enable greater investment in places like Torfaen?

Weinidog, pa asesiad a wnaethoch o'r gwelliannau arfaethedig—neu'r gwelliannau y gobeithir eu bod yn arfaethedig—i ffordd liniaru'r M4, a fydd yn galluogi mwy o fuddsoddi mewn llefydd fel Torfaen?

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

The indications, when we were looking at these issues, and the views that are coming from business, are that it'll make a dramatic difference for accessibility for business; it'll be seen to be more on the map. There won't be the overcrowding on the roads. This is something that we've really got to sell. You note, I think, by the support from the Confederation of British Industry, that they feel the same as we do about this.

Pan oeddem yn edrych ar y materion hyn, yr arwyddion, a'r safbwyntiau sy'n dod o'r byd busnes yw y bydd yn gwneud gwahaniaeth dramatig i hygyrchedd busnesau; bydd yn ymddangos yn fwy ar y map. Ni fydd y ffyrdd yn gorlenwi. Mae hyn yn rhywbeth sy'n rhaid i ni ei werthu o ddifrif. Rydych yn nodi, rwy'n meddwl, o'r gefnogaeth gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain, eu bod yn teimlo'r un fath â ni ynglŷn â hyn.

Senedd.tv Fideo Video

## Mewnfuddsoddi yng Ngorllewin Cymru

## Inward Investment into West Wales

14:04

### Angela Burns [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fewnfuddsoddi yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0677(EST)*

*8. Will the Minister make a statement on inward investment into west Wales? OAQ(4)0677(EST)*

14:04

### Edwina Hart [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Yes; 2014-15 was an exceptional year for attracting inward investment into Wales, both from overseas and elsewhere in the UK.

Gwnaf; roedd 2014-15 yn flwyddyn eithriadol o ran denu mewnfuddsoddiad i Gymru, o dramor ac o lefydd eraill yn y DU.

14:04

### Angela Burns [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you, Minister. I read with interest this morning the report of the Swansea bay city region’s intention to create an internet coast in south-west Wales. Apparently, a fibre-optic transatlantic cable will be a game-changer in the provision of ultra-fast broadband. Minister, will this improve the woeful broadband coverage experienced by so many of my constituents and their businesses in Carmarthen West and South Pembrokeshire? If it does, how will it improve that woeful broadband coverage? I’m beginning to fear that, like the Llanddewi Velfrey bypass, comprehensive broadband deployment in my constituency appears to be nothing more than a chimera.

Diolch yn fawr, Weinidog. Darllenais gyda diddordeb y bore yma yr adroddiad ar fwriad dinas-ranbarth Bae Abertawe i greu arfordir rhyngrwyd yn ne-orllewin Cymru. Mae’n debyg y bydd cebl ffeibr optig trawsatlantig yn newid pethau o ran darparu band eang tra chyflym. Weinidog, a fydd hyn yn gwella’r signal band eang truenus y mae cymaint o fy etholwyr a’u busnesau yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro yn ei brofi? Os felly, sut y bydd yn gwella’r signal band eang truenus hwnnw? Rwy’n dechrau ofni, fel ffordd osgoi Llanddewi Felffre, nad yw darpariaeth gynhwysfawr o fand eang yn fy etholaeth yn ddim mwy na rhith.

14:04

### Edwina Hart [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I’m very pleased with the plans that have been put forward for the city deal, which you’re obviously referring to. I think they’re very innovative across the piece and they have the agreement of the four local authorities, and they’ve worked well collaboratively together.

Rwy’n falch iawn o’r cynlluniau sydd wedi’u cyflwyno ar gyfer y cytundeb dinas yr ydych yn amlwg yn cyfeirio ato. Rwy’n credu eu bod yn arloesol iawn yn gyffredinol. Mae’r pedwar awdurdod lleol wedi cytuno arnynt ac maent wedi cydweithio’n dda.

In terms of broadband, there are people in my constituency who say ‘woeful’, and there are others who say ‘wonderful’. In terms of the project, it is on track to deliver. It might take a bit longer in some areas, but we are trying to ensure that we keep to our commitment. We have already done so, in terms of the broad figures of our commitment, but there is more to do in certain areas, and improvements in mobile coverage will help some of your constituents as well, because we’ve got to look at other technologies to be able to deliver on.

O ran band eang, ceir pobl yn fy etholaeth i sy’n dweud ‘truenus’, a cheir eraill sy’n dweud ‘gwych’. O ran y prosiect, mae ar y trywydd iawn i gyflawni. Gallai gymryd ychydig yn hirach mewn rhai ardaloedd, ond rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn cadw at ein hymrwymiad. Rydym eisoes wedi gwneud hynny, o ran ffigurau bras ein hymrwymiad, ond mae mwy i’w wneud mewn rhai ardaloedd, a bydd gwelliannau yn y signal ffonau symudol yn helpu rhai o’ch etholwyr hefyd, gan fod yn rhaid i ni edrych ar gyflawni mewn perthynas â thechnolegau eraill hefyd.

14:05 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'm not called Charlotte, and I'm no longer in my 30s, and I'm not cool, but I welcome Aston Martin coming to Wales. I'm particularly interested, however, that the technology that they're using is electric, because, as Professor Garel Rhys has noted, this could be the second coming of car manufacturing in Wales, using electric vehicles. I'm particularly interested in the supply chain now down to the west, because in places like Llanelli, for example, we still have an automotive supply chain, which is at the moment limited to the traditional car market, but this opens up new possibilities for new technologies. Can you say a little more—I understand there might be an urgent question later, but can you say a little more about how you're going to build the supply chain, particularly in places in west Wales, where we already have the skills to contribute to this wonderful investment?

Weinidog, nid Charlotte yw fy enw, ac nid wyf yn fy 30au mwyach, ac nid wyf yn cŵl, ond rwy'n croesawu'r ffaith fod Aston Martin yn dod i Gymru. Mae'n ddiddorol iawn, fodd bynnag, mai technoleg drydanol y maent yn ei defnyddio, oherwydd, fel y mae'r Athro Garel Rhys wedi'i nodi, gallai hon fod yn ail don o weithgynhyrchu ceir yng Nghymru, gan ddefnyddio cerbydau trydan. Mae gennyf ddiddordeb arbennig yn y gadwyn gyflenwi yn awr i lawr i'r gorllewin, oherwydd mewn llefydd fel Llanelli, er enghraifft, mae gennym gadwyn gyflenwi moduron o hyd, sydd ar hyn o bryd yn gyfyngedig i'r farchnad geir draddodiadol, ond mae hyn yn agor posibiliadau newydd ar gyfer technolegau newydd. A allwch chi ddweud ychydig mwy—deallaf y gallai fod cwestiwn brys yn nes ymlaen, ond a allwch ddweud ychydig mwy ynglŷn â sut rydych am ddatblygu'r gadwyn gyflenwi, yn enwedig mewn mannau yng ngorllewin Cymru, lle rydym eisoes yn meddu ar y sgiliau i gyfrannu at y buddsoddiad gwych hwn?

14:06 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, and part of Aston Martin's decision to come to Wales was the good news in terms of the skills of the workforce that would be available, and issues around the supply chain. So, we will be working with them on the supply chain to maximise the amount that comes in from all part of Wales into Aston Martin. But I think that was a vote of confidence in the fact that we were able to deliver as a nation across all aspects of what they required. It is certainly very exciting, as they will move eventually to electric vehicles.

Gallaf, a rhan o benderfyniad Aston Martin i ddod i Gymru oedd y newyddion da o ran sgiliau'r gweithlu a fyddai ar gael, a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi. Felly, byddwn yn gweithio gyda hwy ar y gadwyn gyflenwi i sicrhau bod cymaint â phosibl yn dod at Aston Martin o bob rhan o Gymru. Ond credaf mai pleidlais o hyder ydoedd yn y ffaith ein bod yn gallu cyflawni fel cenedl ar draws pob agwedd ar yr hyn y maent ei angen. Mae'n sicr yn gyffrous iawn, gan y byddant yn symud yn y pen draw tuag at gerbydau trydan.

## Cronfa Benthyciadau i Ficrofusnesau Cymru

## The Wales Microbusiness Loan Fund

14:06 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd cronfa benthyciadau i ficrofusnesau Cymru? OAQ(4)0680(EST)*

*9. Will the Minister make a statement on the progress of the Wales microbusiness loan fund? OAQ(4)0680(EST)*

14:06 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. The successful £6 million fund was launched in 2013 and is now nearly fully invested and will receive a £6 million boost to support this important business sector.

Gwnaf. Lansiwyd y gronfa lwyddiannus o £6 miliwn yn 2013 ac mae bellach bron wedi'i fuddsoddi'n llawn a bydd yn cael hwb o £6 miliwn i gefnogi'r sector busnes pwysig hwn.

14:07 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. What opportunities will become available to the people of Islwyn with the creation and safeguarding of 1,000 jobs plus in Wales following the Welsh Government's boost of the £6 million to the Welsh microbusiness loan fund?

Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Pa gyfleoedd fydd ar gael i bobl Islwyn gyda chreu a diogelu 1,000 a mwy o swyddi yng Nghymru yn dilyn hwb Llywodraeth Cymru o £6 miliwn i gronfa benthyciadau i ficrofusnesau Cymru?

14:07 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the fund can support start-up businesses across Wales and of course in your constituency, and, as well as the microbusiness fund, we've also launched a £5 million repayable fund for small and medium-sized enterprises and a new £10 million Wales technology venture investment fund. I think that is good news as well for businesses within your area.

Wel, gall y gronfa gefnogi busnesau newydd ledled Cymru ac wrth gwrs, yn eich etholaeth, ac yn ogystal â'r gronfa microfusnesau, rydym hefyd wedi lansio cronfa ad-daladwy o £5 miliwn ar gyfer mentrau bach a chanolig a chronfa newydd o £10 miliwn i'w fuddsoddi mewn mentrau technoleg yng Nghymru. Credaf fod hynny'n newyddion da hefyd i fusnesau yn eich ardal.

14:07 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, we welcome the news that Welsh SMEs will now be able to make use of the two-day application process for loans of between £1,000 and £5,000. There are clear benefits to companies not having to wait 10 days. However, it's still extremely important that applications are fully risk checked and considered. There are lots of examples, Minister, as you'll be aware, where the Welsh Government has provided funds and that has been followed by the business closing and the taxpayer losing out, such as Ideoba in Bridgend. How will you make sure that Finance Wales remains satisfied that they are making a sound investment when processing applications in two days rather than 10?

Weinidog, rydym yn croesawu'r newyddion y bydd busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn awr yn gallu defnyddio'r broses ymgeisio ddau ddiwrnod o hyd am fenthyciadau rhwng £1,000 a £5,000. Mae manteision amlwg i'r ffaith nad yw cwmnïau'n gorfod aros am 10 diwrnod. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn hynod o bwysig gwirio risg ceisiadau a'u hystyried yn llawn. Mae llawer o enghreifftiau, Weinidog, fel y byddwch yn gwybod, lle y mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid a'r busnes wedi cau wedyn gan olygu bod y trethdalwr ar ei golled, fel y digwyddodd gydag Ideoba ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Sut y byddwch yn sicrhau bod Cyllid Cymru yn parhau'n fodlon eu bod yn gwneud buddsoddiad cadarn wrth brosesu ceisiadau mewn dau ddiwrnod yn hytrach na 10?

14:08 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

When you use the phrase 'lots of businesses', that implies the majority of businesses haven't been helped or something's gone wrong. Well, that is far from the case. It is a minority and very small numbers that haven't been successful. We carry out all the necessary due diligence, but there will always be failures. That's the nature of the market.

Pan fyddwch yn defnyddio'r ymadrodd 'llawer o fusnesau', mae hynny'n awgrymu na chafodd y mwyafrif o fusnesau gymorth neu fod rhywbeth wedi mynd o'i le. Wel, mae hynny'n bell o fod yn wir. Lleiafrif bychan iawn yw'r rhai na fu'n llwyddiannus. Rydym yn cyflawni'r holl gamau diwydrwydd dyladwy angenrheidiol, ond bydd yna bob amser fethiannau. Dyna natur y farchnad.

14:08 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The microbusiness loans are, I think, a very good move forward, as is the Government's investment generally, in particular in the bioscience industry. Is the Minister aware of potential job losses at GE Healthcare? As I understand it, there is a possibility of some of the manufacturing jobs in the paper conversion work that's done there being relocated to China. Does she have any more information to tell the Senedd today?

Mae'r benthyciadau i ficrofusnesau, rwy'n meddwl, yn gam da iawn ymlaen, fel y mae buddsoddiad y Llywodraeth yn gyffredinol, yn enwedig yn y diwydiant biowyddoniaeth. A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o'r swyddi posibl y gellid eu colli yn GE Healthcare? Yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae'n bosibl y caiff rhai o'r swyddi gweithgynhyrchu yn y gwaith trawsnewid papur a wneir yno eu hadleoli i Tsieina. A oes ganddi fwy o wybodaeth i'w roi i'r Senedd heddiw?

14:09 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, we are aware of the issues surrounding GE. My officials are liaising with the company, and I will issue a letter to Members updating them in due course when I have substantive information.

Ie, rydym yn ymwybodol o'r materion sy'n gysylltiedig â GE. Mae fy swyddogion yn cysylltu â'r cwmni, a byddaf yn cyhoeddi llythyr at yr Aelodau yn rhoi'r newyddion diweddaraf iddynt maes o law pan fydd gennyf wybodaeth o sylwedd.

14:09 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A wnewch chi, Weinidog, gyhoeddi'r ystadegau sy'n dangos patrwm a dosbarthiad y grantiau i ficrofusnesau ar sail etholaethol neu sirol yng Nghymru?

Minister, will you publish statistics that show the pattern of distribution of these grants to microbusinesses on a constituency or county basis in Wales?

14:09 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. If we are able to do that easily and quickly, I will do so.

Gwnaf. Os gallwn wneud hynny'n rhwydd ac yn gyflym, byddaf yn gwneud hynny.

### Hyrwyddo Twristiaeth (Dwyrain De Cymru)

### Promoting Tourism (South Wales East)

14:09 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo twristiaeth yn Nwyrain De Cymru? OAQ(4)0670(EST)*

*10. What action is the Welsh Government taking to promote tourism in South Wales East? OAQ(4)0670(EST)*

14:09

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

Senedd.tv Fideo Video

Our tourism strategy sets out our priorities to support the tourism industry and marketing and promotional activities, including capital and development funding.

Mae ein strategaeth dwristiaeth yn nodi ein blaenoriaethau i gefnogi'r diwydiant twristiaeth a gweithgareddau marchnata a hyrwyddo, gan gynnwys cyllid datblygu a chyfalaf.

14:09

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. South Wales East has many venues that attract tourists on day trips, such as Caerphilly castle, Tintern abbey, Big Pit in Blaenavon and the transporter bridge in Newport. The Great Britain day visits survey has revealed that the number of day trips to Wales from other parts of the UK fell by nearly a fifth in 2015 compared to the same period in the previous year. What action will you take to promote visitor attractions in south-east Wales and elsewhere to the rest of the United Kingdom to reverse this decline in day trips?

Diolch yn fawr, Weinidog. Mae gan Ddwyrain De Cymru lawer o leoliadau sy'n denu twristiaid ar deithiau undydd, megis castell Caerffili, abaty Tyndyrn, Big Pit ym Mlaenafon a'r bont gludo yng Nghasnewydd. Mae arolwg o ymweliadau undydd ym Mhrydain wedi datgelu bod nifer y teithiau undydd i Gymru o rannau eraill o'r DU wedi gostwng bron i un rhan o bump yn 2015, o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i hyrwyddo atyniadau i ymwelwyr yn ne-ddwyrain Cymru a mannau eraill i weddill y Deyrnas Unedig er mwyn gwrthdroi'r gostyngiad hwn yn nifer y teithiau undydd?

14:10

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's interesting the Member is very selective in the choice of statistics that he quotes. The fact of the matter is that overnight visits are rising fast because people are translating day visits into holidays, which is precisely what we want, and then you have the corresponding increase in tourist spending in Wales. Surely, that's something that the Member in south-east Wales should welcome. The fact is that spending by visitors, both day visitors and holiday visitors, is now £2 billion in the economy of the south-east of Wales—rising fast under this Welsh Labour Government.

Mae'n ddiddorol fod yr Aelod yn ddetholus iawn o ran y dewis o ystadegau y mae'n eu dyfynnu. Y ffaith amdani yw bod ymweliadau dros nos yn cynyddu'n gyflym am fod pobl yn troi ymweliadau undydd yn wyliau, sef yr union beth rydym ei eisiau, ac yna fe welwch y cynnydd cyfatebol yn y gwariant gan dwristiaid yng Nghymru. Yn sicr, dyna rywbeth y dylai'r Aelod yn ne-ddwyrain Cymru ei groesawu. Y ffaith yw bod gwariant gan ymwelwyr, ymwelwyr undydd ac ymwelwyr ar eu gwyliau, bellach yn £2 biliwn yn economi de-ddwyrain Cymru—ac wedi codi'n gyflym o dan y Llywodraeth Lafur hon.

14:11

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the tourism industry and experts all agree that to achieve substantial growth in this sector and in south-east Wales and beyond, we must focus more on overseas marketing. Do you think that the £4 million allocated for the 2016 Year of Adventure marketing is enough to compete with marketing from other parts of Europe and will it include, please, all regions of Wales, in particular the south-east?

Weinidog, er mwyn cyflawni twf sylweddol yn y sector hwn ac yn ne-ddwyrain Cymru a thu hwnt, mae'r diwydiant twristiaeth a'r arbenigwyr i gyd yn cytuno bod yn rhaid i ni ganolbwyntio mwy ar farchnata tramor. A ydych yn meddwl bod y £4 miliwn a ddyrannwyd tuag at farchnata Blwyddyn Antur 2016 yn ddigon i gystadlu â marchnata o rannau eraill o Ewrop ac a fydd yn cynnwys pob rhanbarth o Gymru, a'r de-ddwyrain yn benodol?

14:11

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, it will indeed. Actually, the Member raises a very important point, which is that the themed year, the Year of Adventure, has been an incredible success; £4 million is proving to be sufficient. It's not just the direct advertising that contributes to this initiative, it's the advertising equivalent. We saw at the start of this year, because we've themed Wales the Year of Adventure in 2016, that we attracted unprecedented features in publications such as the 'Rough Guide' and the 'Lonely Planet'. The biggest challenge that we face—the biggest threat that we face—in the tourism sector is from the possibility of the UK leaving the EU. 'The Daily Telegraph', which is not exactly a cheerleader for our continued EU membership, published a story earlier this month that highlighted not just one but 10 reasons why we'd suffer in terms of the tourism sector if we left the EU.

Bydd, yn wir. A dweud y gwir, mae'r Aelod yn crybwyll pwynt pwysig iawn, sef bod y flwyddyn thematig, y Flwyddyn Antur, wedi bod yn llwyddiant anhygoel; mae £4 miliwn yn amlwg yn ddigon. Nid yr hysbysebu uniongyrchol yn unig sy'n cyfrannu at y fenter hon, ond y cyfwerth hysbysebu. Gwelsom ar ddechrau'r flwyddyn hon, am ein bod wedi cyflwyno thema Blwyddyn Antur i Gymru yn 2016, ein bod wedi denu sylw hollol newydd mewn cyhoeddiadau fel y 'Rough Guide' a'r 'Lonely Planet'. Yr her fwyaf sy'n ein hwynebu—y bygythiad mwyaf sy'n ein hwynebu—yn y sector twristiaeth yw'r posibilrwydd y bydd y DU yn gadael yr UE. Cyhoeddodd 'The Daily Telegraph', nad yw'n gefnogwr eithriadol o frwd dros barhau'n aelod o'r UE, stori yn gynharach y mis hwn a nodai nid un ond 10 rheswm pam y byddai ein sector twristiaeth yn dioddef pe baem yn gadael yr UE.

## Cynlluniau Cyflawni Arbedion (Asiantau Cefnffyrdd)

## Savings Delivery Plans (Trunk Road Agents)

14:12

### Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau cyflawni arbedion sydd i'w paratoi gan asiantau cefnffyrdd? OAQ(4)0681(EST)[W]*

*11. Will the Minister provide an update on the savings delivery plans that are due to be prepared by trunk road agents? OAQ(4)0681(EST)[W]*

14:12

### Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Working in collaboration with my officials, the two trunk road agents have identified savings of £6.9 million for 2016-17 and £1.24 million for 2017-18. Beyond these costed proposals, I've tasked them with delivering and additional £6 million of efficiency savings over the review period.

Gan weithio ar y cyd gyda fy swyddogion, mae'r ddau asiant cefnffyrdd wedi nodi arbedion o £6.9 miliwn ar gyfer 2016-17 ac £1.24 miliwn ar gyfer 2017-18. Y tu hwnt i'r cynigion hyn sydd wedi'u costio, rwyf wedi gofyn iddynt gyflwyno gwerth £6 miliwn ychwanegol o arbedion effeithlonrwydd dros y cyfnod adolygu.

14:12

### Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can I ask whether you're satisfied that those efficiency savings are not at the cost of front-line services? There's clearly an increase in back-room functions, certainly within the north Wales agency, where they've introduced rather bureaucratic systems with regard to works to be undertaken to the trunk roads, which had previously been undertaken by the counties and then invoiced. There now has to be a period of some months where those have to be authorised. Are you satisfied, therefore, that those savings are not being achieved by cutting back on real expenditure?

Weinidog, a gaf fi ofyn a ydych yn fodlon nad yw'r arbedion effeithlonrwydd hynny'n cael eu gwneud ar draul gwasanaethau rheng flaen? Mae cynnydd amlwg mewn swyddogaethau ystafell gefn, yn sicr yn asiantaeth gogledd Cymru, lle y maent wedi cyflwyno systemau eithaf biwrocrataidd mewn perthynas â gwaith sydd i'w wneud ar y cefnffyrdd, gwaith a gâi ei wneud yn flaenorol gan y siroedd ac anfonebu amdano wedyn. Mae'n rhaid cael cyfnod o rai misoedd yn awr lle y bo'n rhaid awdurdodi'r gwaith hwnnw. A ydych yn fodlon, felly, na chyflawnir yr arbedion drwy dorri'n ôl ar wariant go iawn?

14:13

### Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would have normally answered a straight forward 'yes' to that, in view of what I've been told. But, in light of the way you've raised this issue, it strikes me there's probably an underlying issue that you might be aware of. So, I will speak to my officials and report back to Plenary to ensure that what I've indicated to you is the case.

Byddwn fel arfer wedi ateb 'ydw' syml i hynny, o gofio'r hyn sydd wedi'i ddweud wrthyf. Ond yng ngoleuni'r ffordd rydych wedi codi'r mater hwn, mae'n fy nharo ei bod yn debygol eich bod yn ymwybodol o broblem waelodol. Felly, fe siaradaf â'm swyddogion ac adrodd yn ôl wrth y Cyfarfod Llawn er mwyn sicrhau bod yr hyn rwyf wedi'i ddweud wrthych yn wir.

## Gwasanaethau Bws a Rheilffordd (Gorllewin Cymru)

## Bus and Rail Services (Mid Wales)

14:13

### Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydlynu gwasanaethau bws a rheilffordd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0671(EST)*

*12. Will the Minister make a statement on the co-ordination of bus and rail services in mid Wales? OAQ(4)0671(EST)*

14:13

### Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Responsibility for bus regulation and rail services in Wales is currently not devolved. However, I have established a not-for-dividend, wholly owned subsidiary transport company of the Welsh Government, which is a key part of our approach to delivering a more effective integrated transport system in Wales.

Nid yw'r cyfrifoldeb dros reoleiddio bysiau a gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwyf wedi sefydlu is-gwmni trafnidiaeth di-ddifidend ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru sy'n rhan allweddol o'n hymagwedd tuag at ddarparu system drafnidiaeth integredig fwy effeithiol yng Nghymru.

14:14

**Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for your response. I have previously raised the issue of a lack of joined-up thinking on timetables between bus and train services. I have certainly been trying to get Arriva Trains Wales and Powys County Council to link their timetables to see if adjustments can be made. But, following the recommendations of the Welsh Government's bus policy advisory group, which recommends that network partnerships should be established, would you be willing to convene an overarching group looking at co-ordinating both bus and rail timetables?

Diolch i chi am eich ymateb, Weinidog. Rwyf wedi sôn o'r blaen am y diffyg meddwl cydgysylltiedig ynglŷn ag amserlenni gwasanaethau bws a thrên. Rwy'n sicr wedi bod yn ceisio cael Trenau Arriva Cymru a Chyngor Sir Powys i gysylltu eu hamserlenni i weld os gellir gwneud addasiadau. Ond yn dilyn argymhellion grŵp cynghori Llywodraeth Cymru ar bolisi bysiau, sy'n argymell y dylid sefydlu partneriaethau rhwydwaith, a fyddech yn barod i sefydlu grŵp trosfwaol i edrych ar gydgysylltu amserlenni bysiau a threnau?

14:14

**Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have to say that, in some areas, they are actually doing quite a good job on some of these issues. Where we have responsibility for TrawsCymru T1 and T5 services, we've got connections that are very good into rail services in Aberystwyth. We also do give local authorities money to do some of this co-ordinating work as well. So I don't know if it'd be necessarily helpful to have an overarching group. What we need is the practical application on the ground through existing arrangements.

Mae'n rhaid i mi ddweud eu bod yn gwneud gwaith eithaf da ar rai o'r materion hyn mewn rhai ardaloedd. Lle y mae gennym gyfrifoldeb dros wasanaethau TrawsCymru T1 a T5, mae gennym gysylltiadau sy'n dda iawn â gwasanaethau trên yn Aberystwyth. Rydym hefyd yn rhoi arian i awdurdodau lleol wneud rhywfaint o'r gwaith cydgysylltu hefyd. Felly, nid wyf yn gwybod a fydd cael grŵp trosfwaol o reidrwydd yn ddefnyddiol. Yr hyn sydd ei angen arnom yw'r defnydd ymarferol ar lawr gwlad drwy drefniadau sy'n bodoli eisoes.

14:15

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:15

## 2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

## 2. Questions to the Counsel General

Senedd.tv Fideo Video

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

No questions have been tabled to the Counsel General, so —[Interruption.] We'll move quickly over item 2.

Nid oes cwestiynau wedi'u cyflwyno i'r Cwnsler Cyffredinol, felly—[Torri ar draws.] Symudwn yn gyflym dros eitem 2.

14:15

## Cwestiwn Brys: Ffatri Aston Martin

## Urgent Question: The Aston Martin Factory

Senedd.tv Fideo Video

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66, and I call Andrew R.T. Davies to ask the question.

Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog 12.66, a galwaf ar Andrew R. T. Davies i ofyn y cwestiwn.

14:15

**Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

*A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y newyddion cyffrous ynghylch sicrhau ffatri Aston Martin i Gymru? EAQ(4)0682(EST)*

*Will the Minister make a statement on the ground-breaking news of the Aston Martin factory being secured for Wales? EAQ(4)0682(EST)*

14:15

**Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Well, I'm sure the whole Chamber joins me in saying, 'Isn't it good news for us today in Wales?' and 'Isn't it good news for the site in St Athan?' Can I pay tribute particularly for the hard work of my officials and others who, over the last two years, have been diligent in their approach with Aston Martin? We have an excellent relationship with the company. We're talking about 750 highly skilled jobs, and we're talking about the supply chain. So, this is indeed good news.

Wel, rwy'n siŵr fod y Siambr gyfan yn ymuno â mi i ddweud, 'Onid yw'n newyddion da i ni heddiw yng Nghymru?' ac 'Onid yw'n newyddion da i'r safle yn Sain Tathan?' A gaf fi dalu teyrnged yn benodol i waith caled fy swyddogion ac eraill sydd, dros y ddwy flynedd diwethaf, wedi gweithio'n ddiwyd gydag Aston Martin? Mae gennym berthynas ardderchog gyda'r cwmni. Rydym yn sôn am 750 o swyddi hynod fedrus, ac rydym yn sôn am y gadwyn gyflenwi. Felly, mae hwn yn newyddion da yn wir.

14:15 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, for that response. I agree entirely with you what good news this is. All too often, we do have urgent questions that focus on some pretty depressing and negative news; this is very positive news for south Wales and the Vale of Glamorgan. It shows, when the UK Government and the Welsh Government work together with local partners, that these deals can be secured, without a shadow of a doubt. I would be interested to hear how the Minister's department will now continue to engage with the company to secure the skills that will be required for an area that hasn't historically had this type of production facility in the immediate area, and also what type of changes might come into effect, because, obviously, St Athan was designated as an aviation enterprise zone and thus this might have repercussions for other facilities that are on site and other businesses that use the same area. But, I do congratulate the department and I do congratulate the UK Government on working collaboratively to secure this vital inward investment for Wales. With the Deputy Presiding Officer's indulgence, I would like to commend the Minister in her final ministerial question session for ending on such a positive note in securing this development.

Diolch i chi am eich ymateb, Weinidog. Cytunaf yn llwyr â chi fod hwn yn newydd da iawn. Yn rhy aml, mae gennym gwestiynau brys sy'n canolbwyntio ar newyddion eithaf digalon a negyddol; dyma newyddion cadarnhaol iawn i dde Cymru a Bro Morgannwg. Pan fydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cydweithio â phartneriaid lleol, mae'n dangos y gellir sicrhau'r cytundebau hyn, heb rithyn o amheuaeth. Byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed sut y bydd adran y Gweinidog yn awr yn parhau i ymgysylltu â'r cwmni i sicrhau'r sgiliau y bydd eu hangen ar gyfer ardal nad yw'n hanesyddol wedi cael y math hwn o gyfleuster cynhyrchu yn yr ardal gyfagos, a hefyd pa fath o newidiadau a allai ddod yn weithredol, oherwydd, yn amlwg, dynodwyd Sain Tathan fel ardal fenter ar gyfer awyrennau ac felly gallai hyn gael ôl-effeithiau ar gyfleusterau eraill sydd ar y safle a busnesau eraill sy'n defnyddio'r un ardal. Ond rwy'n llongyfarch yr adran ac rwy'n llongyfarch Llywodraeth y DU am weithio ar y cyd er mwyn sicrhau'r mewnfuddsoddiad hanfodol hwn i Gymru. Gyda chaniatâd y Dirprwy Lywydd, hoffwn ganmol y Gweinidog yn ei sesiwn gwestiynau olaf am orffen ar nodyn mor gadarnhaol drwy sicrhau'r datblygiad hwn.

14:17 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, thank you very much indeed. It is important to recognise that, of course, as you will be aware, we've had our difficulties with the Ministry of Defence over the years in relation to St Athan, which, of course, I've articulated within this Chamber. It is good that those difficulties have been removed. I have constant discussions with my colleague, Jane Hutt, about the MOD and what's happening in St Athan, so we've actually made a move forward there.

Wel, diolch yn fawr iawn, yn wir. Mae'n bwysig cydnabod, wrth gwrs, fel y byddwch yn gwybod, ein bod wedi cael ein hanawsterau gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn dros y blynyddoedd mewn perthynas â Sain Tathan, fel y mynegwyd gennyf yn y Siambr hon, wrth gwrs. Mae'n dda fod yr anawsterau hynny wedi'u diddymu. Rwy'n cael trafodaethau cyson gyda fy nghyd-Aelod, Jane Hutt, ynghylch y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r hyn sy'n digwydd yn Sain Tathan, felly rydym wedi gwneud cynnydd yn hynny o beth.

I think the important thing about the Aston Martin development is that this is coming to Wales and it's staying in the UK. This is a very important company to stay in the UK in terms of manufacturing, and that's why we're delighted to have it. One of the reasons they've decided to come here is actually the fact that they will be able to get the trained personnel, they will have help and assistance with training, and there are people there. We think of the excellent skills from those ex-military who are around, who have been fitters and who have done work. Those are exactly the type of people who they might want to look to recruit. So, we know we've got the necessary pool of talent to actually get individuals into that industry.

Rwy'n credu mai'r peth pwysig ynglŷn â datblygiad Aston Martin yw ei fod yn dod i Gymru ac mae'n aros yn y DU. Mae hwn yn gwmni pwysig iawn i aros yn y DU o ran gweithgynhyrchu, a dyna pam rydym yn falch iawn o'i gael. Un o'r rhesymau pam y maent wedi penderfynu dod yma mewn gwirionedd yw'r ffaith y byddant yn gallu cael y personél hyfforddedig, byddant yn cael help a chymorth gyda hyfforddiant, ac mae pobl i'w cael. Rydym yn meddwl am y sgiliau ardderchog sydd gan y cyn-filwyr sydd o gwmpas, sydd wedi bod yn ffitwyr ac wedi gwneud gwaith. Dyna'n union y math o bobl y gallant fod yn eu recriwtio. Felly, gwyddom fod gennym y gronfa angenrheidiol o dalent i sicrhau bod unigolion ar gael ar gyfer y diwydiant.

Also, one of the things Aston Martin said in their press conference, quite openly, was what a business-friendly Government we were in terms of their dealings with us. So, this is a good news story. I don't think there's anything negative within this story at all, even though people will probably try. This is good news for Wales, and it's excellent to see such an iconic name in terms of Aston Martin.

Hefyd, un o'r pethau a ddywedodd Aston Martin yn eu cynhadledd i'r wasg, yn agored iawn, oedd pa mor gyfeillgar i fusnesau oedd ein Llywodraeth wrth drafod gyda ni. Felly, mae hwn yn newydd da. Nid wyf yn credu bod unrhyw beth negyddol yn y stori o gwbl, er y bydd pobl yn ceisio canfod rhywbeth, mae'n debyg. Mae'n newyddion da i Gymru, ac mae'n wych gweld enw mor eiconig ag Aston Martin.

14:18 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I join the leader of the opposition in congratulating the Welsh Government on getting this project to St Athan. The Vale of Glamorgan is an ideal place to get this type of scheme up and running. But, the leader of the opposition also mentioned skills, and you've highlighted the skills that currently exist in St Athan, but would you be looking to use the skills of the taskforce and staff in Port Talbot Works, and at the supply chain aspects, because there's a clear opportunity here to actually retrain and redevelop some individuals who are well placed to actually gain those skills and move on? When Ford in Bridgend actually opened up, many workers from the steelworks went to Ford. So, there's a historical precedent where that has happened.

Weinidog, rwy'n ymuno ag arweinydd yr wrthblaid i longyfarch Llywodraeth Cymru ar gael y prosiect hwn i Sain Tathan. Mae Bro Morgannwg yn lle delfrydol i gael y math hwn o gynllun ar waith. Ond crybwyllodd arweinydd yr wrthblaid sgiliau hefyd, ac rydych wedi tynnu sylw at y sgiliau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Sain Tathan, ond a fyddech yn ceisio defnyddio sgiliau tasglu a staff gweithfeydd Port Talbot, ac elfennau o'r gadwyn gyflenwi, gan fod cyfle amlwg yma i ailhyfforddi ac ailddatblygu unigolion sydd mewn sefyllfa dda i ddatblygu'r sgiliau hynny a symud ymlaen? Pan agorodd Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr, aeth llawer o weithwyr o'r gwaith dur i Ford. Felly, mae cynsail hanesyddol lle y mae hynny wedi digwydd.

14:19 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it's important to look at the total skill base across the area, about those who would be available to work in Aston Martin. Aston Martin would like to get onto the site as quickly as possible to start to undertake some work in that particular area and then, of course, we can turn to what their requirements are in terms of skills. I think we all recognise there are skills in the workforce in Wales that are of high quality, and now we're having some high-quality jobs to ensure continued employment for some individuals.

Credaf ei bod yn bwysig edrych ar y sylfaen sgiliau yn ei chyfanrwydd ar draws yr ardal, o ran y rhai a fyddai ar gael i weithio yn Aston Martin. Hoffai Aston Martin fynd ar y safle cyn gynted â phosibl i ddechrau gwneud gwaith yn yr ardal benodol honno ac yna, wrth gwrs, gallwn droi at beth yw eu gofynion o ran sgiliau. Rwy'n credu ein bod i gyd yn cydnabod y ceir sgiliau yn y gweithlu yng Nghymru sydd o ansawdd uchel, ac yn awr rydym yn cael swyddi o ansawdd uchel er mwyn sicrhau cyflogaeth barhaus i unigolion.

14:19 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I also welcome this announcement. No doubt, we can expect future announcements on the presumption of local procurement when it comes to the Goverment's own vehicle fleet in light of this development by Aston Martin. I'll also use this opportunity to wish the Minister well after her last question session today. One of the issues that I've been hopefully putting pressure on the Minister on is over enterprise zones. No doubt this news will help with the Government's key performance indicators on enterprise zones, but I wonder if the Minister could tell us what role the enterprise zone status played when it came to attracting Aston Martin to St Athan. And in addition to an earlier question by Simon Thomas on the development of supply chains in general, in addition to automotive supply chains, I wonder if the Minister's able to tell us what ambitions the Government has in terms of developing supply chains, specifically in battery technology and not only in automotive, given that this will be a major development in terms of battery-powered cars.

Rwyf hefyd yn croesawu'r cyhoeddiad hwn. Heb amheuaeth, gallwn ddisgwyl cyhoeddiadau yn y dyfodol ar y rhagdybiaeth o gaffael lleol mewn perthynas â fflyd gerbydau'r Llywodraeth ei hun yng ngoleuni'r datblygiad hwn gan Aston Martin. Byddaf hefyd yn defnyddio'r cyfle hwn i ddymuno'n dda i'r Gweinidog ar ôl ei sesiwn holi olaf heddiw. Un o'r materion rwyf wedi bod yn rhoi pwysau ar y Gweinidog yn ei gylch, gobeithio, yw ardaloedd menter. Nid oes amheuaeth y bydd y newyddion hwn yn helpu gyda dangosyddion perfformiad allweddol y Llywodraeth ar ardaloedd menter, ond tybed a allai'r Gweinidog ddweud wrthym pa rôl y chwaraeodd statws ardal fenter yn y broses o ddenu Aston Martin i Sain Tathan. Ac yn ychwanegol at gwestiwn cynharach gan Simon Thomas ar ddatblygu cadwyni cyflenwi yn gyffredinol, yn ogystal â chadwyni cyflenwi modurol, tybed a yw'r Gweinidog yn gallu dweud wrthym pa uchelgais sydd gan y Llywodraeth o ran datblygu cadwyni cyflenwi, yn benodol ym maes technoleg batri ac nid yn unig yn y diwydiant modurol, o ystyried y bydd hwn yn ddatblygiad mawr ym maes ceir sy'n rhedeg ar fatri.

14:20 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, we will obviously look at all issues around all supply chains, because they are a priority. If there's a new industry emerging, we need to be on the ground running in terms of encouraging supply chains, whatever industrial developments are. In terms of the enterprise zone, they knew that the enterprise zone would be subject to other improvements. We're obviously looking at the transport infrastructure into the enterprise zone. We are putting a new road in that will benefit not only Aston Martin but the rest of the enterprise zone, and I think these areas need to be taken into account. I think it was enormously helpful that Professor Garel Rhys was actually chair of the enterprise zone in St Athan with his history with the car industry.

Byddwn yn amlwg yn edrych ar yr holl faterion sy'n ymwneud â phob cadwyn cyflenwi, oherwydd eu bod yn flaenoriaeth. Os oes diwydiant newydd yn dod i'r amlwg, mae angen i ni ddechrau ar unwaith o ran annog cadwyni cyflenwi, beth bynnag yw'r datblygiadau diwydiannol. O ran yr ardal fenter, roeddent yn gwybod y byddai'r ardal fenter yn ddarostyngedig i welliannau eraill. Rydym yn amlwg yn edrych ar y seilwaith trafnidiaeth i mewn i'r ardal fenter. Rydym yn gosod ffordd newydd a fydd o fantais nid yn unig i Aston Martin ond i weddill yr ardal fenter, ac rwy'n meddwl bod angen ystyried y meysydd hyn. Rwy'n credu ei bod yn hynod ddefnyddiol mai'r Athro Garel Rhys oedd cadeirydd yr ardal fenter yn Sain Tathan o ran ei hanes gyda'r diwydiant ceir.

14:21 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'm absolutely delighted by this announcement, which I really do hope will benefit local people and enable them to access work. But, clearly, this is also an opportunity for us to invest in training, retraining and reskilling the existing workforce in the area who, as you say, already have a lot of transferrable skills. However, we deliver a lot of our skills and investment in training through European programmes, and I wonder if you can tell me what threat there might be to delivering things along those lines if we weren't to have access to things like structural funds in the future.

Weinidog, rwyf wrth fy modd gyda'r cyhoeddiad hwn, ac rwy'n gobeithio'n fawr iawn y bydd o fudd i bobl leol ac yn eu galluogi i gael mynediad at waith. Ond yn amlwg, mae hyn hefyd yn gyfle i ni fuddsoddi mewn hyfforddiant, ailhyfforddi ac ailsgilio'r gweithlu presennol yn yr ardal sydd, fel y dywedwch, â llawer o sgiliau trosglwyddadwy yn barod. Fodd bynnag, rydym yn cyflwyno llawer o'n sgiliau a'n buddsoddiad mewn hyfforddiant drwy raglenni Ewropeaidd, a thybed a allwch ddweud wrthyf pa fygythiad a allai fod i gyflawni pethau ar y llinellau hynny pe na bai gennym fynediad at bethau fel cronfeydd strwythurol yn y dyfodol.

14:22 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, when we look at the European funds, they're actually crucial to the development of some of the programmes and projects that we've got in Wales, and I think it's important to recognise that we need to be able to do that. And obviously, the skills agenda is key to attracting companies like Aston Martin and other people that we're talking to, and it would be a shame if we couldn't fund the necessary training programmes to get that level of investment in.

Wel, wrth gwrs, pan edrychwn ar y cronfeydd Ewropeaidd, mewn gwirionedd maent yn hanfodol i ddatblygiad rhai o'r rhaglenni a'r prosiectau sydd gennym yng Nghymru, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig cydnabod bod angen i ni allu gwneud hynny. Ac yn amlwg, mae'r agenda sgiliau yn allweddol i ddenu cwmnïau fel Aston Martin a phobl eraill rydym yn siarad â hwy, a byddai'n drueni pe na baem yn gallu ariannu'r rhaglenni hyfforddi angenrheidiol er mwyn denu'r lefel honno o fuddsoddiad i mewn.

14:22 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:22

## 3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

## 3. Questions to the Assembly Commission

Senedd.tv Fideo Video

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

There are no questions tabled to the Assembly Commission.

Ni chyflwynwyd cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad.

14:22

## 4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

## 4. Debate on the Children, Young People and Education Committee Report on its Inquiry into Welsh in Education Strategic Plans

Y

Senedd.tv
Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

We move to item 4, which is a debate on the Children, Young People and Education Committee's report on its inquiry into Welsh in education strategic plans. I call on the Chair of committee to move the motion—Ann Jones.

Symudwn at eitem 4, sef dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei ymchwiliad i gynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg. Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor i gynnig y cynnig—Ann Jones.

Cynnig NDM5974 Ann Jones

Motion NDM5974 Ann Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Rhagfyr 2015.

Notes the report of the Children, Young People and Education Committee on the inquiry into Welsh in Education Strategic Plans (WESPs), which was laid in the Table Office on 9 December 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

14:22

### Ann Jones

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A gaf i ddechrau'r ddadl hon gyda diolch i aelodau'r pwyllgor a'r bobl a ddaeth i siarad gyda'r pwyllgor? Rwy'n gobeithio y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio o blaid yr adroddiad hwn.

May I open this debate by thanking the Members of the committee and the witnesses who came before the committee? I hope that the National Assembly will vote in favour of this report.

I'd like to start by—perhaps I should translate that in case they didn't understand my Welsh there, but I won't. I want to start my speech now by thanking the Minister publicly for the constructive way in which he's worked with the Children, Young People and Education Committee, and I hope that that will continue after I've delivered my speech today; I hope we can still be smiling at the end of it.

Hoffwn ddechrau drwy—efallai y dylwn gyfieithu hynny rhag ofn nad oeddent yn deall fy Nghymraeg, ond ni wnaf. Rwyf am ddechrau fy araith yn awr drwy ddiolch i'r Gweinidog yn gyhoeddus am y modd adeiladol y mae wedi gweithio gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ac rwy'n gobeithio y bydd hynny'n parhau ar ôl i mi gyflwyno fy araith heddiw; rwy'n gobeithio y gallwn ddal i wenu ar ei diwedd.

Welsh in education strategic plans have the potential to deliver a significant increase in the numbers of children and young people being taught, acquiring skills and achieving qualifications through the medium of Welsh. Many stakeholders were very enthusiastic about this potential when WESPs were introduced, but a growing number of them have been left disappointed. They believe there's been a lack of impact, that the potential has not been realised and that WESPs have so far proven to be a missed opportunity.

Mae gan gynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg (CSCAu) botensial i sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu dysgu, sy'n meithrin sgiliau ac sy'n cyflawni cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd llawer o randdeiliaid yn frwdfrydig iawn ynghylch y potensial hwn pan gyflwynwyd y CSCAu, ond mae nifer cynyddol ohonynt wedi cael eu siomi. Credant na fu digon o effaith, nad yw'r potensial wedi'i wireddu a bod CSCAu hyd yma wedi bod yn gyfle a gollwyd.

But in defence of the WESP system, it is still very young and it's still developing. And it's clear from the evidence the committee received that there is still a lot to do to make sure these plans help deliver the Welsh Government's ambition.

Ond i amddiffyn y system CSCAu, mae'n dal yn ifanc iawn ac mae'n dal i ddatblygu. Ac mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gafodd y pwyllgor fod llawer i'w wneud o hyd i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn helpu i gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru.

If I could turn to the key findings of the inquiry, the committee's key conclusions relate to better partnership working between Welsh Government and local authorities. WESPs are central to the Welsh Government's ability to deliver its Welsh-medium education strategy, and the Minister has already acknowledged that the Welsh Government is unlikely to meet its 2020 target without improved planning and action at a local authority level. That is one of the fundamental challenges of the WESP system. Its success is dependent on co-operation between Welsh Government and local authorities, and a shared commitment to achieving the Welsh Government's vision. The committee heard nothing during the inquiry, nor is there is anything in the Minister's response to this committee's report, to explain how Welsh Government intends to support local authorities to deliver the improved planning and the action necessary to meet the 2020 targets.

Os caf droi at ganfyddiadau allweddol yr ymchwiliad, mae casgliadau allweddol y pwyllgor yn ymwneud â gweithio'n well mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae CSCAu yn ganolog i allu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg, ac mae'r Gweinidog eisoes wedi cydnabod ei bod yn annhebygol y bydd Llywodraeth Cymru yn cyrraedd ei tharged ar gyfer 2020 heb wella cynllunio a chamau gweithredu ar lefel awdurdodau lleol. Dyna un o heriau sylfaenol y system CSCAu. Mae ei llwyddiant yn dibynnu ar gydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ac ymrwymiad ar y cyd i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru. Ni chlywodd y pwyllgor unrhyw beth yn ystod yr ymchwiliad, ac nid oes unrhyw beth yn ymateb y Gweinidog i adroddiad y pwyllgor hwn sy'n egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni gwelliannau o ran cynllunio a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyrraedd targedau 2020.

If I could turn to some specific recommendations, the committee identified a number of other areas where improvements are needed and made 17 recommendations in total. The Minister has rejected five of these recommendations, and I hope to use the time in this debate to focus on those five recommendations.

Os caf droi at rai argymhellion penodol, nododd y pwyllgor nifer o feysydd eraill lle y mae angen gwelliannau, a gwnaed 17 o argymhellion i gyd. Mae'r Gweinidog wedi gwrthod pump o'r argymhellion hyn, ac rwy'n gobeithio defnyddio'r amser yn y ddadl hon i ganolbwyntio ar y pum argymhelliad hynny.

Recommendation 5 calls on the Minister to review the process for a school's linguistic categorisation, with the aim of simplifying it. In the Government's response, the Minister states that the relevant legislation is monitored to assess whether it is working and that there's been no indication that the process needs to be simplified. Minister, the complexity of the current system was raised initially with the committee in a joint written submission from ERW regional consortium and Carmarthenshire's local education authority. In that submission, they were asked to select one key priority that, in their opinion, needed to be addressed by the Welsh Government. That was the issue they chose and they subsequently reiterated that concern publicly during oral evidence to the committee. I have some concerns that a regional consortium and a local authority are telling the committee that the time it takes to change a school's linguistic category is too long and hampers their efforts to deliver the Welsh Government's ambition for Welsh-medium education. Minister, would you consider whether you could have a discussion, together with your officials, ERW regional consortium and Carmarthenshire local education authority, if only to confirm that the rationale for rejecting the committee's recommendation is correct?

Mae argymhelliad 5 yn galw ar y Gweinidog i adolygu'r broses ar gyfer categoreiddio iaith ysgol, gyda'r bwriad o'i symleiddio. Yn ymateb y Llywodraeth, mae'r Gweinidog yn datgan bod y ddeddfwriaeth berthnasol yn cael ei monitro i asesu a yw'n gweithio ac na fu unrhyw arwydd fod angen symleiddio'r broses. Weinidog, daeth cymhlethdod y system bresennol i sylw'r pwyllgor yn gyntaf mewn cyflwyniad ysgrifenedig ar y cyd gan gonsortiwm rhanbarthol ERW ac awdurdod addysg lleol Sir Gaerfyrddin. Yn y cyflwyniad hwnnw, gofynnwyd iddynt ddewis un flaenoriaeth allweddol yr oedd angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â hi, yn eu barn hwy. Dyna oedd y mater a ddewiswyd ganddynt ac maent wedi ailadrodd y pryder hwnnw'n gyhoeddus ers hynny yn ystod tystiolaeth lafar i'r pwyllgor. Mae gennyf rai pryderon fod consortiwm rhanbarthol ac awdurdod lleol yn dweud wrth y pwyllgor ei bod yn cymryd gormod o amser i newid categori ieithyddol ysgol a bod hynny'n llesteirio'u hymdrechion i gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Weinidog, a fyddech yn ystyried cael trafodaeth gyda'ch swyddogion, consortiwm rhanbarthol ERW ac awdurdod addysg lleol Sir Gaerfyrddin, pe bai hynny ond i gadarnhau bod y rhesymeg dros wrthod argymhelliad y pwyllgor yn gywir?

On recommendation 6, we called upon the Welsh Government to discuss with local authorities arrangements for publishing annual reports on the progress of WESPs. Welsh Government rejected this recommendation on the basis that they believe the evidence to support this recommendation only came from one local authority. The Welsh Government goes on to add that they're not aware that all local authorities hold the same view. Those are the important words, I believe, in this, and this is why I raise it today—that you are 'not aware' whether they have the capacity or hold the same views, and yet the recommendation has been dismissed. We believe that this is about transparency, and we believe that stakeholders, parents and elected representatives should have access to all this information. I'd be grateful, Minister, if you would give a commitment that your officials will discuss this matter with local authorities. If local authorities confirm that that this would place an unreasonable burden on them, at least we would all be aware that that was the case.

O ran argymhelliad 6, galwasom ar Lywodraeth Cymru i drafod gydag awdurdodau lleol y trefniadau ar gyfer cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gynnydd CSCAu. Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn ar y sail ei bod yn credu bod y dystiolaeth i gefnogi'r argymhelliad hwn wedi dod gan un awdurdod lleol yn unig. Mae Llywodraeth Cymru yn ychwanegu nad yw'n ymwybodol fod pob awdurdod lleol o'r un farn. Dyna'r geiriau pwysig, rwy'n credu, yn hyn, a dyna pam rwy'n ei grybwyll heddiw—nad ydych 'yn ymwybodol' a oes ganddynt y gallu neu eu bod o'r un farn, ac eto mae'r argymhelliad wedi cael ei ddiystyru. Credwn fod hyn yn ymwneud â thryloywder, a chredwn y dylai rhanddeiliaid, rhieni a chynrychiolwyr etholedig gael mynediad at yr holl wybodaeth hon. Byddwn yn ddiolchgar, Weinidog, pe baech yn rhoi ymrwymiad y bydd eich swyddogion yn trafod y mater hwn gydag awdurdodau lleol. Os yw awdurdodau lleol yn cadarnhau y byddai hyn yn gosod baich afresymol arnynt, o leiaf byddai pob un ohonom yn ymwybodol mai dyna oedd y sefyllfa.

Recommendation 7 calls upon the Welsh Government to publish a report on an annual basis, including details of its response to each local authority's WESP and, where appropriate, the reasons why a WESP was referred back to a local authority for modification. Again, this recommendation is about transparency. Many contributors told the committee that the current system does not give stakeholders, including parents, clear enough information. The Government's response suggests that stakeholders and parents who want to identify how WESPs have changed over time should compare the original version with the revised version of the WESP. Well, that won't tell them why the changes were made, and nor will it tell them what they were intended to achieve or the role the Welsh Government played in that process. Minister, your response to this recommendation was disappointing. You say that you do not believe it's appropriate to publish this information because it is of limited, if any, public interest. Minister, stakeholders called for this information to be made public when giving evidence to the committee, and the committee felt there was sufficient interest in this subject to put a recommendation into the report. We don't believe the recommendation would introduce an additional burden. The information the committee is asking to be published already exists, so we believe there would be no additional burden.

Mae argymhelliad 7 yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi adroddiad yn flynyddol, gan gynnwys manylion am ei hymateb i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg pob awdurdod lleol a phan fo'n briodol, y rhesymau pam y cafodd CSCA ei gyfeirio yn ôl at awdurdod lleol i'w addasu. Unwaith eto, mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â thryloywder. Dywedodd llawer o gyfranwyr wrth y pwyllgor nad yw'r system bresennol yn rhoi gwybodaeth ddigon clir i randdeiliaid, gan gynnwys rhieni. Mae ymateb y Llywodraeth yn awgrymu y dylai rhanddeiliaid a rhieni sydd am nodi sut y mae CSCAu wedi newid dros amser gymharu'r fersiwn wreiddiol â'r fersiwn ddiwygiedig o'r CSCA. Wel, ni fydd hynny'n dweud wrthynt pam y gwnaed y newidiadau, ac ni fydd yn dweud wrthynt beth y bwriadent ei gyflawni neu rôl Llywodraeth Cymru yn y broses honno. Weinidog, roedd eich ymateb i'r argymhelliad hwn yn siomedig. Rydych yn dweud nad ydych yn credu ei bod yn briodol cyhoeddi'r wybodaeth hon gan mai diddordeb cyhoeddus cyfyngedig, os o gwbl, sydd ynddi. Weinidog, gofynnodd rhanddeiliaid am i'r wybodaeth hon gael ei gwneud yn gyhoeddus wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor, ac roedd y pwyllgor yn teimlo bod digon o ddiddordeb yn y mater hwn i roi argymhelliad yn yr adroddiad. Nid ydym yn credu y byddai'r argymhelliad yn cyflwyno baich ychwanegol. Mae'r wybodaeth y mae'r pwyllgor yn gofyn am ei chyhoeddi eisoes yn bodoli, felly nid ydym yn credu y byddai unrhyw faich ychwanegol.

The committee was given a detailed explanation in public of the reasons why WESPs have been referred back in the past. So, again, there's no question of sensitivity. This is also about accountability. When Ministers are requiring local authorities to modify their WESPs, information about those ministerial decisions should be made available to the public and to Assembly Members. Minister, again, I would ask you, in the light of today's debate and the strong feelings of stakeholders on this matter, to reconsider your refusal of that recommendation.

Rhoddwyd esboniad manwl i'r pwyllgor yn gyhoeddus o'r rhesymau pam y cyfeiriwyd CSCAu yn ôl yn y gorffennol. Felly, unwaith eto, nid oes unrhyw sensitifrwydd. Mae hyn yn ymwneud ag atebolrwydd hefyd. Pan fydd Gweinidogion yn gofyn i awdurdodau lleol addasu eu CSCAu, dylai gwybodaeth ynghylch y penderfyniadau gweinidogol hynny fod ar gael i'r cyhoedd ac i Aelodau'r Cynulliad. Weinidog, unwaith eto, hoffwn ofyn i chi, yng ngoleuni'r ddadl heddiw a theimladau cryf rhanddeiliaid ynghylch y mater hwn, i ailystyried eich penderfyniad i wrthod yr argymhelliad hwnnw.

Recommendation 14 relates to the availability of Welsh-medium Flying Start childcare places for two and three-year-olds and the impact the current levels of this provision may have on the Welsh Government's target that 25 per cent of seven-year-olds will be taught through the medium of Welsh. I know this is an issue colleagues on the Communities, Equality and Local Government Committee have taken an active interest in. And, Minister, in your response, you state that the increases in parental preference and resultant Welsh-medium Flying Start provision would not significantly affect the Welsh Government's ability to reach its targets for 25 per cent of seven-year olds being educated through the medium of Welsh. The First Minister made the same statement recently in a letter to the Communities, Local Government and Equalities Committee, and yet there's been no explanation given as to how this conclusion has been reached. Could I ask you why you think the availability of Welsh-medium Flying Start provision will not have a significant impact? I would also be grateful if you could point the committee, and the Assembly, to any evidence that supports the statements made by both you and the First Minister.

Mae argymhelliad 14 yn ymwneud ag argaeledd lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant dwy a thair oed, a'r effaith y gall lefelau presennol y ddarpariaeth hon ei chael ar darged Llywodraeth Cymru i 25 y cant o blant saith oed gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rwy'n gwybod bod hwn yn fater y mae gan gyd-Aelodau ar y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ddiddordeb gweithredol ynddo. Ac yn eich ymateb, Weinidog, rydych yn datgan na fyddai'r cynnydd o ran dewis rhieni a darpariaeth cyfrwng Cymraeg Dechrau'n Deg dilynol yn effeithio'n sylweddol ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei thargedau o 25 y cant o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwnaeth y Prif Weinidog yr un datganiad yn ddiweddar mewn llythyr at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, ac eto nid oes unrhyw eglurhad wedi'i roi ynglŷn â sut y daethpwyd i'r casgliad hwn. A gaf fi ofyn i chi pam eich bod yn credu na chaiff argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg Dechrau'n Deg effaith sylweddol? Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallech dynnu sylw'r pwyllgor, a'r Cynulliad, at unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi'r datganiadau a wnaed gennych chi a'r Prif Weinidog.

On recommendation 17, we called on the Welsh Government to reconsider its Welsh-medium education strategies, with a view to ensuring the importance of post-16 education is reflected in them, and then, in turn, within local authorities. The committee heard evidence that more of an emphasis is needed on post-16 education, to create a Welsh-medium education system, from early years through to further education provision. This would also support the development of a bilingual workforce. Now, the Welsh Language Commissioner went as far as saying that post-16 education was the part of the jigsaw that was entirely missing. Minister, are you satisfied that your current strategies address the concerns heard by the committee?

O ran argymhelliad 17, galwasom ar Lywodraeth Cymru i ailystyried ei strategaethau addysg cyfrwng Cymraeg, gyda'r nod o sicrhau y caiff pwysigrwydd addysg ôl-16 ei adlewyrchu ynddynt, ac yna, yn ei dro, o fewn awdurdodau lleol. Clywodd y pwyllgor dystiolaeth fod angen mwy o bwyslais ar addysg ôl-16, er mwyn creu system addysg cyfrwng Cymraeg, o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddarpariaeth addysg bellach. Byddai hyn hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu dwyieithog. Nawr, aeth Comisiynydd y Gymraeg gyn belled â dweud mai addysg ôl-16 oedd y rhan o'r jig-so a oedd ar goll yn gyfan gwbl. Weinidog, a ydych yn fodlon fod eich strategaethau cyfredol yn mynd i'r afael â'r pryderon a glywyd gan y pwyllgor?

So, as I said, I'm grateful that the Minister accepted 12 of the committee's recommendations. And, as I said at the start of my speech, you have always been constructive in your dealings with this committee, and I hope that by outlining what we see as constructive criticism to assist you, you will be able to respond positively to some of the responses that we have made to the Welsh Government's response to our five recommendations that you have rejected. I'd be grateful if you would consider taking on board some of the points that have been made in this opening speech.

Felly, fel y dywedais, rwy'n ddiolchgar fod y Gweinidog wedi derbyn 12 o argymhellion y pwyllgor. Ac fel y dywedais ar ddechrau fy araith, rydych bob amser wedi bod yn adeiladol wrth ymdrin â'r pwyllgor hwn, ac rwy'n gobeithio, drwy amlinellu'r hyn rydym yn ei weld fel beirniadaeth adeiladol i'ch helpu, y byddwch yn gallu ymateb yn gadarnhaol i rai o'n hymatebion ni i ymateb Llywodraeth Cymru i'r pum argymhelliad gennym rydych wedi'u gwrthod. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ystyried rhai o'r pwyntiau a wnaed yn yr araith agoriadol hon.

Finally, Presiding Officer, I'd like to thank everybody who gave evidence to the committee, to the members of the committee, but more importantly to the staff of the committee who have helped to produce this report. Diolch yn fawr iawn.

Yn olaf, Lywydd, hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor, i aelodau'r pwyllgor, ond yn bwysicach i staff y pwyllgor sydd wedi helpu i gynhyrchu'r adroddiad hwn. Diolch yn fawr iawn.

*Daeth Peter Black i'r Gadair.*

*Peter Black took the Chair.*

14:32

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. In accordance with Standing Order 12.23 (iii), the Deputy Presiding Officer has not selected the amendment tabled to the motion. I therefore call Simon Thomas.

Diolch. Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), nid yw'r Dirprwy Lywydd wedi dethol y gwelliant a gyflwynwyd i'r cynnig. Galwaf felly ar Simon Thomas.

14:32 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro. Mae Ann Jones, Cadeirydd y pwyllgor, wedi gosod allan yn glir beth yw pryderon y pwyllgor ynglŷn â'r ddarpariaeth ar gyfer y cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg, a hoffwn i, nawr, ychwanegu at hynny, drwy olrhain ychydig o'r pethau rwy'n meddwl a all wella'r sefyllfa.

Thank you, temporary Deputy Presiding Officer. Ann Jones, the committee Chair, has set out very clearly what the committee's concerns are about the provision for these Welsh in education strategic plans, and I would now like to add to that by outlining some of the things that I think could improve the situation.

Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n cofio'r cyd-destun y mae hyn yn digwydd ynddo. Mae yna strategaeth ar gyfer Cymraeg mewn addysg—un genedlaethol a ddarparwyd gan y Llywodraeth flaenorol, pan oedd Plaid Cymru yn rhan o'r glymblaid, bryd hynny, ac mae gweithredu'r strategaeth honno, ar lefel awdurdod lleol, yn nwylo'r cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg, rhywbeth a ddarparwyd mewn deddfwriaeth gan y Gweinidog blaenorol, Leighton Andrews, yn ystod y Cynulliad hwn.

I think it's important that we bear in mind the context of all of this. There is a strategy for Welsh in education—a national strategy that was provided by a previous Government, when Plaid Cymru was part of the coalition, at that time, and implementing that strategy at a local authority level is now provided for by the WESPs, something that was provided for through legislation brought forward by Leighton Andrews, the predecessor Minister, during this Assembly.

Pryder y pwyllgor, a phryder y dystiolaeth a gawsom ni yn y pwyllgor, oedd nad oedd y cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg, ar lefel leol, yn darparu'r math o gynnydd a fyddai'n cwrdd â'r targedau a oedd gan y Llywodraeth yn genedlaethol. Rwyf fi jest am olrhain ychydig o'r pwyntiau penodol rwy'n meddwl a fyddai'n gwneud gwahaniaeth i wella ein cyrhaeddiad ni o dan y strategaeth, a hefyd i wella'r cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg o ran eu heffeithlonrwydd.

The committee's concern, and the concern expressed by witnesses to the committee, was that the WESPs at a local level didn't provide the kind of progress that would meet the target that the Government had set on a national level. I just want to outline a few of the specific points that I think would make a difference in improving our attainment under the strategy and would also improve the efficiency of the WESPs.

Rydym yn dechrau, wrth gwrs, gyda'r plant yn yr oedran cynnar—gyda Dechrau'n Deg, y Flying Start. Mae'n wir fod angen cydlynu'r polisïau ar gyfer yr oedran cynnar yma gyda'r strategaeth genedlaethol a'r ddarpariaeth yn y WESPs. Mae hefyd yn bwysig, wrth i blentyn fynd drwy'r ysgol, fod y ddarpariaeth drafnidiaeth yn ychwanegu ac yn cefnogi dewis y rhieni, a dewis y plentyn, ac mae hynny yn rhywbeth sydd yn fwyfwy problematig, yn enwedig gyda'r newidiadau sydd gyda ni mewn addysg Gymraeg ar ôl 16. Rwy'n credu, ar y ddau ben yna, fod angen i'r Llywodraeth—y Llywodraeth ar lefel genedlaethol—fynd i'r afael â'r broblem, yn hytrach na beth sy'n dueddol o ddigwydd nawr—ac rwy'n deall pam mae'n digwydd nawr—sef gwthio'r broblem i lawr i'r awdurdod lleol, a golchi dwylo ar lefel genedlaethol.

We start, of course, with children at the early age—with Flying Start. It's true that we need to co-ordinate policies for these early years with the national strategy and the provision within the WESPs. It's also important, as a child goes through school, that the transport provision supports the parents and the pupils' choice, and that is something that's becoming more and more problematic, particularly given the changes that we see in post-16 Welsh-medium education. I believe that, at those two ends, the Government at a national level needs to tackle that issue, rather than what tends to happen now—and I do understand why it happens—namely that the problem is pushed down to the local authority level and the Government washes its hands at a national level.

Mae Ann Jones wedi crybwyll un mater arall, sef pa mor anodd yw e i newid categori ysgol. Mae'n wir i ddweud nad yw pob rhan o Gymru yn defnyddio'r categori, wrth gwrs, ond mae'n wir i ddweud hefyd fod yna ddiffyg ymwybyddiaeth genedlaethol ynglŷn â manteision addysg Gymraeg. Mae'n bwysig pwysleisio bod addysg Gymraeg yn darparu addysg drylwyr yn Gymraeg, ond mae hefyd yn darparu, wrth gwrs, addysg yn yr iaith Saesneg. Mae'n darparu sgiliau Saesneg gwych yn ogystal, ac mae'r dystiolaeth yn ddigon clir o ran hynny. Roedd gan y Llywodraeth yma ymgyrch genedlaethol i hybu a hyrwyddo buddion addysg Gymraeg, ond, yn anffodus, mae e fel bod yr ymgyrch yna wedi mynd i'r gwellt ac nid oes llawer o ôl yr ymgyrch yma, hyd y gwelaf i. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn ailafael yn y dasg genedlaethol yma o berswadio, darbwyllo, os leiciwch chi, ond yn gyntaf oll o hysbysu pobl, o roi gwybodaeth i bobl ynglŷn â manteision addysg drwy'r Gymraeg a'r ffordd mae addysg Gymraeg yn arwain at blant a phobl ifanc sy'n rhugl yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. O dan hynny, wrth gwrs, mae'r ffaith bod y Gymraeg yn eiddo i bawb yng Nghymru yn hynod bwysig.

Felly, i Blaid Cymru mae'n bwysig bod pob plentyn yn cael addysg Gymraeg, i bob pwrpas, yn y cyfnod sylfaen a bod y blynyddoedd cynnar hynny yn rhai lle mae'r Gymraeg yn cael ei chyflwyno i bob plentyn yng Nghymru, gan ddechrau, wrth gwrs, yn yr ardaloedd hynny lle mae angen cefnogi'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae hefyd yn bwysig, rwy'n meddwl, wrth edrych ar Donaldson a'r ffordd yr ydym yn ehangu'r cwricwlwm newydd, ein bod yn gweld y Gymraeg fel iaith a chyfrwng dysgu yn hytrach na rhywbeth sy'n cael ei ddysgu i bobl. Rydym i gyd yn ymwybodol o ba mor ddiffygiol yw dysgu Cymraeg fel ail iaith yng Nghymru i droi ein pobl ifanc ni yn siaradwyr Cymraeg, ac rwy'n un o'r bobl hynny. Rwy'n credu ei bod yn bwysig, felly, ein bod ni'n tanlinellu pa mor allweddol yw e bod y cwricwlwm newydd yn cyd-fynd â chynllunio strategol Cymraeg mewn addysg i wneud y Gymraeg yn iaith cyfrwng dysgu i bob un plentyn ar ryw adeg yn ystod ei gyfnod mewn ysgol.

Y peth olaf yr hoffwn ei ychwanegu fan hyn at adroddiad y pwyllgor yw bod Plaid Cymru o'r farn bod angen cryfhau'n statudol ar y pwerau sydd gan y Gweinidog i sicrhau bod y cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg yn cael eu gweithredu. Nid yw'r pwerau yn ddigon clir, yn fy marn i, yn y ddeddfwriaeth bresennol. Er bod y pwyllgor wedi cael cyngor cyfreithiol i ddangos bod gan y Gweinidog rywfaint o bŵer dros hyn, hoffwn i weld rhywbeth penodol iawn i sicrhau bod yr awdurdodau lleol, wrth gynllunio ar gyfer addysg Gymraeg, yn glynu wrth y cynlluniau hynny ac yn darparu ac yn cyrraedd y nod.

Ann Jones mentioned one other issue, which is the difficulty in changing the school category. It's true to say that not all parts of Wales use categorisation, of course, but it's also true to say that there is a lack of awareness nationally on the benefits of Welsh-medium education. It's important to emphasise that Welsh-medium education does provide a very thorough Welsh-medium education, but of course it also provides education through the medium of English. It provides excellent English language skills also, and the evidence is quite clear in that regard. This Government did have a national campaign to promote the benefits of Welsh-medium education, but, unfortunately, that campaign seems to have been kicked into the long grass and there isn't much sign of this being implemented, as far as I can see. It's important, therefore, that we take up again this national task of, if you like, convincing people, but also, in the first place, of providing information to people on the benefits of Welsh-medium education and the way in which Welsh-medium education leads to children and young people who are fluent both in Welsh and English. Underpinning that, of course, is the fact that the Welsh language belongs to everyone in Wales.

Therefore, for Plaid Cymru it's important that every child has Welsh-medium education in the foundation phase and that those early years are years where the Welsh language is introduced to all children in Wales, starting, of course, in those areas where we need to support the language as a community language. I think it's also important, in looking at Donaldson and the way in which we're rolling out the new curriculum, that we see the Welsh language as a language and medium for teaching, rather than as a subject that is taught to people. We all know how deficient the teaching of Welsh as a second language is in turning our young people into fluent Welsh speakers, and I happen to be one of those people. I think it's therefore important that we underline just how important it is that the new curriculum does go hand in hand with the WESPs in order to make the Welsh language the medium for tuition for all children at some point during their time at school.

The final point that I'd like to make here in terms of the committee report is that Plaid Cymru is of the view that we do need to strengthen the powers that the Minister has in statute to ensure that the WESPs are implemented. The powers aren't clear enough, in my view, in the current legislation. Although the committee did receive legal advice to demonstrate that the Minister did have some powers in this area, I would like to see something very specific to ensure that local authorities, in planning for Welsh-medium education, stick to those plans and do provide and reach their targets.

14:37 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy’n falch hefyd fod yr adroddiad hwn o’n blaen ni heddiw, achos fel rhywun sydd wedi bod yn brwydro dros addysg Gymraeg dros y blynyddoedd, pan ddaeth y WESPs i fodolaeth roeddwn yn meddwl, ‘Dyna un o’r pethau gorau sydd wedi digwydd ers blynyddoedd.’ Mae geiriau’r cynnig heddiw yn hynod o arwyddocaol. Ar ôl 15 mlynedd a mwy o ddatganoli, nid ydym yn trafod yr egwyddor o addysg Gymraeg nawr; rydym yn gytûn ar yr egwyddor. Rydym i gyd yn awyddus i weld Cymru’n wlad ddwyieithog. Dyna pam rydym yn siarad am strategaeth ac nid egwyddor. Y gwir yw, rydym erbyn hyn yn ymgyrchu at y nod. Rydym yn siarad am y ffordd orau ymlaen. Mewn geiriau eraill, rydym yn siarad am y dyfodol ac nid y gorffennol.

I’m also very pleased that this report is before us today, because as one who has been fighting for Welsh-medium education for many years, when the WESPs were introduced, I thought that it was one of the best things to have happened for many years. The words of the motion today are very significant indeed. After 15 years and more of devolution, we aren’t now discussing the principle of Welsh-medium education; we’re all agreed on the principle. We are all eager to see Wales as a bilingual nation, and that’s why we’re talking about a strategy rather than a principle here. The truth is, we are now trying to strive towards the aim and we’re looking for the best way forward. In other words, we are looking to the future, rather than looking to the past.

Sut ydym yn gwneud llwyddiant o’r broses? Ers amser, rydym wedi bod yn trafod sut orau y cawn ddiogelu’r Gymraeg wrth wneud y symudiad o addysg gynradd i addysg uwchradd. Oherwydd llwyddiant Dechrau’n Deg, a’r addewid i sicrhau gofal plant i bob plentyn rhwng tair a phedair oed, mae Cynulliad Cymru wedi creu problem newydd i’w datrys: sut ydym yn datblygu’r defnydd o’r Gymraeg o gynllun mentrus Dechrau’n Deg a’r addewid newydd i gwricwlwm yr ysgol gynradd? Felly, y cwestiwn mae’n rhaid ei ateb wrth ystyried pob argymhelliad gan y pwyllgor yw: pa mor llwyddiannus fydd yr argymhelliad ac a fydd mesur y llwyddiant yn dibynnu ar fesur ymarferol, sef maint a natur y Gymraeg sy’n cael ei defnyddio ar lafar ac yn ysgrifenedig, er enghraifft wrth edrych ar Gymraeg ail iaith a chael ei wared, fel mae’r Athro Sioned Davies wedi ei ddweud a’r Athro Donaldson? Nid cywirdeb gwleidyddol yw’r cwestiwn ac nid egwyddor chwaith ond, yn hytrach, ymarferoldeb y llwybr ymlaen.

How can we make this process a success? For some time, we’ve been discussing how best we can deliver the Welsh language in making the move from primary to secondary education. Because of the success of Flying Start, and the pledge to provide childcare to all children between three and four years old, the National Assembly has created a new problem to be resolved: how do we develop the use of the Welsh language from the Flying Start programme and the new pledge in terms of the primary curriculum? So, the question that we have to answer in looking at all of the committee’s recommendations is: just how successful will the recommendations be and how can we measure success and will that rely on practical steps, namely the amount of Welsh used both orally and on paper, for example in looking at Welsh as a second language, and abolishing it as it currently exists, as Professor Sioned Davies and Professor Donaldson have recommended? That’s not an issue of political correctness or an issue of practically, but, rather, the practically of the way forward.

Fel mae ymateb Llywodraeth Cymru yn nodi: erbyn hyn mae Llywodraeth Cymru’n gweithio ar y cyd â thri awdurdod lleol lle mae’r galw am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn isel. Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn enwi Llanelli, Blaenau Gwent a sir y Fflint. Mae pethau’n well na’r hyn sy’n cael ei awgrymu yn y geiriau noeth. Yn Llanelli, er enghraifft, mae yna dwf aruthrol wedi bod mewn addysg Gymraeg mewn ysgolion cynradd, gydag ysgol newydd, Ysgol Gymraeg Ffwrnes, yn mynd i gael rhwng 400 a 500 o blant, ac mae yna sôn, oherwydd twf Ysgol y Strade, efallai y bydd angen ail ysgol gyfun Gymraeg arnom ni yn y dref.

As the Welsh Government response notes, the Welsh Government is now working jointly with three local authorities where the demand for Welsh-medium education is currently low. The response of the Welsh Government names Llanelli, Blaenau Gwent and Flintshire. Things are better than what is suggested by the bare words included. In Llanelli, for example, there’s been huge growth in Welsh-medium education in the primary sector, with a new school, Ysgol Gymraeg Ffwrnes, seeing between 400 and 500 children enrolling, and there is talk that, because of the growth of Ysgol y Strade, there may be a need for a second secondary Welsh-medium school in the town.

Ar y llaw arall, synhwyrol yw nodi Blaenau Gwent a sir y Fflint. Dyna’r talcen caled, fel y bydden nhw’n dweud mewn cyn-bentrefi glo o gwmpas Llanelli. A hyd yn oed ym Mlaenau Gwent a sir y Fflint, tan yn gymharol ddiweddar, roedd y Gymraeg yn cael ei chlywed yn y capeli ac yn nhŷ tad-cu a mam-gu—haws cynnu tân ar hen aelwyd, fel mae’r hen ddywediad yn ei ddweud. Dyma’r hyn sy’n bwysig hefyd: mae sawl ardal yng Nghymru lle rydym yn ailgyflwyno diwylliant sydd wedi mynd ar goll. Nid ydym yn gwthio ar blant rhywbeth sydd yn ddieithr—i’r gwrthwyneb: maent yn ailddarganfod eu hetifeddiaeth.

On the other hand, it’s sensible to note Flintshire and Blaenau Gwent. That’s the ‘talcen called, as they would say in the former mining villages around Llanelli—those are the areas that are difficult for the Welsh-medium sector. And even in Blaenau Gwent and Flintshire, until relatively recently, the Welsh language was heard in chapels and in the homes of grandparents—it’s easier, then, to rekindle the fire in those areas, as they say. There are a number of areas in Wales where we are reintroducing a culture that had become lost. We’re not actually pushing something that is alien on these children. Rather, they are rediscovering their heritage.

Heb os nac oni bai, nid yw ewyllys da yn ddigon ac mae sawl mater yn codi o'r adroddiad. Er enghraifft, mae'n rhaid rhoi statws i'r fforymau—y grwpiau cymunedol sy'n ceisio addysg Gymraeg. Er pob tegwch i'r awdurdodau, mae Llywodraeth Cymru yn dweud y dylai'r awdurdodau drafod â'r fforymau, ond, os felly, bydd rhaid gwneud hynny'n statudol ac nid dim ond ei adael i ewyllys da yn unig.

Without doubt, goodwill alone is not enough and a number of issues arise from the report. For example, we must give status to the fora—the community groups that are seeking Welsh-medium education. In fairness to the local authorities, the Welsh Government says that a local authority should discuss with the fora. If so, that must be made statutory, rather than base it simply on goodwill.

Mae'n rhaid hefyd rhoi hawl statudol i riant sy'n dymuno gweld ei blentyn yn derbyn addysg Gymraeg. Bydd yr hawl yn cael blaenoriaeth pan fydd ystyriaethau trafnidiaeth yn codi, fel y soniodd Simon yn gynharach. Rwy'n pryderu am y ffaith mai'r awdurdod lleol sy'n penderfynu beth yw'r ysgol addas agosaf i'r dysgwyr, ac nid rhyw gorff arall.

We must also give statutory rights to parents who want to see their children receiving Welsh-medium education. That right would be given a priority when transport considerations arise, as Simon mentioned earlier. I'm concerned about the fact that it's the local authority that decides what the appropriate school is for the learner, rather than some other body.

Yn olaf, mae'r awdurdodau wedi cael tair blynedd i ddatblygu eu cynlluniau strategol, ond mae yna ffordd i fynd cyn iddynt fod yn fwy effeithiol. Nid ydynt wedi gweithio'n ddigon caled, yn fy marn i, ar y cynlluniau. Rwy'n falch i weld fod y Llywodraeth yn ystyried cynnal cyfres o gyfarfodydd wedi'u targedu at rai awdurdodau lleol yn 2016 a thu hwnt, achos fel mae pethau yn awr, nid ydynt yn ddigonol. Diolch.

Finally, the authorities have had three years to develop their strategic plans, but ensuring that there is some way to go to ensure that they are more effective. They haven't worked hard enough, in my view, on these schemes. I'm pleased to see that the Government is considering holding a series of meetings targeted at certain local authorities in 2016 and beyond, because, as things currently stand, they are not sufficient. Thank you.

14:42

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf fi jest ategu beth mae ein Cadeirydd wedi'i ddweud—a llongyfarchiadau ar eich defnydd o'r Gymraeg—a hefyd Simon a Keith, achos rwy'n meddwl mai beth sydd gennym yma ydy'r ffaith ein bod ni'n diolch i'r Gweinidog am dderbyn chwech o'n hargymhellion ni, a hefyd chwech ychwanegol mewn egwyddor, ond rwy'n meddwl ein bod ni'n siomedig bod y pump arall—? Achos beth rydym yn trio ei wneud fel pwyllgor ydy adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i wneud, ond dangos ein rhwystredigaeth ni, i ryw raddau, o ran beth sydd yn digwydd ar lawr gwlad o achos —. Mi gyfeiriodd Keith yn gynharach at sir y Fflint. Sir y Fflint oedd y sir gyntaf yng Nghymru i gael ysgol gynradd ac ysgol uwchradd Gymraeg. Brodor o'r Rhos oedd y cyfarwyddwr addysg yn y sir bryd hynny. Ond, ers hynny, wrth gwrs, mae'r sir ar hyn o bryd yn ystyried cau ysgol fechan yng ngogledd y sir, yn yr ardal fwyaf traddodiadol o ran yr iaith Gymraeg o fewn y sir, sydd yn warth, os ydym yn ystyried beth ydy strategaeth Llywodraeth Cymru.

May I just endorse the words of our Chair—and I congratulate you on your use of the Welsh language—and also the words of Simon and Keith, because what we have here is the fact that we are thanking the Minister for accepting six of our recommendations, and also an additional six in principle, but I believe that we are disappointed that the other five—? Because, as a committee, what we're trying to do is to build on the work already done, but demonstrate our frustrations, to some extent, on what is actually happening on the ground because—. Keith referred earlier to Flintshire. Flintshire was the first county in Wales to have both a primary and secondary Welsh-medium school. A native of Rhosllannerchrugog was the director of education for the county at the time. However, since then, the county is considering the closure of a small primary school in the north of the county, which is in the most traditionally Welsh-speaking area within the county, which is a disgrace, when we look at the strategy of the Welsh Government.

Rydym hefyd mewn sefyllfa lle mae sir gyfagos, sir Ddinbych, yn ystyried newid statws Ysgol Pentrecelyn—ysgol cyfrwng Cymraeg—ac yn dweud eu bod yn mynd i roi'r ysgol newydd yn Llanfair yn yr ail gategori. Felly, mae'n hawdd iawn inni ddweud yma fod pethau'n digwydd a bod yna gynnydd, ond ar lawr gwlad nid ydy hynny'n digwydd. Mae'n amser inni ddweud erbyn hyn nad yw rhai o'r strategaethau yma'n gweithio, ac os nad ydynt yn gweithio, mae'n hen bryd inni weithredu. Yn y pen draw, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyfaddef nad yw eu strategaeth nhw o ran cynyddu nifer y plant saith oed sydd yn mynd i siarad Cymraeg neu'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn gweithio gan fod y nifer yn disgyn. Ac mae'r Gweinidog ei hun, o fewn yr adroddiad blynyddol o ran y strategaeth Gymraeg, wedi cyfaddef eu bod yn mynd i fethu eu targed ar gyfer 2020.

We are also in a position where the adjacent county, Denbighshire, is considering changing the status of Ysgol Pentrecelyn, which is a Welsh-medium school. They are saying that the new school will be located in Llanfair and placed in the second category. So, it's easy for us to say here that things are happening and that progress is happening, but, on the ground, that isn't the truth. And it's high time that we said that some of these strategies aren't working, and if they're not working, it's high time that we took action, because, ultimately, the Welsh Government has to admit that its strategy, from the point of view of increasing the number of seven-year-olds who are able to speak Welsh or receive their education through the medium of Welsh, is failing. And the Minister himself, within the annual report on the Welsh-medium education strategy has admitted that they will not meet the target by 2020.

Felly, mae'n rhaid inni ofyn y cwestiwn: beth sydd yn mynd o'i le? Rwy'n meddwl mai diffyg arweiniad strategol o ran yr awdurdodau sydd ar led yma a'r ffaith ein bod ni fel pwyllgor, fel y dywedodd ein Cadeirydd ni, yn adlewyrchu tystiolaeth a gawsom ni gan awdurdodau eu hunain. Roedden nhw'n dweud bod yna rwystredigaeth ar lefel deddfwriaeth, i ryw raddau. Rwy'n cefnogi beth a ddywedodd ein Cadeirydd ni. Os oes yna gamddealltwriaeth o ran dehongliad deddfwriaeth ar lefel llywodraeth leol, mae yna gyfle'r prynhawn yma i'r Gweinidog ddweud hynny. Mi oedd yna un sir a oedd yn dweud wrthym os oedden nhw'n ymateb i gynnydd o ran galw o fewn addysg Gymraeg mewn sir, a'u bod nhw eisiau newid categori iaith ysgol, fod yn rhaid iddyn nhw fynd trwy'r broses ffurfiol o gau'r ysgol ac ailagor yr ysgol. Felly, os nad yw hynny'n gywir, a gawn ni ei glywed o'r prynhawn yma?

So, we must ask the question: what is going wrong? I think that what is here is a lack of strategic leadership from the authorities and the fact that we as a committee, as our Chair said, reflected the evidence received from the authorities themselves. They stated that there was frustration with the legislation, to some extent. I support what our Chair said. If there is a misunderstanding as regards the interpretation of legislation on a local government level, then there's an opportunity for the Minister to say that today this afternoon. One county told us that if they responded to an increase in demand for Welsh-medium education in the county and that they wanted to change the language category of a school, they had to go through the formal process of closing that school and then reopening it. If that is incorrect, please could you tell us so this afternoon?

Rydw i hefyd yn meddwl bod yna ddiffyg cynllunio, achos rydw i yn cefnogi cynnydd yn narpariaeth Dechrau'n Deg, ond mae hynny'n amharu, mewn rhai ardaloedd, ar y niferoedd sy'n mynd i mewn i'r cylchoedd meithrin. Felly, mae yna ryw ddatgysylltiad i ryw raddau, rhwng un polisi a'r polisi arall. Dyna pam roeddwn i'n gofyn am ryw fath o gyswllt rhwng Dechrau'n Deg a'r targed o ran plant 7 oed.

I also think there is a lack of planning. I support the increase in provision of Flying Start, but that does have an impact, in some areas, on the numbers that are then admitted into the nursery groups. So, there is a disconnect, to some extent, between one policy and another. That is why I asked for some sort of linkage between Flying Start and the target from the point of view of 7-year-olds.

Felly, rwyf yn teimlo, fel pwyllgor, ein bod ni wedi dod i gasgliad bod yna broblem efo'r cynlluniau addysg Gymraeg yma. A gaf i ddweud, yn Wrecsam, er enghraifft, rydych chi wedi dweud nad oes angen inni gael gwybodaeth a fuasai'n rhoi baich ar y cyngor a hyn a'r llall? Yn Wrecsam, nid oes yna unrhyw batrwm o ran mynediad i'r fforymau addysg. Yn Wrecsam, fe gafodd grŵp o rieni eu cicio allan o gyfarfod o achos eu bod nhw wedi mynd yno i weld pam nad oedd y cyngor yn ymateb i'r galw am addysg Gymraeg. Rwy'n mynd i ddweud wrth y Gweinidog, os yw e'n credu bod y gyfundrefn yma'n gweithio, mae angen i rai o'i swyddogion o fynd allan i'r awdurdodau hyn a gweld yn union beth mae rhieni'n ei ddweud, achos nid ydyn nhw'n fodlon efo'r sefyllfa, a'n lle ni, fel Aelodau'r Cynulliad yma, ydy dweud wrth y Llywodraeth nad ydym ni, ychwaith, yn fodlon, fel aelodau'r pwyllgor.

So, I do feel that, as a committee, we have come to a conclusion that a problem does exist with the WESPs. May I say, in Wrexham, for example, you said that there was no need for us to receive the data that would be burdensome for the council and so on? In Wrexham, there is no pattern as regards access to the education fora. In Wrexham, a group of parents were kicked out of a meeting because they had gone to the meeting to see why the council wasn't responding to the demand for Welsh-medium education. I will say to the Minister, if he believes that this system is working, then there's a need for some of his officials to go out into these authorities to see exactly what parents are saying, because they're not happy with the situation, and it is our place, as Assembly Members, to tell the Government that we are also dissatisfied, as committee members.

14:47

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Education and Skills, Huw Lewis.

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis.

14:47

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I begin by thanking the committee for its report into Welsh in education strategic plans? This is a welcome and timely contribution to the development of WESPs for two reasons. First, we are in the process of approving the third and final version of the first generation of the full three-year plans. Over the coming months, Welsh Government will be considering what changes in terms of focus, emphasis, form and content might be made for the three years from 2017 to 2020.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i'r pwyllgor am ei adroddiad ar gynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg? Mae hwn yn gyfraniad i'w groesawu ac yn un amserol i ddatblygiad CSCAu am ddau reswm. Yn gyntaf, rydym yn y broses o gymeradwyo'r drydedd fersiwn a'r un derfynol o'r genhedlaeth gyntaf o gynlluniau tair blynedd llawn. Dros y misoedd nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pa newidiadau o ran ffocws, pwyslais, ffurf a chynnwys y gellid eu gwneud ar gyfer y tair blynedd rhwng 2017 a 2020.

Secondly, the Government has already commissioned an evaluation of the Welsh-medium education strategy, which will look, among other things, at the role and effect of WESPs, particularly in terms of the planning and delivery of Welsh-medium provision. I'm not in a position, as yet, to go into detail about the findings of the evaluation report, but I expect it to be published next month, at which point I will make a statement about the way forward.

Yn ail, mae'r Llywodraeth eisoes wedi comisiynu gwerthusiad o'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg, a fydd yn edrych, ymhlith pethau eraill, ar rôl ac effaith CSCAu, yn enwedig o ran y gwaith o gynllunio a chyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Nid wyf mewn sefyllfa, hyd yma, i sôn yn fanwl am ganfyddiadau'r adroddiad gwerthuso, ond rwy'n disgwyl iddo gael ei gyhoeddi fis nesaf, a bryd hynny byddaf yn gwneud datganiad ynglŷn â'r ffordd ymlaen.

The Welsh Government has accepted 12 of the 17 recommendations of the committee in full or in principle and I hope that that suggests—at least, it suggests to me—that there is a broad basis of agreement about the WESP process. However, it is important for all of us to understand that WESPs cannot override or bypass local decision making or local strategic planning. They can only improve transparency and provide an ongoing forum for local public input and also, of course, they do provide purchase for the Welsh Government at a national level in terms of what is going on in each of the 22 local authorities. They cannot be a panacea for all ills and cannot solve all those problems that might arise locally, however frustrating they may be.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn 12 o'r 17 o argymhellion gan y pwyllgor yn llawn neu mewn egwyddor ac rwy'n gobeithio bod hynny'n awgrymu—o leiaf, mae'n awgrymu i mi—fod sylfaen gyffredinol o gytundeb ynghylch proses y CSCAu. Fodd bynnag, mae'n bwysig i bawb ohonom ddeall na all CSCAu anwybyddu neu osgoi prosesau penderfynu lleol neu gynllunio strategol lleol. Ni allant ond gwella tryloywder a darparu fforwm parhaus ar gyfer mewnbwn cyhoeddus lleol a hefyd, wrth gwrs, maent yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar lefel genedlaethol ar yr hyn sy'n digwydd ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol. Ni allant fod yn ateb i bob problem na datrys yr holl broblemau a allai godi'n lleol, ni waeth pa mor llesteiriol ydynt.

But, let me take the recommendations stressed by the Chair, one by one. I think that would be helpful as a response. Recommendation 5: on this, the process for changing a school's linguistic categorisation, the steps to take are clearly outlined in the school organisation code. The Welsh Government consulted on this process back in 2012. This invariably requires the publication of a statutory notice as well as a proper period of consultation. This is to ensure that all interested parties have an opportunity to put forward their views within a given period of time. I am sure that the committee would want reassurance that any fundamental change to the education system does need to be considered carefully. We've monitored the general implementation of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and it is apparent that a number of local authorities have conducted efficient processes for school organisation proposals and have complied with the timetables set out in the legislation. If any local authority adopts processes that go beyond the requirements of the legislation, that is, of course, a matter for them.

Ond gadewch i mi ymdrin â'r argymhellion a bwysleisiwyd gan y Cadeirydd fesul un. Rwy'n credu y byddai hynny'n ddefnyddiol fel ymateb. Argymhelliad 5: ar hyn, y broses o newid categori ieithyddol ysgolion, mae'r camau i'w cymryd wedi'u hamlinellu'n glir yn y cod trefniadaeth ysgolion. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y broses hon yn ôl yn 2012. Mae hyn yn ddieithriad yn galw am gyhoeddi hysbysiad statudol, yn ogystal â chyfnod priodol o ymgynghori er mwyn sicrhau bod pawb sydd â diddordeb yn cael cyfle i gyflwyno eu safbwyntiau o fewn cyfnod penodol o amser. Rwy'n siŵr y byddai'r pwyllgor eisiau sicrwydd fod angen ystyried yn ofalus unrhyw newid sylfaenol i'r system addysg. Rydym wedi monitro gweithrediad cyffredinol Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'n amlwg fod nifer o awdurdodau lleol wedi cynnal prosesau effeithlon ar gyfer cynigion trefniadaeth ysgolion ac wedi cydymffurfio â'r amserlenni a nodir yn y ddeddfwriaeth. Os bydd unrhyw awdurdod lleol yn mabwysiadu prosesau sy'n mynd y tu hwnt i ofynion y ddeddfwriaeth, mater iddynt hwy yw hynny, wrth gwrs.

On recommendation 6, as I said in my response to the committee, the possibility of requiring local authorities to produce and publish annual reports was considered during the drafting of the Welsh in Education Strategic Plans and Assessing Demand for Welsh Medium Education (Wales) Regulations 2013. It was rejected because it would impose another burden on local authorities as they already review their plans annually as well as consulting on the revised versions and publishing, of course, the approved plan. The written evidence submitted by the Welsh Local Government Association and the Association of Directors of Education in Wales indicated that they were content with the existing reporting arrangements. However, it's not about the capacity of local authorities to produce these reports; it's whether the view expressed by one witness—which, I believe was Carmarthen—represents the view of the other 21 local authorities. However, I am happy to agree to my officials going forward now to discuss this with local authorities so that we may agree a consensus on this point.

O ran argymhelliad 6, fel y dywedais yn fy ymateb i'r pwyllgor, cafodd y posibilrwydd o'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio a chyhoeddi adroddiadau blynyddol ei ystyried yn ystod y broses o ddrafftio Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013. Fe'i gwrthodwyd oherwydd y byddai'n gosod baich arall ar awdurdodau lleol, gan eu bod eisoes yn adolygu eu cynlluniau'n flynyddol, yn ogystal ag ymgynghori ar y fersiynau diwygiedig, a chyhoeddi'r cynllun a gymeradwywyd, wrth gwrs. Roedd y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru yn nodi eu bod yn fodlon ar y trefniadau adrodd presennol. Fodd bynnag, nid yw'n ymwneud â gallu awdurdodau lleol i gynhyrchu'r adroddiadau hyn; mae'n ymwneud â pha un a yw'r farn a fynegwyd gan un tyst—sef Caerfyrddin, rwy'n credu—yn cynrychioli barn y 21 o awdurdodau lleol eraill. Fodd bynnag, rwy'n hapus i gytuno i fy swyddogion fynd ymlaen yn awr i drafod hyn gydag awdurdodau lleol, fel y gallwn gytuno ar gonsensws ar y pwynt hwn.

On recommendation 7, I'm still not convinced that much will be gained by identifying who has initiated changes to any given plan—the Government or the local authority. Similarly, publishing exchanges with local authorities about modifications would add very little to the process, in my view. There is ample opportunity through the annual consultation process for interested parties to influence the content of a plan. That is, in large part, the usefulness of the WESPs in the first place. The important thing is for the statutory approval process to be completed so that an authority has an approved plan, and, more importantly, of course, that it gets on with implementing it.

O ran argymhelliad 7, rwy'n dal heb gael fy argyhoeddi y bydd llawer i'w ennill o nodi pwy sydd wedi cyflwyno newidiadau i unrhyw gynllun penodol—y Llywodraeth neu'r awdurdod lleol. Yn yr un modd, ni fyddai cyhoeddi trafodaethau ag awdurdodau lleol ynglŷn ag addasiadau yn ychwanegu fawr ddim at y broses yn fy marn i. Mae digon o gyfle drwy'r broses ymgynghori flynyddol i rai sydd â diddordeb ddylanwadu ar gynnwys cynllun. I raddau helaeth, dyna yw defnyddioldeb y CSCAu yn y lle cyntaf. Y peth pwysig yw y cwblheir y broses gymeradwyo statudol, fel bod gan awdurdod gynllun wedi'i gymeradwyo ac yn bwysicach, wrth gwrs, ei fod yn bwrw ymlaen â'i weithredu.

On recommendation 14, the Welsh-medium education strategy target of 25 per cent of seven-year-olds taught through the medium of Welsh was set by reference to what might be reasonable to aim for from the percentage of seven-year-olds taught through the medium of Welsh, and that was 21 per cent at the time, in the base year of 2009. It wasn't made with reference to the number or percentage of Welsh-medium Flying Start places, for which no national target has been set.

O ran argymhelliad 14, cafodd y targed strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg i 25 y cant o blant saith oed gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ei bennu drwy gyfeirio at yr hyn a allai fod yn rhesymol i anelu tuag ato o ganran y plant saith oed sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a 21 y cant oedd hwnnw ar y pryd, yn y flwyddyn sylfaen yn 2009. Ni chafodd ei wneud drwy gyfeirio at y nifer neu'r ganran o leoedd Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg, lle nad oes targed cenedlaethol wedi'i osod.

On recommendation 17, the statutory duty to prepare a WESP is placed on local authorities and, of course, local authorities do not have responsibility for further education provision. Enabling young people to continue their education through the medium of Welsh is key to strengthen linguistic choice and the use of Welsh language, of course, but, notwithstanding that, I cannot include FE provision within WESPs. It should be noted that further education institutions have their own plans and how they develop Welsh-medium provision is a matter for them. However, there is an expectation that the Welsh language, of course, will be a key feature when developing courses and when marketing their offer to pre-16 learners.

O ran argymhelliad 17, mae'r ddyletswydd statudol i baratoi CSCA wedi'i osod ar awdurdodau lleol ac wrth gwrs, nid oes gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb dros ddarpariaeth addysg bellach. Mae galluogi pobl ifanc i barhau â'u haddysg cyfrwng Cymraeg yn allweddol i gryfhau dewis ieithyddol a defnyddio'r iaith Gymraeg, wrth gwrs, ond er gwaethaf hynny, ni allaf gynnwys darpariaeth addysg bellach o fewn CSCAu. Dylid nodi bod gan sefydliadau addysg bellach eu cynlluniau eu hunain a mater iddynt hwy yw sut y maent yn datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae yna ddisgwyliad y bydd y Gymraeg, wrth gwrs, yn nodwedd allweddol wrth ddatblygu cyrsiau ac wrth farchnata eu cynnig i ddysgwyr cyn-16.

I do want to thank the committee for their work and for Members' insightful and instructive comments here this afternoon. I do not doubt, actually, that the whole subject of Welsh in education strategic plans is an evolving area in terms of Government policy and in terms of the nature and substance of the plans themselves. It is worth pausing to consider that we do now, in Wales, have a public annual opportunity for all those concerned with Welsh in education to have oversight and input into important local decision making in that area. That, I think, by the very nature of opening up an ongoing, evolving debate around the subject, will lead us in the right direction.

Rwyf am ddiolch i'r pwyllgor am eu gwaith ac am sylwadau craff a dysgedig yr Aelodau y prynhawn yma. Nid wyf yn amau, mewn gwirionedd, fod pwnc cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg yn faes sy'n esblygu o ran polisi'r Llywodraeth ac o ran natur a sylwedd y cynlluniau eu hunain. Mae'n werth oedi i ystyried bod gennym yn awr, yng Nghymru, gyfle blynyddol cyhoeddus i bawb sy'n ymwneud â Chymraeg mewn addysg arolygu a darparu mewnbwn i benderfyniadau lleol pwysig yn y maes. Bydd hynny, rwy'n meddwl, wrth ei natur o gychwyn dadl barhaus sy'n esblygu ar y pwnc, yn ein harwain i'r cyfeiriad cywir.

14:55 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. I call on Ann Jones to reply to the debate.

Diolch yn fawr, Weinidog. Galwaf ar Ann Jones i ymateb i'r ddadl.

14:55 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thanks very much. Can I first of all say thank you, Minister? At least, I think, one out of five's not bad—to get you to agree to go and meet with ERW and with the local education authority. It's about trying to find that there is a consistent message, and I think what we wanted to see was that where there is good practice, that is disseminated throughout Wales and that people don't play this game, which they often do, of, 'Well, that doesn't happen in my patch, but it happens over here.' So, that's what I think we were after—consistency. So, I'll take the one hit there as something that you've conceded.

Diolch yn fawr iawn. A gaf fi yn gyntaf oll ddweud diolch, Weinidog? O leiaf nid wyf yn credu bod un allan o bump yn ddrwg—i'ch cael i gytuno i fynd i gyfarfod ag ERW a'r awdurdod addysg lleol. Mae'n ymwneud â cheisio canfod bod yna neges gyson, ac rwy'n meddwl mai'r hyn roeddem am ei weld oedd bod arferion da, lle y'u ceir, yn cael eu lledaenu ledled Cymru ac nad yw pobl yn chwarae'r gêm, fel y gwnant yn aml, o ddweud 'Wel, nid yw hynny'n digwydd yn fy ardal i, ond mae'n digwydd yma.' Felly, dyna rydym ei eisiau, rwy'n credu—cysondeb. Felly, cymeraf yr un llwyddiant fel rhywbeth rydych wedi'i ildio.

It's about just saying that we are very passionate about, actually, Welsh-medium education, and it was an area that is growing, we feel, and we want to help it grow and we want people to understand that it's not a part of the education system that is exclusive to just one set of people or in one community. That's why we requested for all the information to be out there for people to look at, in the hope that people won't be frightened about Welsh-medium education.

Mae'n ymwneud â dweud yn syml ein bod yn angerddol iawn ynglŷn ag addysg cyfrwng Cymraeg mewn gwirionedd, a'i fod yn faes sy'n tyfu, rydym yn teimlo, ac rydym yn awyddus i'w helpu i dyfu, ac eisiau i bobl ddeall nad yw'n rhan o'r system addysg sy'n unigryw i un math o bobl neu mewn un gymuned. Dyna pam rydym wedi gofyn am i'r wybodaeth i gyd fod ar gael i bobl edrych arni, yn y gobaith na fydd pobl yn ofnus ynglŷn ag addysg cyfrwng Cymraeg.

I thank Aled now. I suppose I've let the cat out of the bag now. You won't be able to speak in Welsh with me now because you will now know that I understand it, even if I don't speak it. So, I probably have let my own guard down there, but, nevertheless, I thought it was important to say, as somebody who actually has had Welsh taught to her in school, albeit a long time ago, that it's taken me another channel to put that Welsh-medium education into use and that's what I don't want to see and why I think that Simon made the point about starting off in Flying Start and moving it through, so it becomes a natural thing. That's what I'm hoping that my grandchildren will be able to do; they will interchange between Welsh and English, which then, as Keith said, puts in that very bilingual nature of our country that we're all striving to—. So, I thank you for that. I'm going to take a victory. Those of you who know I like football—I would love just one goal for my team at the moment; yes, like one goal for my team at the moment. So, I'll take that as a goal and I'll take that as a victory.

Diolch i Aled. Mae'n debyg fy mod wedi gollwng y gath o'r cwd yn awr. Ni fyddwch yn gallu siarad Cymraeg gyda mi yn awr gan y byddwch bellach yn gwybod fy mod yn ei deall, hyd yn oed os nad wyf yn ei siarad. Felly, mae'n debyg na fûm yn ddigon gofalus yn hynny o beth, ond serch hynny, roeddwn yn credu ei bod yn bwysig dweud, fel rhywun sydd wedi cael Cymraeg wedi'i dysgu iddi yn yr ysgol, er bod hynny amser maith yn ôl, y bu'n rhaid i mi droi at sianel arall i ddefnyddio'r addysg cyfrwng Cymraeg honno a dyna'r hyn nad wyf am ei weld a pham rwy'n meddwl bod Simon wedi gwneud y pwynt ynglŷn â dechrau gyda Dechrau'n Deg a'i symud ymlaen, fel ei fod yn dod yn beth naturiol. Dyna rwy'n gobeithio y bydd fy wyrion yn gallu ei wneud; byddant yn cyfnewid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, a fydd wedyn, fel y dywedodd Keith, yn cadarnhau natur ddwyieithog ein gwlad rydym i gyd yn ymdrechu i'w—. Felly, diolch i chi am hynny. Rwy'n mynd i gymryd buddugoliaeth. Y rheini ohonoch sy'n gwybod fy mod yn hoffi pêl-droed—byddwn wrth fy modd ag un gôl i fy nhîm ar hyn o bryd; ie, un gôl i fy nhîm ar hyn o bryd. Felly, fe gymeraf hynny fel gôl ac fe gymeraf hynny fel buddugoliaeth.

But can I say thank you on behalf of the committee, as I said before, for the way in which you have engaged with our committee? I'd like to say, again, thank you to all the committee members for the way in which we've all worked, I think, consensually, across to support you delivering a good education system for the future generations of Wales. Diolch yn fawr iawn.

Ond a gaf fi ddweud diolch ar ran y pwyllgor, fel y dywedais o'r blaen, am y ffordd rydych wedi ymgysylltu â'n pwyllgor? Hoffwn ddweud, unwaith eto, diolch i holl aelodau'r pwyllgor am y modd rydym i gyd wedi gweithio, rwy'n credu, yn gydsyniol, i'ch cynorthwyo i gyflwyno system addysg dda ar gyfer cenedlaethau Cymru yn y dyfodol. Diolch yn fawr iawn.

14:58

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you. The proposal is to note the Children, Young People and Education Committee's report. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch. Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

# 5. Dadl ar yr Adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar Weithgareddau'r Cynrychiolwyr o Gymru ar Bwyllgor Rhanbarthau'r UE

*Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts.*

# 5. Debate on the Report to the National Assembly for Wales on the Activities of the Welsh Representatives on the EU Committee of the Regions

*The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts.*

14:58

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The next item is the debate on the report to the National Assembly for Wales on the activities of the Welsh representatives on the EU Committee of the Regions. I call on Mick Antoniw to move the motion.

Yr eitem nesaf yw'r ddadl ar yr adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar weithgareddau'r cynrychiolwyr o Gymru ar Bwyllgor Rhanbarthau'r UE. Galwaf ar Mick Antoniw i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5925 Mick Antoniw

Motion NDM5925 Mick Antoniw

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor y Rhanbarthau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ionawr 2016.

Notes the Committee of the Regions' report to the National Assembly for Wales, laid in the Table Office on 15 January 2016.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

14:58

## Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that. I have great pleasure in presenting this first ever report on the work that my colleague Rhodri Glyn Thomas and I, as representatives of Wales and of the National Assembly for Wales, and also the representatives of Welsh local government have carried out in Brussels in the Committee of the Regions. It is our joint report, and it's presented today in recognition of the increasing role that Wales is playing in the European Union, the advantages that our membership creates for Wales and the opportunities it delivers for Wales as part of one of the largest and richest trading blocs in the world, one of the greatest economic dynamos for research and innovation, and, equally importantly, one of the greatest stabilising partnerships for economic, social and cultural co-operation across nations that, for past generations, have a history of either fighting one another or fearing one another.

Diolch i chi am hynny. Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r adroddiad cyntaf erioed ar y gwaith y mae fy nghyd-Aelod Rhodri Glyn Thomas a minnau, fel cynrychiolwyr Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a hefyd cynrychiolwyr llywodraeth leol Cymru, wedi'i gyflawni ym Mrwsel ym Mhwyllgor y Rhanbarthau. Ein hadroddiad ar y cyd ydyw, ac fe'i cyflwynir heddiw i gydnabod y rôl gynyddol y mae Cymru yn ei chwarae yn yr Undeb Ewropeaidd, y manteision y mae ein haelodaeth yn eu creu i Gymru a'r cyfleoedd y mae'n eu rhoi i Gymru fel rhan o un o flociau masnachu mwyaf a chyfoethocaf y byd, un o'r dynamos economaidd mwyaf ar gyfer ymchwilio ac arloesi, a'r un mor bwysig, un o'r partneriaethau sy'n sefydlogi fwyaf ar gyfer sicrhau cydweithrediad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ar draws gwledydd sydd â hanes ers cenedlaethau yn y gorffennol naill ai o ymladd ei gilydd neu o ofni ei gilydd.

This is, by coincidence, a most timely report in the light of recent events, and I hope today's debate will set the scene for a progressive and forward-looking discussion on the role of this Assembly in Wales, within the UK and within Europe, now and in the future. I've had the great honour for just over two years of representing Wales on the Committee of the Regions. This is the body that was set up under the Maastricht treaty to give voice to local and regional government, a body of representatives of cities and regions of Europe coming together to share experiences, to develop partnerships, to create jobs and training opportunities, and to foster social and cultural hegemony, partnerships and work experience and opportunities across borders. We contribute our experience as a small and bilingual nation, and we share those of others. Wales is punching above its weight in Europe, and countries across Europe are following our lead in the way that we have protected and proactively created job opportunities. Through ReAct and ProAct we lead the way. In environmental measures, Europe is now following our lead in areas such as plastic bag levies and closely observing the groundbreaking Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.

Mae hwn, drwy gyd-ddigwyddiad, yn adroddiad amserol iawn yng ngoleuni digwyddiadau diweddar, ac rwy'n gobeithio y bydd y ddadl heddiw'n gosod y llwyfan ar gyfer trafodaeth flaengar, sy'n edrych tua'r dyfodol, ar rôl y Cynulliad hwn yng Nghymru, o fewn y DU ac o fewn Ewrop, yn awr ac yn y dyfodol. Cefais yr anrhydedd mawr ers ychydig dros ddwy flynedd o gynrychioli Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau. Dyma'r corff a sefydlwyd o dan gytuniad Maastricht i roi llais i lywodraeth leol a rhanbarthol, sef corff o gynrychiolwyr o ddinasoedd a rhanbarthau Ewrop yn dod at ei gilydd i rannu profiadau, i ddatblygu partneriaethau, i greu swyddi a chyfleoedd hyfforddi, ac i feithrin hegemoni, partneriaethau a phrofiad gwaith cymdeithasol a diwylliannol a chyfleoedd ar draws ffiniau. Rydym yn cyfrannu ein profiad fel cenedl fach a dwyieithog, ac rydym yn rhannu profiadau cenhedloedd eraill. Mae Cymru yn cyflawni'n well na'r disgwyl yn Ewrop, ac mae gwledydd ledled Ewrop yn dilyn ein hesiampl o ran y ffordd rydym wedi diogelu swyddi ac wedi creu swyddi'n rhagweithiol. Drwy ReAct a ProAct, rydym yn arwain y ffordd. O ran camau amgylcheddol, mae Ewrop yn awr yn dilyn ein hesiampl mewn meysydd fel ardollau bagiau plastig a glynu'n agos at y ddeddf arloesol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Through an opinion I recently presented on standards of remuneration across the European Union, we are engaging with the European Commission, the European Parliament and European communities on developing the concept of the living wage as part of a social Europe.

Drwy farn a gyflwynais yn ddiweddar ar safonau cyflogau ledled yr Undeb Ewropeaidd, rydym yn ymgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd, Senedd Ewrop a chymunedau Ewropeaidd ynghylch datblygu'r cysyniad o gyflog byw fel rhan o Ewrop gymdeithasol.

My colleague on the Committee of the Regions, Rhodri Glyn, has, through his considerable activity, raised the level of regional understanding and co-operation on the potential of ocean energy, in which Wales is increasingly seen as a European leader, as well as his rapporteurships on the use of local and regional finance in conjunction with European funding opportunities and the European Investment Bank to create economic and social opportunities—work that is invaluable as we proceed with major projects such as the south Wales metro.

Drwy ei weithgarwch sylweddol, mae fy nghyd-aelod ar Bwyllgor y Rhanbarthau, Rhodri Glyn, wedi codi'r lefel o ddealltwriaeth a chydweithrediad rhanbarthol ar botensial ynni môr, lle y caiff Cymru ei gweld yn gynyddol fel arweinydd yn Ewrop, yn ogystal â'i rapporteuriaeth ar y defnydd o gyllid lleol a rhanbarthol ar y cyd â chyfleoedd ariannu Ewropeaidd a Banc Buddsoddi Ewrop i greu cyfleoedd economaidd a chymdeithasol—gwaith sy'n amhrisiadwy wrth i ni fwrw ymlaen â phrosiectau mawr, fel metro de Cymru.

Councillors Bob Bright and Ronnie Hughes have contributed their considerable knowledge and experience to developing the role of local government in vocational education and in training strategies. This leadership helps to further raise Wales's profile in Europe, which is growing as a result of our reputation for hosting great sporting events, our pioneering research and being recognised as offering a fantastic visitor experience.

Mae'r cynghorwyr Bob Bright a Ronnie Hughes wedi cyfrannu eu gwybodaeth a'u profiad sylweddol i ddatblygu rôl llywodraeth leol mewn addysg alwedigaethol ac mewn strategaethau hyfforddi. Mae'r arweinyddiaeth hon yn helpu i godi proffil Cymru yn Ewrop ymhellach, proffil sy'n tyfu o ganlyniad i'n henw da am gynnal digwyddiadau chwaraeon gwych, ein hymchwil arloesol a chael ein hadnabod fel gwlad sy'n cynnig profiad gwych i ymwelwyr.

From the European side, we are benefiting so much now from a better understanding of how we can develop renewable energy, but also community ownership of energy, smart cities, digital inclusion and, for us in Wales, integrated transport and the development of city regions and metro transport systems. All these innovative ideas, and often transformational projects, have emerged from years of work in co-operation across borders from which we benefit and from which our European partners in the cities and regions of Europe benefit.

O'r ochr Ewropeaidd, rydym yn elwa cymaint yn awr o well dealltwriaeth o sut y gallwn ddatblygu ynni adnewyddadwy, yn ogystal ag ynni sy'n eiddo i'r gymuned, dinasoedd deallus, cynhwysiant digidol ac i ni yng Nghymru, trafnidiaeth integredig a datblygu dinas-ranbarthau a systemau trafnidiaeth metro. Mae'r holl syniadau arloesol hyn, prosiectau sy'n aml yn gweddnewid pethau, wedi deillio o flynyddoedd o waith cydweithredol ar draws ffiniau rydym yn elwa arno a gwaith y mae ein partneriaid Ewropeaidd yn ninasoedd a rhanbarthau Ewrop yn elwa arno.

Of course, we are all aware of the financial benefits to our membership and engagement with the European Union. We are all aware of the social and business development projects that would not have happened but for the trigger of European funding, and which are unlikely to continue if we were to decide to leave the European Union, such as Finance Wales, Jobs Growth Wales, our apprenticeship programmes and many, many others.

Wrth gwrs, rydym i gyd yn ymwybodol o fanteision ariannol ein haelodaeth a'n hymgysylltiad â'r Undeb Ewropeaidd. Rydym i gyd yn ymwybodol o'r prosiectau cymdeithasol a datblygu busnes na fyddai wedi digwydd oni bai am sbardun cyllid Ewropeaidd, ac sy'n annhebygol o barhau pe baem yn penderfynu gadael yr Undeb Ewropeaidd, pethau megis Cyllid Cymru, Twf Swyddi Cymru, ein rhaglenni prentisiaethau a nifer fawr o rai eraill.

I can look around my own constituency and try to imagine what it would look like without the European-funded-and-supported Church Village bypass; without the Ilan Rhydyfelin flood defence scheme, which has prevented the community there from being flooded on probably three occasions in the last couple of years; or Pontypridd without its recent pedestrianisation and the beautifully restored Pontypridd lido in Ynysangharad Park—to mention but a few; and, for the future, no metro. Because, if we leave the European Union, I do not believe we will ever see, in south-east Wales or indeed in north Wales, the sort of transformational economic and social projects of the type we so desperately need and are pursuing.

Gallaf edrych o amgylch fy etholaeth fy hun a cheisio dychmygu sut y byddai'n edrych heb ffordd osgoi Pentre'r Eglwys, a gyllidwyd ac a gefnogwyd gan Ewrop; heb gynllun amddiffyn rhag llifogydd Ilan Rhydyfelin, sydd wedi diogelu'r gymuned yno rhag llifogydd ar dri achlysur yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf; neu Bontypridd heb y parth cerddwyr a grëwyd yn ddiweddar a phwll nofio Pontypridd sydd wedi'i adnewyddu'n hyfryd ym Mharc Ynysangharad—i enwi ond ychydig; ac yn y dyfodol, dim metro. Oherwydd, os ydym yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, nid wyf yn credu y gwelwn byth yn ne-ddwyrain Cymru neu'n wir yn y gogledd y math o brosiectau economaidd a chymdeithasol gweddnewidiol rydym eu hangen mor daer ac sy'n cael eu rhoi ar waith gennym.

But, it is also not just about money. There are far greater reasons, which take us back to the founding principles and reasons for the creation of the European partnership—reasons that resonate with me, personally. My father was a refugee from Ukraine after the war—a country that lost 12 million lives in that terrible war. My father's village became part of the front line in the war three times. Had my father not been given refuge here, he would almost certainly have been deported alongside most of the rest of my family to the labour camps of Siberia. The country has recently had a revolution to enable it to become part of the European project and join the many other countries that were also once part of the Stalinist dictatorship. We sometimes forget that being part of Europe is about economic stability and prosperity certainly, but it is also about the development of democracy and peace. It is a recognition in our global community that no country can survive as an island, and that our best hope for peace and prosperity is working together in co-operation and with common objectives. There is much change I would like to see in Europe. I want to see a more social Europe, decent wages, jobs, health, education and a shared responsibility for our environment. We can only achieve this by being part of Europe and not sitting on the sidelines, letting other countries set the agenda and the rules that we will then have no say over.

Ond mae'n ymwneud â mwy nag arian hefyd. Mae yna resymau llawer mwy, sy'n mynd â ni'n ôl at yr egwyddorion a'r rhesymau sylfaenol dros greu partneriaeth Ewropeaidd—rhesymau sy'n golygu llawer i mi, yn bersonol. Roedd fy nhad yn ffoadur o Ukrain ar ôl y rhyfel—gwlad a gollodd 12 miliwn o fywydau yn y rhyfel erchyll hwnnw. Daeth pentref fy nhad yn rhan o'r rheng flaen yn y rhyfel dair gwaith. Pe na bai fy nhad wedi cael lloches yma, byddai bron yn sicr o fod wedi'i alltudio gyda'r rhan fwyaf o weddill fy nheulu i wersylloedd llafur Siberia. Yn ddiweddar, bu chwyldro yn y wlad i'w galluogi i ddod yn rhan o'r prosiect Ewropeaidd ac i ymuno â'r nifer o wledydd eraill a oedd hefyd unwaith yn rhan o'r unbennaeth Stalinaidd. Rydym weithiau'n anghofio bod bod yn rhan o Ewrop yn ymwneud â sefydlogrwydd economaidd a ffyniant, yn sicr, ond mae hefyd yn ymwneud â datblygiad democratiaeth a heddwch. Mae'n gydnabyddiaeth yn ein cymuned fyd-eang na all unrhyw wlad oroesi fel ynys, ac mai ein gobaith gorau am heddwch a ffyniant yw gweithio gyda'n gilydd mewn cydweithrediad a chydag amcanion cyffredin. Mae llawer o newid yr hoffwn ei weld yn Ewrop. Rwyf am weld Ewrop sy'n fwy cymdeithasol, cyflogau gweddus, swyddi, iechyd, addysg a rhannu cyfrifoldeb dros ein hamgylchedd. Ni allwn ond cyflawni hyn drwy fod yn rhan o Ewrop ac nid drwy eistedd ar y cyrion a gadael i wledydd eraill osod yr agenda a'r rheolau na fydd gennym unrhyw lais ynddynt wedyn.

Through the Committee of the Regions, having worked alongside those from other countries who pulled down an iron curtain to become part of Europe, and having seen how, through the European Union, they have begun to transform their societies, I reject the backward-looking arguments put forward by those who would, by leaving Europe, sever the ties and relationships that have taken generations to develop, and will create a new political, social and cultural iron curtain in Europe—only this time, the iron curtain would be around Britain and would be of our own making.

Drwy Bwyllgor y Rhanbarthau, ar ôl gweithio ochr yn ochr â'r rhai o wledydd eraill a dynnodd y llen haearn i lawr i ddod yn rhan o Ewrop, ac ar ôl gweld sut y maent, drwy'r Undeb Ewropeaidd, wedi dechrau gweddnewid eu cymdeithasau, rwy'n gwrthod y dadleuon sy'n edrych tuag yn ôl, dadleuon a gyflwynwyd gan y rhai a fuasai, drwy adael Ewrop, yn torri'r cysylltiadau a'r berthynas rhwng gwledydd sydd wedi cymryd cenedlaethau i ddatblygu, a bydd yn creu llen haearn gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol newydd yn Ewrop—ond y tro hwn, byddai'r llen haearn o gwmpas Prydain a ni ein hunain fuasai wedi'i greu.

*Daeth y Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) i'r Gadair.*

*The Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) took the Chair.*

15:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.

15:06

## David Melding [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer, and can I welcome this debate and the report of the National Assembly for Wales's representatives on the EU Committee of the Regions? I would like to remind the Assembly that it was in March 2014 that the Constitutional and Legislative Affairs Committee published its report on Wales's role in the EU decision-making process. In that report, we made 13 recommendations, most of them, of course, for the Welsh Government. However, one of the recommendations that we did make related to the Committee of the Regions and its representatives. We thought, perhaps, that the work wasn't highlighted enough in the actual Assembly. The evidence we took was that there was some excellent work going on—highly innovative work, actually, we heard in the evidence, that was taking place—but we were not getting the full benefit of that in terms of hearing it in our deliberations. We did recommend that a written statement be laid before the Assembly, but I do think that a report and a debate is an even better idea, and perhaps it's a chance also for the Assembly to annually discuss other matters relating to the European Union. Of course, I say that without prejudice as to what is going to happen in the referendum. But, should our membership continue, then I think this type of liaison is very important and we should make the most of our representation on the Committee of the Regions.

Diolch i chi, Lywydd, ac a gaf fi groesawu'r ddadl hon ac adroddiad cynrychiolwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Bwyllgor Rhanbarthau'r UE? Hoffwn atgoffa'r Cynulliad mai ym mis Mawrth 2014 y cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei adroddiad ar rôl Cymru ym mhroses yr UE o wneud penderfyniadau. Yn yr adroddiad hwnnw, gwnaethom 13 o argymhellion, y rhan fwyaf ohonynt, wrth gwrs, ar gyfer Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd un o'r argymhellion a wnaethom yn ymwneud â Phwyllgor y Rhanbarthau a'i gynrychiolwyr. Credem efallai nad oedd y gwaith yn cael digon o sylw yn y Cynulliad mewn gwirionedd. Roedd y dystiolaeth a gymerwyd gennym yn dangos bod peth gwaith rhagorol yn mynd rhagddo—clywsom yn y dystiolaeth fod gwaith hynod o arloesol yn digwydd, mewn gwirionedd—ond nid oeddem yn cael y budd llawn ohono o ran ei glywed yn ein trafodaethau. Fe wnaethom argymell y dylid gosod datganiad ysgrifenedig gerbron y Cynulliad, ond rwy'n credu bod adroddiad a dadl yn syniad hyd yn oed yn well, ac efallai ei fod yn gyfle hefyd i'r Cynulliad drafod materion eraill sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd yn flynyddol. Wrth gwrs, rwy'n dweud hynny heb geisio dylanwadu ar yr hyn sy'n mynd i ddigwydd yn y refferendwm. Ond os yw ein haelodaeth yn parhau, yna rwy'n meddwl bod y math hwn o gyswllt yn bwysig iawn a dylem fanteisio i'r eithaf ar ein cynrychiolaeth ar Bwyllgor y Rhanbarthau.

It has, indeed, provided a very effective platform. We did find that, since its establishment under the Maastricht treaty, we have seen growth in the influence of the European Parliament. This, to some extent, has overshadowed the Committee of the Regions. But, where it has taken on specific pieces of work, such as the future of minority languages in the community, for instance, we are in a position to do some really important work to help in the examination of those important matters. There is, I think, a niche for the Committee of the Regions because the role of sub-state institutions and Governments within the EU is one that is going to have growing emphasis. We sometimes think that devolution in the United Kingdom is very much a process that just affects us, but it is actually part of a trend in world governance. You've seen it around Europe, with France and Italy moving to much more decentralised constitutions. So, putting resources into the work of the Committee of the Regions, we think, is valuable—and also to connect that, perhaps, to the work that is going on in the European Parliament. Liaising with our MEPs is another important way of raising important issues.

Yn wir, mae wedi darparu llwyfan effeithiol iawn. Ers ei sefydlu o dan gytuniad Maastricht, gwelsom dwf yn nylanwad y Senedd Ewropeaidd. I ryw raddau, mae hyn wedi bwrw Pwyllgor y Rhanbarthau i'r cysgodion. Ond pan fo wedi ymgymryd â gwaith penodol, megis dyfodol ieithoedd lleiafrifol yn y gymuned, er enghraifft, rydym mewn sefyllfa i wneud gwaith pwysig iawn i helpu i archwilio'r materion pwysig hynny. Rwy'n meddwl bod yna le arbennig i Bwyllgor y Rhanbarthau gan fod rôl sefydliadau a Llywodraethau is-wladwriaethol yn yr UE yn un sy'n mynd i gael pwyslais cynyddol. Weithiau credwn yn gryf fod datganoli yn y Deyrnas Unedig yn broses sydd ond yn effeithio arnom ni, ond mewn gwirionedd mae'n rhan o duedd lywodraethu fyd-eang. Rydych wedi'i weld o amgylch Ewrop, gyda Ffrainc a'r Eidal yn symud tuag at gyfansoddiadau llawer mwy datganoledig. Felly, credwn fod rhoi adnoddau tuag at waith y Pwyllgor y Rhanbarthau yn werthfawr—a chysylltu hynny hefyd, efallai, â'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn Senedd Ewrop. Mae cysylltu â'n ASEau yn ffordd bwysig arall o dynnu sylw at faterion pwysig.

Can I take this opportunity to inform the Assembly of the other work that the Constitutional and Legislative Affairs Committee has undertaken on European issues? We're about to issue a very short report on the EU reform agenda in the context of the EU referendum. We started this in the autumn. We went out to Brussels and we discussed with officials the likely lines of the renegotiation that would take place, and I have to say that the evidence we received was quite prescient. There's a very close comparison, I think, to be made between that evidence and what's actually occurred in terms of what the UK Government has now negotiated. We think it's very important that the Welsh dimension in all this is not forgotten, so we will be issuing a short report on that.

A gaf fi fachu ar y cyfle i hysbysu'r Cynulliad am y gwaith arall y mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi'i gyflawni ar faterion Ewropeaidd? Rydym ar fin cyhoeddi adroddiad byr iawn ar agenda diwygio'r UE yng nghyd-destun refferendwm yr UE. Dechreuasom ar y gwaith yn yr hydref. Aethom i Frwsel i drafod gyda swyddogion beth fyddai elfennau tebygol yr aildrafodaethau a fyddai'n cael eu cynnal, ac mae'n rhaid i mi ddweud bod y dystiolaeth a gawsom yn eithaf proffwydol. Mae cymhariaeth agos iawn i'w wneud, rwy'n meddwl, rhwng y dystiolaeth honno a'r hyn sydd wedi digwydd mewn gwirionedd o ran beth y mae Llywodraeth y DU bellach wedi'i drafod. Credwn ei bod yn bwysig iawn nad yw'r dimensiwn Cymreig yn hyn oll yn mynd yn angof, felly byddwn yn cyhoeddi adroddiad byr ar hynny.

I've already referred to the important report, I think, that we made on Wales's role in EU decision making. Our other activities have concerned the role of sub-member states in EU governance. We have written letters to the EU presidency and Commission emphasising the importance of this work. We also responded to the UK Government's consultation on subsidiarity in the context of the balance of competences review that was undertaken.

Rwyf eisoes wedi cyfeirio at yr adroddiad pwysig a wnaethom, rwy'n meddwl, ar rôl Cymru ym mhroses yr UE o wneud penderfyniadau. Mae ein gweithgareddau eraill wedi ymwneud â rôl is-aelod-wladwriaethau ym mhroses lywodraethu'r UE. Rydym wedi ysgrifennu llythyrau at lywydd yr UE a'r Comisiwn yn ategu pwysigrwydd y gwaith hwn. Rydym hefyd wedi ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar sybsidiaredd yng nghyd-destun yr adolygiad a gynhaliwyd o'r cydbwysedd cymwyseddau.

As a committee, we have the prime responsibility for subsidiarity and its monitoring. We've looked at a whole range of issues, from proposals for European regulation on genetically modified organisms to proposals to ban the use of drift nets in EU waters, public procurement, tobacco products and a range of other things. Finally, I've taken part in the EC-UK forum, meeting other chairs of similar committees in Westminster, Scotland and Northern Ireland.

Fel pwyllgor, ni sy'n ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb dros sybsidiaredd a thros ei fonitro. Rydym wedi edrych ar amrywiaeth eang o faterion, o gynigion ar gyfer rheoliadau Ewropeaidd ar organeddau a addaswyd yn enetig i gynigion i wahardd y defnydd o rwydi drifft yn nyfroedd yr UE, caffael cyhoeddus, cynhyrchion tybaco ac amrywiaeth o bethau eraill. Yn olaf, cymerais ran yn fforwm EC-UK, yn cyfarfod â chadeiryddion pwyllgorau eraill tebyg yn San Steffan, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

So, I think this is a very important occasion and I do hope that, if we remain a member of the European Union, we will see this embedded as an annual debate in the Assembly. Thank you.

Felly, rwy'n credu bod hwn yn achlysur pwysig iawn ac rwy'n gobeithio, os ydym yn parhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, y byddwn yn gweld hon yn gwreiddio'n ddadl flynyddol yn y Cynulliad. Diolch.

15:12

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n bleser cymryd rhan yn y ddadl gyntaf erioed ar adroddiad o'r math yma, fel y cyfeiriodd fy nghyfaill Mick Antoniw, ac, yn arbennig, cael dilyn y Dirprwy Lywydd sydd wedi cymryd rhan, fel chithau, Fonesig Lywydd, yn amlwg, yng ngweithgareddau'r Undeb Ewropeaidd ac yn enwedig y dimensiwn rhanbarthol.

It's a pleasure to participate in the first-ever debate on a report of this kind, as my colleague Mick Antoniw mentioned. It's particularly gratifying to follow the Deputy Presiding Officer who, like you, Dame Presiding Officer, has participated in the activities of the European Union and particularly in the regional dimension of those activities.

Un o'r pethau sydd yn fy mhoeni i o weld sut y mae'r drafodaeth gyhoeddus ar berthynas Cymru â'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn datblygu yw nid yw llawer o'r gwaith gwerthfawr sy'n digwydd yn barod yn cael y sylw dyladwy, ac y mae'r dadleuon yma yn troi o gwmpas rhyw ffeithiau honedig a rhyw ddyfodol niwlog nad ydym yn ymwybodol o beth allai fod yn digwydd. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i'w gwneud hi'n glir yn y fan yma fod pob un ohonom ni sydd wedi cael y cyfle i gynrychioli'r Cynulliad Cenedlaethol yn fy achos i, fel yn achos y Fonesig Lywydd a'r Dirprwy, fel rhan o CALRE, y gynhadledd sefydlog o gadeiryddion neu lywyddion aelodau o'r Undeb Ewropeaidd sydd hefyd yn rhanbarthau deddfwriaethol—. Roedd hynny'n glir iawn fod yn rhaid iddyn nhw fod yn rhanbarthau deddfwriaethol er mwyn gallu cael eu cynrychioli ar CALRE. Mi oeddem ni fel Cymru a'r Cynulliad hwn yno o'r dechrau, oherwydd bod gennym ni bwerau deddfwriaethol, er eu bod nhw'n bwerau cyfyngedig. Ond yn y gwaith yna, rydym yn gwneud hynny nid jest i gynrychioli ein sefydliadau, ond hefyd i gyfrannu tuag at ddealltwriaeth Ewropeaidd.

One of the things that concerns me in seeing how the public debate on Wales and the UK's relationship with the European Union is developing is that much of the valuable work that already happens isn't being given due attention, and these arguments circulate around some claims and some ambiguous future that we can't be sure of. So, I think it is very important that we make it clear here that each and every one of us who has had the opportunity to represent the National Assembly in my case, as in the case of Dame Presiding Officer and the Deputy Presiding Officer, as part of CALRE, which is a stable conference of chairs and presiding officers within the European Union members that are also legislative regions—. That was very clear that they did have to be legislative regions in order to be represented on CALRE. We, as Wales and a National Assembly, were there from the very outset, because we did have legislative powers even though they were limited at that time. But, in that work, we are not only representing our institutions, but contributing towards an understanding of Europe.

Mi garwn i gyfeirio nid yn unig at waith fy nghyd-Aelod yn y grŵp yma, Rhodri Glyn Thomas, ond hefyd fy nghyd-ddinesydd yn sir Conwy, y Cynghorydd Ronnie Hughes, dirprwy arweinydd cyngor Conwy, sydd yn wir, fel y Cynghorydd Bob Bright, Casnewydd, wedi cyfrannu yn arbennig at y gweithgaredd ymarferol sydd wedi cael ei wneud. Rwy'n croesawu, fel y dywedais i hefyd, gyfraniadau Rhodri Glyn oherwydd y mae o wedi dewis arbenigo ar faterion o bwys mawr i Gymru, yn enwedig y farn ddiweddar a gynhyrchwyd ganddo fo, ac a basiwyd yn adroddiad y cyfarfod llawn ym mis Hydref 2015—y ddogfen ar ddatblygu potensial ynni'r môr. Mae'r gwaith yma yn sicr yn waith a fydd yn parhau, a dyma'r cwestiwn rwyf eisiau ei godi heddiw inni feddwl amdano fo. Ni fedraf i ddychmygu na fyddai'r Cynulliad Cenedlaethol hwn a Llywodraeth Cymru am barhau i gyfrannu i ddatblygiad Ewrop fel cyfandir ac fel grym gwleidyddol, beth bynnag fydd penderfyniad y refferendwm sydd i ddod. Hyd yn oed pe na fyddai'r Deyrnas Unedig yn ffurfiol yn aelod-wladwriaeth yn yr Undeb Ewropeaidd, fedraf i ddim gredu na fyddai hi yn briodol i Gymru beidio â chael perthynas uniongyrchol, neu gyda rhanbarthau deddfwriaethol tebyg, neu i gael perthynas â rhyw gorff arall y byddai modd ei greu, er mwyn sicrhau ein bod fel rhanbarthau deddfwriaethol yn gallu cwrdd â'n gilydd a trafod—yn enwedig gan fod y materion sydd o bwys i ni, y materion amgylcheddol yn arbennig, yn faterion sydd yn cael eu trin ar lefel cyfandirol.

I would like to refer not only to the work of my fellow Member in this group, Rhodri Glyn Thomas, but also to the work of my fellow resident of Conwy, Ronnie Hughes, the deputy leader of Conwy council, who, like Councillor Bob Bright from Newport, has contributed a great deal to the activities in this area. I welcome, as I said, the contribution of Rhodri Glyn because he has chosen to specialise in issues of great importance to Wales, particularly his recent opinion, which was passed in the plenary of October 2015, and was a document on the development of ocean energy. This work is certainly work that should continue, and this is the question that I want to raise today for us to think about. I can't imagine that this National Assembly and the Welsh Government wouldn't wish to continue to contribute to the development of Europe as a continent and as a political force, whatever the decision taken through the referendum. Even if the UK were not formally a member state of the European Union, I cannot believe that it wouldn't be appropriate for Wales to have a direct relationship, or with similar legislative regions, or to have a relationship with some other body that could be created, in order to ensure that we as legislative regions could meet and discuss—particularly because the issues that are so important to us, environmental issues in particular, are issues that are dealt with on a continental level.

Ac nid materion deddfwriaethol yn unig: mae un mater bach arall sydd wedi rhoi pleser mawr i mi ers blynyddoedd bellach—mi ddylwn i ddatgan diddordeb, mae'n siŵr, gan fy mod i'n briod â pherson sydd yn un o'r bobl sy'n gwneud y gwaith cyfieithu achredig yn y sefydliadau Ewropeaidd—a hynny yw'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith swyddogol yn sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, yng Nghyngor y Gweinidogion, fel y gwnaeth Alun Ffred Jones pan oedd o yn Weinidog, ac, wrth gwrs, mae Rhodri Glyn Thomas wedi cael y fraint o gyflwyno ei farnau yntau yn y Gymraeg. Mae'n rhyfedd imi feddwl, fel Aelod o Senedd y Deyrnas Unedig, na chaf i siarad Cymraeg yn y fan honno, ond y caiff y sawl sy'n cynrychioli Cymru yn sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd arfer yr iaith yn barchus.

And it's not just legislative issues: there's one other area that has given me great pleasure for a number of years now—and I should declare an interest, I'm sure, as I am married to one of the people who carries out the accredited interpretation work in the European institutions—and that, of course, is the use of the Welsh language as an official language within the European institutions, in the Council of Ministers, as Alun Ffred Jones will attest to, when he was Minister, and Rhodri Glyn Thomas, of course, has had the privilege of moving his opinions through the medium of Welsh in the Committee of the Regions. It is surprising to me, as one who is a Member of the Parliament in Westminster, that I can't speak Welsh there, but I can do so properly within the European institutions.

15:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I was rather forward just now. I should have called William Powell to move the amendment, which is tabled in the name of Aled Roberts. So, William, would you move that now, please.

Symudais ymlaen braidd yn rhy gyflym yn awr. Dylwn fod wedi galw ar William Powell i gynnig y gwelliant, a gyflwynir yn enw Aled Roberts. Felly, William, a wnewch chi ei gynnig yn awr, os gwelwch yn dda.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu y dylai Cymru a'r DU barhau i fod yn aelodau o'r UE ac yn penderfynu meithrin deialog gadarnach gyda sefydliadau Ewropeaidd fel Pwyllgor y Rhanbarthau.*

*Believes that Wales and the UK should remain members of the EU and resolves to build a stronger dialogue with European institutions such as the Committee of the Regions.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

15:17 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Dŵr o dan y bont, Lywydd.

Water under the bridge, Presiding Officer.

I'm very pleased indeed to be taking part in this debate today. Not least because it serves as a timely reminder of the reasons why, as our amendment states very clearly, we on these benches believe that Wales, as a nation within the member state of the UK, should remain within a reformed European Union. In doing so, we should resolve to build a stronger dialogue with the European institutions, such as the Committee of the Regions. I also welcome the fact that a report of this kind has been brought forward for the first time before the Assembly following recommendations, as the Chair has already outlined, from the Constitutional and Legislative Affairs Committee that the Committee of the Regions should periodically report back on its work to the Assembly in this way.

Rwy'n falch iawn o gymryd rhan yn y ddadl hon heddiw. Nid yn lleiaf oherwydd ei bod yn ein hatgoffa'n amserol o'r rhesymau pam rydym ni ar y meinciau hyn, fel y dywed ein gwelliant yn glir iawn, yn credu y dylai Cymru, fel cenedl o fewn aelod-wladwriaeth y DU, aros yn rhan o Undeb Ewropeaidd ddiwygiedig. Wrth wneud hynny, dylem addunedu i ddatblygu deialog gryfach gyda'r sefydliadau Ewropeaidd, megis Pwyllgor y Rhanbarthau. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith fod adroddiad o'r math hwn wedi cael ei gyflwyno am y tro cyntaf gerbron y Cynulliad yn dilyn argymhellion, fel y mae'r Cadeirydd eisoes wedi amlinellu, gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylai Pwyllgor y Rhanbarthau o dro i dro adrodd yn ôl ar ei waith i'r Cynulliad yn y ffordd hon.

I speak today as a member of the all-party European movement, which was founded by Sir Winston Churchill back in 1948 to foster Great Britain's membership of the wider European family, and that's a movement, of course, of which the late Charles Kennedy was president until his untimely death.

Siaradaf heddiw fel aelod o'r mudiad hollbleidiol Ewropeaidd, a sefydlwyd gan Syr Winston Churchill yn ôl yn 1948 i feithrin aelodaeth Prydain Fawr o deulu ehangach Ewrop, y mudiad, wrth gwrs, yr oedd y diweddar Charles Kennedy yn llywydd arno hyd ei farwolaeth annhymig.

The report before us today clearly outlines the effectiveness of our Committee of the Regions members and the impact that their work has had in the heart of Europe. The report rightly highlights the work that's been undertaken by Rhodri Glyn Thomas, who I understand is in Brussels today taking forward some of these important matters. I was particularly struck by the relevance and timeliness of his work on the European Investment Bank, and the way in which the European Investment Bank has been engaging recently with the Welsh Government has clearly drawn strength from this work. The potential for the EIB to be a source of innovative funding is enormous and there is certainly more that Wales can do in this regard. Objective commentators confirm the significance of Rhodri Glyn's contribution in that area. I also hope that the next Welsh Government will continue to build on these excellent foundations.

Roedd yr adroddiad ger ein bron heddiw yn amlinellu'n glir pa mor effeithiol yw aelodau ein Pwyllgor Rhanbarthau a'r effaith y mae eu gwaith wedi'i chael yng nghalon Ewrop. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw priodol at y gwaith a wnaed gan Rhodri Glyn Thomas, y deallaf ei fod ym Mrwsel heddiw yn bwrw ymlaen â rhai o'r materion pwysig hyn. Cefais fy nharo'n arbennig gan berthnasedd ac amseroldeb ei waith ar Fanc Buddsoddi Ewrop, ac mae'n amlwg fod y gwaith hwn wedi cryfhau'r ffordd y mae Banc Buddsoddi Ewrop wedi bod yn ymwneud yn ddiweddar â Llywodraeth Cymru. Mae potensial enfawr gan Fanc Buddsoddi Ewrop i fod yn ffynhonnell o arian arloesi ac yn sicr mae mwy y gall Cymru ei wneud yn hyn o beth. Mae sylwebwyr gwrthrychol yn cadarnhau arwyddocâd cyfraniad Rhodri Glyn yn y maes hwnnw. Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn parhau i adeiladu ar y sylfeini rhagorol hyn.

Recommendations 2 and 3 of the report on the need for a review of priorities and revised EU strategy will be important if this is to enhance and strengthen further the Welsh voice in Brussels. It is also right that the report highlights the work undertaken by Mick Antoniw, who introduced this debate so eloquently earlier on. His lead with regard to the Ukrainian crisis is of great importance. His own personal insight and understanding of the country enabled Mick to play a valuable role as the official spokesman on the Ukrainian crisis within the progressive alliance of European socialists, the PES group, visiting Ukraine at the height of the violence and, indeed, being in personally quite dangerous circumstances on occasions at that time, contributing to a number of debates and attending a number of high-level meetings, including with the Deputy Prime Minister of the Ukrainian Government back in 2014. I was also struck by the moving words that he used earlier on and, indeed, by the interview that he's given today on his own heritage in the 'Western Mail'. This is all very relevant to today's topic.

Bydd argymhellion 2 a 3 o'r adroddiad ar yr angen am adolygiad o flaenoriaethau a strategaeth UE ddiwygiedig yn bwysig os yw hyn i wella ac atgyfnerthu llais Cymru ymhellach ym Mrwsel. Mae hefyd yn briodol fod yr adroddiad yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan Mick Antoniw, a gyflwynodd y ddadl hon mor huawdl yn gynharach. Mae ei arweiniad mewn perthynas â'r argyfwng yn Ukrain yn bwysig iawn. Mae ei wybodaeth bersonol am y wlad a'i ddealltwriaeth ohoni'n galluogi Mick i chwarae rôl werthfawr fel llefarydd swyddogol ar argyfwng Ukrain o fewn y gynghrair flaengar o sosialwyr Ewropeaidd, y grŵp PES, gan ymweld ag Ukrain yn anterth y trais ac yn wir, wynebu amgylchiadau personol go beryglus ar adegau y pryd hwnnw, a chyfrannu at nifer o ddadleuon a mynychu nifer o gyfarfodydd lefel uchel, gan gynnwys gyda Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth Ukrain yn ôl yn 2014. Cefais fy nharo hefyd gan y geiriau dirdynnol a ddefnyddiodd yn gynharach ac yn wir, gan y cyfweliad a roddodd heddiw ar ei etifeddiaeth yn y 'Western Mail'. Mae hyn i gyd yn berthnasol iawn i bwnc y ddadl heddiw.

To me, it is exactly this kind of diplomacy that shows European partnership and negotiation at its very best. Without our membership of the European Union, without having representatives within institutions such as the Committee of the Regions, surely our right and ability to influence, as Lord Dafydd Elis-Thomas has outlined, would be radically diminished. Recommendation 1 of this report suggests that the Assembly adopt a resolution before the end of this Assembly stating its support for continued membership of the EU, and I'm fully supportive of that objective.

I mi, dyma'n union y math o ddiplomyddiaeth sy'n dangos partneriaeth a chyd-drafod Ewropeaidd ar ei orau. Heb ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, heb gael cynrychiolwyr mewn sefydliadau megis Pwyllgor y Rhanbarthau, mae'n sicr y byddai ein hawl a'n gallu i ddylanwadu, fel y dywedodd yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, yn llawer iawn llai. Mae argymhelliad 1 o'r adroddiad hwn yn awgrymu y dylai'r Cynulliad fabwysiadu penderfyniad cyn diwedd y Cynulliad hwn yn datgan ei gefnogaeth i barhâd aelodaeth y DU o'r UE, ac rwy'n gwbl gefnogol i'r amcan hwnnw.

There are, of course, the economic reasons why we should stay: the support of structural funds to our post-industrial communities, support for our farming industry and the wider rural economy. But, as I've said before, to me, the European Union is about far more than money, and far more, even, than jobs. With all its imperfections, it still embodies some of the very best aspects of humankind working together. It is by no means perfect, but it is a work in progress and it is, as such, the envy of the world in terms of cradling democracy. Together, the EU has created the world's largest free trade area, delivered peace, and continues to give the British people the opportunity to live, work and travel freely. Britain is better off in Europe, and Europe is better off with Britain, with Wales, at its heart. The work of the Committee of the Regions gives valuable testimony to that fact.

Wrth gwrs, mae yna resymau economaidd pam y dylem aros: cymorth arian strwythurol i'n cymunedau ôl-ddiwydiannol, cymorth i'n diwydiant ffermio a'r economi wledig ehangach. Ond fel y dywedais o'r blaen, i mi, mae'r Undeb Ewropeaidd yn ymwneud â llawer mwy nag arian, a llawer mwy, hyd yn oed, na swyddi. Gyda'i holl ddiffygion, mae'n dal i ymgorffori rhai o agweddau gorau'r ddynoliaeth yn gweithio gyda'i gilydd. Mae'n bell o fod yn berffaith, ond gwaith ar y gweill ydyw ac fel y cyfryw, mae'n destun eiddigedd y byd o ran magu democratiaethau. Gyda'i gilydd, mae'r UE wedi creu ardal masnach rydd fwyaf y byd, wedi sicrhau heddwch, ac yn parhau i roi cyfle i bobl Prydain fyw, gweithio a theithio'n rhydd. Mae Prydain yn well yn Ewrop, ac mae Ewrop yn well gyda Phrydain, gyda Chymru, yn ganolog iddi. Mae gwaith Pwyllgor y Rhanbarthau yn rhoi tystiolaeth werthfawr o'r ffaith honno.

15:22

## Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

Like others, I very much welcome the report that we are discussing this afternoon, and welcome the way in which it was introduced by my colleague, Mick Antoniw. I think it does outline very well not only the work that has been done by the four members that we have on the Committee of the Regions, but how they are able to influence and shape decisions and policies in Brussels and in the European Union's institutions.

Fel eraill, croesawaf yn fawr yr adroddiad rydym yn ei drafod y prynhawn yma, ac rwy'n croesawu'r ffordd y cafodd ei gyflwyno gan fy nghyd-Aelod, Mick Antoniw. Rwy'n credu ei fod yn amlinellu'n dda iawn, nid yn unig y gwaith a wnaed gan y pedwar aelod sydd gennym ar Bwyllgor y Rhanbarthau, ond sut y gallant ddylanwadu ar, a llywio penderfyniadau a pholisïau ym Mrwsel ac yn sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd.

I think it also demonstrates the importance of our vision of a Europe of peoples, a Europe of the people, and not simply a Europe of states, where people are represented, where assemblies and local authorities are represented, and where they're able to shape the policies and the work of the Commission and the decisions of both the Parliament and the Council. This must be an absolute affront to some of the right-wing isolationists we've heard in the media in recent days. It's little wonder that they want to pull out of an institution that pays such attention to what the people say and what the people think.

I hope that the debate that we will have this afternoon will enrich the overall debate that we have on the European Union, in the same way as our membership of the European Union enriches our own debates on our own domestic issues. I know that the work that has been carried out by both Mick and Rhodri on structural funds, on social policy, the environment, energy and rural development has had a real influence over the years, and I know that Mick's replacement, Joyce Watson, will also continue doing that work. We know that there has been a real influence on the budget process and on public employment as a consequence of the work that has been carried out here, and we also know that the impact on the work of the Commission has been similar to the impact on the work of the Welsh Government, and the European Investment Bank and the work that they have done in order to shape the way in which we can invest in our economy is testament to the work of the Committee of the Regions.

I support fully, like others in this debate, the recommendations that are made in this report. I agree strongly that the voice of this National Assembly should be heard in this national debate. It is important that this Assembly speaks and leads the debate in Wales to speak loudly about what the European Union means to us, both as individuals and political parties, but, perhaps more importantly, as people who live in this country and people who are bringing up our families in this country: that the European Union is an essential part of our identity and, as Europeans, we wish to remain a part of this union, but also that we want the institutions in Wales to broaden, deepen and widen their relationship and their work with the institutions of the European Union. It's right and proper that we review Welsh engagement with the European Union on a regular basis. I hope that we'll be able to do that.

I also want to look at and review the strategy of the Welsh Government and its engagement with the institutions of the European Union. This is a matter that's been reflected in the work of the Constitutional and Legislative Affairs Committee. I hope that the new Assembly will take on this work but, certainly, we must as a National Assembly take a view on the way in which the Welsh Government engages with the institutions of the European Union, and also a real focus on the direction and objectives of that work.

Rwy'n credu ei fod hefyd yn dangos pa mor bwysig yw ein gweledigaeth o Ewrop o bobloedd, Ewrop y bobl, ac nid Ewrop o wladwriaethau'n unig, lle y caiff pobl eu cynrychioli, lle y caiff gwasanaethau ac awdurdodau lleol eu cynrychioli, a lle y gallant lunio polisïau a gwaith y Comisiwn a phenderfyniadau'r Senedd a'r Cyngor. Rhaid bod hyn yn tramgwyddo rhai o'r ymynyswyr adain dde a glywsom ar y cyfryngau yn y dyddiau diwethaf. Nid yw'n fawr o syndod eu bod am dynnu allan o sefydliad sy'n rhoi sylw o'r fath i'r hyn y mae pobl yn ei ddweud a beth y mae pobl yn ei feddwl.

Rwy'n gobeithio y bydd y ddadl a gawn y prynhawn yma'n cyfoethogi'r ddadl gyffredinol a gawn ar yr Undeb Ewropeaidd, yn yr un modd ag y mae ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn cyfoethogi ein dadleuon ein hunain ar ein materion domestig ein hunain. Gwn fod y gwaith a wnaed gan Mick a Rhodri ar gronfeydd strwythurol, ar bolisi cymdeithasol, yr amgylchedd, ynni a datblygu gwledig wedi cael dylanwad go iawn dros y blynyddoedd, a gwn y bydd Joyce Watson, a ddaeth yn lle Mick, yn parhau i wneud y gwaith hefyd. Gwyddom y bu dylanwad go iawn ar broses y gyllideb ac ar gyflogaeth gyhoeddus o ganlyniad i'r gwaith a wnaed yma, a gwyddom hefyd fod yr effaith ar waith y Comisiwn wedi bod yn debyg i'r effaith ar waith Llywodraeth Cymru a Banc Buddsoddi Ewrop ac mae'r gwaith y maent wedi'i wneud ar lunio'r ffordd y gallwn fuddsoddi yn ein heconomi yn dyst i waith Pwyllgor y Rhanbarthau.

Fel eraill yn y ddadl hon, rwy'n cefnogi'n llawn yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn. Cytunaf yn gryf y dylai llais y Cynulliad Cenedlaethol hwn gael ei glywed yn y ddadl genedlaethol. Mae'n bwysig bod y Cynulliad yn lleisio ac yn arwain y ddadl yng Nghymru er mwyn siarad yn uchel am yr hyn mae'r Undeb Ewropeaidd yn ei olygu i ni, fel unigolion a phleidiau gwleidyddol, ond yn bwysicach efallai, fel pobl sy'n byw yn y wlad hon a phobl sy'n magu ein teuluoedd yn y wlad hon: fod yr Undeb Ewropeaidd yn rhan hanfodol o'n hunaniaeth ac fel Ewropeaid, ein bod eisiau parhau i fod yn rhan o'r undeb, ond hefyd ein bod am i'r sefydliadau yng Nghymru ymestyn, dyfnhau ac ehangu eu perthynas a'u gwaith gyda sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n iawn ac yn briodol ein bod yn adolygu ymgysylltiad Cymru â'r Undeb Ewropeaidd yn rheolaidd. Rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu gwneud hynny.

Rwyf hefyd am archwilio ac adolygu strategaeth Llywodraeth Cymru a'i hymgysylltiad â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd. Mae hwn yn fater a adlewyrchwyd yng ngwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Rwy'n gobeithio y bydd y Cynulliad newydd yn ymgymryd â'r gwaith, ond yn sicr, mae'n rhaid i ni fel Cynulliad Cenedlaethol gael safbwynt ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, a ffocws go iawn hefyd ar gyfeiriad ac amcanion y gwaith hwnnw.

I hope that we will, over the coming weeks and months, be able to contribute to an enriched debate on our membership of the European Union. I don't think the people of this country will thank us for a debate that essentially ends up being a discussion between two accountants over the price of a balance sheet. I hope that our membership of the European Union is a part of the sort of country that we want this country to become in the future. I hope it speaks to us of who we are, our cultural values, our civilisation and it speaks to us of the sort of Wales we want to create. We cannot simply create the sort of Wales that I want to see in the future by putting up barriers and borders, by pointing fingers at people and making policy on the basis of difference.

Rwy'n gobeithio y byddwn, dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, yn gallu cyfrannu at ddadl gyfoethog ar ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Nid wyf yn credu y bydd pobl y wlad hon yn diolch i ni am ddadl sydd yn y bôn yn ddim mwy na thrafodaeth rhwng dau gyfrifydd ynglŷn â phris mantolen. Rwy'n gobeithio bod ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn rhan o'r math o wlad rydym eisiau i'r wlad hon fod yn y dyfodol. Rwy'n gobeithio ei fod yn ymwneud â phwy ydym, ein gwerthoedd diwylliannol, ein gwareiddiad ac yn ymwneud â'r math o Gymru rydym am ei chreu. Ni allwn greu'r math o Gymru rwyf am ei gweld yn y dyfodol drwy godi rhwystrau a chreu ffiniau, drwy bwyntio bysedd at bobl a llunio polisi ar sail gwahaniaeth.

I hope that as we debate and discuss the issues around the Committee of the Regions this afternoon we can also begin to debate seriously the relationship that we have with the European Union, and I hope, as a consequence of that debate, we will recognise the importance of the European Union to us, not simply in financial or transactional terms, but to who we are as a community, as a country, as a people and as a nation.

Wrth i ni ddadlau a thrafod y materion sy'n ymwneud â Phwyllgor y Rhanbarthau y prynhawn yma, rwy'n gobeithio y gallwn hefyd ddechrau trafod o ddifrif y berthynas sydd gennym gyda'r Undeb Ewropeaidd, ac rwy'n gobeithio, o ganlyniad i'r ddadl honno, y byddwn yn cydnabod pwysigrwydd yr Undeb Ewropeaidd i ni, nid yn unig yn ariannol neu'n weithrediadol, ond i'r hyn ydym fel cymuned, fel gwlad, fel pobl ac fel cenedl.

15:26

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n falch iawn o gael cyfrannu at y drafodaeth. Mae Rhodri Glyn Thomas, fel rydych wedi ei glywed, ym Mrwsel heddiw yn adrodd yn ôl i un o bwyllgorau'r undeb, a dyma'i gyfarfod olaf cyn i'w aelodaeth o Bwyllgor y Rhanbarthau ddod i ben, ac mae o'n estyn ei ymddiheuriadau, wrth gwrs.

I'm very pleased to be able to contribute to the debate. Rhodri Glyn Thomas, as you have heard, is in Brussels today, reporting to one of the union's committees, and this will be his final meeting before his membership of the Committee of the Regions ends, and he extends his apologies for absence from here.

A gaf i ategu hefyd bopeth a ddywedodd Mick Antoniw, sydd wedi gosod y drafodaeth yma mewn cyd-destun eang y mae angen i ni ei ystyried yn llawn wrth i ni wynebu yr hyn sydd o'n blaenau ni, sef y drafodaeth yma ar ddyfodol Prydain o fewn yr Undeb Ewropeaidd? Mae hon yn flwyddyn arwyddocaol iawn, iawn, ac mae Plaid Cymru o'r farn, er mwyn sicrhau llwyddiant economaidd hirdymor Cymru a rhesymau eraill, ei bod yn bwysig ein bod ni'n parhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

May I endorse everything that Mick Antoniw said, who has set this debate in a very broad context, which we need to consider in full as we face what's ahead of us as regards the future of Britain within the European Union? This is an extremely significant year, and Plaid Cymru is of the view that, in order to secure the long-term economic interests of Wales and for other reasons, we must continue to be a member of the European Union.

Mae Pwyllgor y Rhanbarthau yn gyfrwng pwysig er mwyn sicrhau bod aelodau rhanbarthol yr Undeb Ewropeaidd yn cael eu dweud, fel ffordd o ddylanwadu hefyd ar bolisïau yr undeb ei hun, ac, fel rydym ni wedi ei glywed, mae Rhodri Glyn Thomas wedi arwain ar yr amgylchedd ac ynni, ac mae o wedi siarad yn rheolaidd yn ystod sesiynau cyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ar nifer o bynciau, gan gynnwys cyllid a chyllideb yr undeb, agenda diwygio'r undeb, cyflogaeth, a'r argyfwng ffoaduriaid, gan roi safbwynt Cymreig i'r materion hyn.

The Committee of the Regions in an important medium in order to ensure that the regional members of the European Union have their say, and also as a very important form of influencing the European Union itself, and, as we've heard, Rhodri Glyn Thomas has led on the environment and on energy and he's spoken regularly during the plenary meetings of the Committee of the Regions on a number of subjects, including the union's budget, the reform agenda for the union, employment, and the refugee crisis, adding a Welsh perspective to these issues.

Mae'n amlwg hefyd o'r adroddiad bod gan y ddirprwyaeth o Gymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau berthynas waith ardderchog ag Aelodau Cymru o Senedd Ewrop, ac maen nhw yn cyfarfod yn rheolaidd ac mewn digwyddiadau yr Undeb Ewropeaidd yn ôl yng Nghymru, ac mae Aelodau Cymru o Senedd Ewrop wedi cael gwahoddiad i gyfrannu eu barn wrth baratoi safbwyntiau drafft Pwyllgor y Rhanbarthau. Felly, mae hynny i gyd yn arwydd bod gennym ni agwedd aeddfed tuag at y sefydliadau o fewn yr undeb.

It's also obvious from the report that the delegation from Wales on the Committee of the Regions has an excellent working relationship with the MEPs from Wales, and they meet regularly at European Union events back here in Wales, and the MEPs have had an opportunity to contribute their views in preparing the draft opinions for the Committee of the Regions. So, this all demonstrates that we have a mature attitude towards the institutions within the union.

Mae Dafydd Elis-Thomas wedi cyfeirio at y defnydd o'r Gymraeg ym Mrwsel, ac mae Rhodri Glyn wedi cyflwyno pob un o'r pedwar o'i adroddiadau yn y Gymraeg yn y cyfarfodydd llawn, gan wneud defnydd o gytundeb a lofnodwyd rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Phwyllgor y Rhanbarthau ym mis Tachwedd 2008, sy'n galluogi'r Gymraeg i gael ei defnyddio yn swyddogol.

Dafydd Elis-Thomas has alluded to the use of the Welsh language in Brussels, and Rhodri Glyn has presented each of his four opinions through the medium of Welsh in the plenary meetings, making use of an agreement that was signed between the UK Government and the Committee of the Regions in November 2008, which enables the Welsh language to be used officially.

Mae 'rapporteuriaeth', rwy'n credu, yw'r term, ac mae'n un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddylanwadu ar bolisi'r Undeb Ewropeaidd. Mae Rhodri Glyn wedi siarad yn gyson ar egni morol, ac fel y dywedwyd eisoes, mae o wedi cyflwyno barn ar ddatblygu potensial ynni'r môr ym mis Mawrth 2015, ac fe fabwysiadwyd yr adroddiad hwnnw yn y cyfarfod llawn ym mis Hydref 2015. Ac mae ynni morol, wrth gwrs, yn berthnasol iawn, iawn i ni yma yng Nghymru. Mae o'n cynnig potensial enfawr i fynd i'r afael â heriau mawr ynglŷn â newid hinsawdd, a hefyd datblygu ynni adnewyddadwy sydd â photensial i greu nifer o swyddi a thwf economaidd.

The term is 'rapporteurism', I believe, and it's one of the most effective means of influencing the policy of the European Union. Rhodri Glyn has spoken regularly on marine energy, and, as has already been said, he presented an opinion on developing the potential of marine energy in March 2015, and that report was adopted at the plenary in October 2015. Ocean energy, of course, is extremely relevant to us here in Wales. It does offer huge potential to address the great challenges as regards climate change and to develop renewable energy, which has the potential of creating a number of jobs and economic growth.

Mae yna amcangyfrif y gall hyd at 0.5 miliwn o swyddi gael eu creu o fewn yr Undeb Ewropeaidd erbyn 2050, a 26,000 yn uniongyrchol erbyn 2020, o ddatblygu yr adnodd hwn yn y dyfodol. Ac mae nifer o brosiectau, wrth gwrs, ar hyd a lled yr Undeb Ewropeaidd, sydd yn chwilio am ffyrdd o fanteisio ac i ddatblygu yr ynni yma. Mae yna bedwar o'r rheini yng Nghymru, ac mae gan yr Alban, wrth gwrs, gynllun tyrbin grid cymunedol—pŵer morol cyntaf y Deyrnas Unedig—yn Shetland.

There is an estimate that up to 0.5 million jobs could be created within the European Union by 2050, and 26,000 directly by 2020, by developing this resource in the future. A number of projects throughout the European Union are seeking means of taking advantage of and developing this form of energy. There are four of those in Wales, and Scotland, of course, has a community grid turbine scheme, the first ocean energy scheme of the UK, and that's located in Shetland.

Wrth gwrs, nid yw'r aelod-wladwriaethau bob amser mor frwd ag y mae'r rhanbarthau wedi bod o ran datblygu ynni adnewyddol, ond mae Pwyllgor y Rhanbarthau wedi galluogi i'r farn yma, ac i'r sylwadau yma, gael eu clywed yn eang. Felly, mae Pwyllgor y Rhanbarthau yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod llais y rhanbarthau yn cael ei glywed ar faterion pwysig fel hyn, yn enwedig pan fod yna, efallai, wahaniaeth rhwng yr aelod-wladwriaeth a'r rhanbarthau.

Of course, the member states aren't always as enthusiastic as the regions have been in developing renewable energy, but the Committee of Regions has enabled this opinion and these views to be heard widely. So, the Committee of Regions is vital to ensure that the voice of the regions can be heard on such important issues, particularly when there might be a difference between the member state and the regions.

Felly, a gaf fi groesawu'r adroddiad, a'r cyfle yma i gyfrannu at drafodaeth adeiladol, sydd yn ceisio gosod Cymru yng nghyd-destun Ewrop, fel y dylai hi fod? Ac rydym ni hefyd yn gefnogol i welliant y Rhyddfrydwyr, wrth gwrs, am y rhesymau sydd wedi cael eu datgan eisoes. Diolch yn fawr.

So, may I welcome the report and this opportunity to contribute to a constructive debate that attempts to place Wales in the European context, as it should be? We are also supportive of the Liberals' amendment for the reasons that already been stated. Thank you.

15:32

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Mick Antoniw to reply to the debate.

Galwaf ar Mick Antoniw i ymateb i'r ddadl.

15:32

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I first of all thank everyone who has participated, because I think this has been a debate of quality, because it has been about vision, rather than, as one speaker referred to, about a balance sheet? Can I particularly, though, thank David Melding for his comments? Because the Constitutional Affairs Committee has been the most consistent and the most thorough body that has been evaluating some of the developments within Europe, and also our role with it, our engagement, and the constitutional nature of those particular ties. And, in fact, it's partly a product of that that we are at the stage today where we are, for the first time ever since the Assembly was established, talking about the role of some of these important functions.

A gaf fi yn gyntaf oll ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan, gan y credaf fod hon wedi bod yn ddadl o ansawdd, am ei bod wedi ymwneud â gweledigaeth, yn hytrach na mantolen, fel y soniodd un siaradwr? A gaf fi, yn arbennig, fodd bynnag, ddiolch i David Melding am ei sylwadau, gan mai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yw'r corff a fu'n gwerthuso rhai o'r datblygiadau yn Ewrop yn y modd mwyaf cyson a thrwyadl, ac a fu'n gwerthuso hefyd ein rôl mewn perthynas ag Ewrop, ein hymwneud â hi, a natur gyfansoddiadol y cysylltiadau penodol hynny? Ac yn wir, mae'r ffaith ein bod ar y cam rydym wedi'i gyrraedd heddiw yn deillio o hynny'n rhannol, a ninnau am y tro cyntaf erioed ers sefydlu'r Cynulliad, yn siarad am rôl rhai o'r swyddogaethau pwysig hyn.

We are under no illusions about what the actual role of the Committee of the Regions is, and where it stands in relation to—whether it be the European Parliament or other institutions. But what it is is a voice for Wales in Europe. It is an opportunity to access the Commission. It is an opportunity to engage with many other parts of Europe with very similar issues, very similar problems, where we can share what we are doing, and they can. It's that ability to engage that is so fundamentally important. And it is that engagement that has been so important to the development, for example, of the newer democracies within Europe, which have many challenges ahead of them, but which have transformed from being countries of dictatorship into, now, countries of democracy.

Rydym yn gwbl sicr ynglŷn â'r hyn yw rôl wirioneddol Pwyllgor y Rhanbarthau, a lle y mae'n sefyll mewn perthynas â—boed yn Senedd Ewrop neu sefydliadau eraill. Ond yr hyn ydyw yw llais i Gymru yn Ewrop. Mae'n gyfle i ddod i gysylltiad â'r Comisiwn. Mae'n gyfle i ymgysylltu â llawer o rannau eraill o Ewrop gyda materion tebyg iawn, problemau tebyg iawn, lle y gallwn rannu'r hyn rydym yn ei wneud, a gallant hwythau hefyd. Y gallu hwnnw i ymgysylltu sydd mor hanfodol bwysig. A'r ymgysylltiad hwn sydd wedi bod mor bwysig i ddatblygiad y democratiaethau mwy newydd yn Ewrop, er enghraifft, sy'n wynebu llawer o heriau, ond sydd wedi trawsnewid o fod yn wledydd unbenaethol i fod yn wledydd democrataidd bellach.

Dafydd Elis, you raised a series of comments about the importance of partnership—and I think all the speakers did, from William Powell to Alun Davies and Alun Ffred—that we actually see this being about what our role is, what Wales's role is, as part of a larger world, and how we engage. And I think, for everyone, we can talk, we can say, 'Well, of course, yes, Wales is £836 million per annum better off being in Europe', and so on. But there is a far bigger vision to that, and that is going to be the future.

Dafydd Elis, fe nodoch gyfres o sylwadau am bwysigrwydd partneriaeth—ac rwy'n meddwl bod y siaradwyr i gyd, o William Powell i Alun Davies ac Alun Ffred wedi gwneud hynny—ein bod mewn gwirionedd yn gweld bod hyn yn ymwneud â beth yw ein rôl, rôl Cymru, yn rhan o fyd mwy o faint, a sut rydym yn ymgysylltu. Ac rwy'n meddwl, i bawb, gallwn siarad, gallwn ddweud, 'Wel, wrth gwrs, ydy, mae Cymru £836 miliwn y flwyddyn yn well ei byd o fod yn Ewrop', ac yn y blaen. Ond mae yna weledigaeth lawer mwy yn rhan o hynny, a dyna fydd y dyfodol.

This is about the future of Wales, the future of the United Kingdom and, in fact, the future of Europe, and the world, because what happens in different parts of Europe—we cannot avoid the consequences. Instability, tension and conflict that occur in one part of the world, or in one part of Europe, affect us. And we can either, as a country, be part of the coming together, to achieve solutions to build prosperity and peace, or we can hide, we can pull back, we can look backwards to the pre-1948 period, with all the consequences. So, when I said—this wasn't just a sort of soundbite—when I said I thought there was a danger of the creation of a new iron curtain within Europe, there is. We are, in the whole debate, talking about potentially re-establishing a new iron curtain that divides us from other people with whom we have common interests and objectives.

Mae hyn yn ymwneud â dyfodol Cymru, dyfodol y Deyrnas Unedig ac yn wir, dyfodol Ewrop, a'r byd, oherwydd mae'r hyn sy'n digwydd mewn gwahanol rannau o Ewrop—ni allwn osgoi'r canlyniadau. Mae ansefydlogrwydd, tensiwn a gwrthdaro sy'n digwydd mewn un rhan o'r byd, neu mewn un rhan o Ewrop, yn effeithio arnom ni. Ac fel gwlad, gallwn naill ai fod yn rhan o'r dod at ein gilydd i gyflawni atebion i adeiladu ffyniant a heddwch, neu gallwn guddio, gallwn dynnu'n ôl, gallwn edrych yn ôl at y cyfnod cyn 1948, gyda'r holl ganlyniadau. Felly, pan ddywedais—nid rhyw fath o sylw bachog yn unig oedd hyn, pan ddywedais fy mod yn meddwl bod perygl o greu llen haearn newydd yn Ewrop—mae yna berygl. Drwy'r ddadl, rydym yn siarad am y posibilrwydd o ailsefydlu llen haearn newydd sy'n ein gwahanu rhag pobl eraill sydd â'r un buddiannau a'r un amcanion â ni.

I thank everyone for their contributions. I certainly hope that any future debate over these issues is going to have the same quality and the same vision and the same forward look for our younger generation and for all the people of Wales and the UK that I think, so far, have been sadly missing from much of the discussion. I think our involvement in the Committee of the Regions and the involvement of the four Members—Christine Chapman was before me. I think it is right to recognise the considerable work that has gone on and how we now need to actually tie that within our structure and our engagement within Europe for the future, which I hope will very much continue for many years to come. Thank you.

Diolch i bawb am eu cyfraniadau. Rwy'n sicr yn gobeithio y bydd unrhyw drafodaeth yn y dyfodol ynglŷn â'r materion hyn o'r un ansawdd a'r un weledigaeth a'r un edrych tua'r dyfodol ar gyfer ein cenhedlaeth iau ac ar gyfer holl bobl Cymru a'r DU, nodwedd y credaf ei bod ar goll o lawer o'r drafodaeth hyd yn hyn, yn anffodus. Rwy'n credu bod ein hymwneud ym Mhwyllgor y Rhanbarthau a chyfranogiad y pedwar Aelod—roedd Christine Chapman o fy mlaen i. Rwy'n credu ei bod yn iawn cydnabod y gwaith sylweddol sydd wedi digwydd a sut y mae angen i ni glymu hynny mewn gwirionedd o fewn ein strwythur a'n hymgysylltiad yn Ewrop ar gyfer y dyfodol, ac rwy'n gobeithio'n fawr iawn y bydd yn parhau am flynyddoedd lawer i ddod. Diolch.

15:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? [Objection]. Object. I move all voting then until voting time.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad]. Gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## 6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Democratiaeth Leol

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones, a gwelliannau 2 a 3 yn enw Aled Roberts. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael ei ddad-ddethol.*

## 6. Welsh Conservatives Debate: Local Democracy

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones, and amendments 2 and 3 in the name of Aled Roberts. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected.*

15:36

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to item 6, which is the Welsh Conservatives debate. I call on Janet Finch-Saunders to move the motion.

Cynnig NDM5976 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd rhoi'r grym i unigolion a grwpiau cymunedol fynd i'r afael â materion o bwys lleol;

2. Yn croesawu'r ymgyrch i sbarduno refferendwm ar gyfer cyflwyno maer a etholir yn uniongyrchol i Gaerdydd ac yn nodi'r rhan y gallai rôl debyg ei chwarae ledled Cymru o ran gwella democratiaeth, atebolrwydd a'r broses o wneud penderfyniadau ar y lefel leol;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i feithrin cenedl o ddinasyddion gweithgar a gwybodus sy'n cymryd rhan ac yn ymgysylltu drwy:

(a) cyflwyno refferenda ar gynlluniau arfaethedig i uno cynghorau a chynyddu treth gyngor awdurdodau lleol uwchlaw trothwy penodol fel bod unigolion yn cael mwy o lais mewn perthynas â sut y caiff penderfyniadau eu gwneud yn eu hardal;

(b) cyflwyno pwerau newydd i wella'r broses o gynnwys unigolion mewn penderfyniadau lleol allweddol, fel yr hawl gymunedol i wneud cais a'r hawl gymunedol i herio, oll o dan agenda hawliau cymunedol; ac

(c) gostwng y trothwy ar gyfer deiseb i sbarduno refferendwm ar feiri a etholir yn uniongyrchol mewn ardal.

*Cynigiwyd y cynnig.*

Symudwn yn awr at eitem 6, sef dadl y Ceidwadwyr Cymreig. Galwaf ar Janet Finch-Saunders i gynnig y cynnig.

Motion NDM5976 Paul Davies

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Recognises the importance of empowering individuals and community groups to tackle issues of local significance;

2. Welcomes the campaign to trigger a referendum for the introduction of a directly elected mayor for Cardiff and notes the role that a similar position could play across Wales in enhancing local democracy, accountability and decision-making;

3. Calls on the Welsh Government to take steps to foster a nation of active, informed, involved and engaged citizens by:

(a) introducing referenda on proposed council mergers and local authority council tax rises above a certain threshold so that individuals have more of a say over decision-making in their area;

(b) introducing new powers to better involve individuals in key local resolutions, such as the community right to bid and the community right to challenge, all under a community rights agenda; and

(c) lowering the petition threshold to trigger a referendum on directly elected mayors in a locality.

*Motion moved.*

15:36

### Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I move the motion today in the name of Paul Davies AM.

Diolch i chi, Lywydd. Cynigiaf y cynnig heddiw yn enw Paul Davies AC.

I am very pleased indeed to lead on this debate, one which is largely centred on the true meaning of devolution, and by that I mean the devolution of real power to our communities and our local people. Welsh Conservatives have frequently called on Ministers to show more confidence, more respect and to give more empowerment to our communities and their people across Wales—and no more so than in my own constituency of Aberconwy. We are blessed with many hard-working and earnest individuals and groups, working day in, day out in all weathers just to make that bit of difference to their local community. It may be on a particular project to raise money for a charity or it may be that this army of volunteers is working within one of our many charitable bodies to support them in their aims, again, to make a difference to the lives of those living within our communities. These people are the unsung heroes in our towns and villages and, quite often, go without any recognition whatsoever. Well, today, Members, I would like to put on record my heartfelt thanks to all those community champions across Wales beavering away quietly and without making any fuss but making such a difference. I salute them all.

Rwy'n falch iawn i arwain ar y ddadl hon, un sy'n canolbwyntio i raddau helaeth ar wir ystyr datganoli, ac wrth hynny, yr hyn rwy'n ei olygu yw datganoli grym gwirioneddol i'n cymunedau a'n pobl leol. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi galw'n fynych ar Weinidogion i ddangos mwy o hyder, mwy o barch ac i roi mwy o rym i'n cymunedau a'u pobl ar draws Cymru—ac yn unman yn fwy felly nag yn fy etholaeth i, sef Aberconwy. Cawsom ein bendithio gan lawer o unigolion a grwpiau gweithgar a chydwybodol, sy'n gweithio ddydd ar ôl dydd ym mhob tywydd i wneud tamaid bach o wahaniaeth i'w cymuned leol. Gall fod ar brosiect arbennig i godi arian ar gyfer elusen neu mae'n bosibl fod y fyddin hon o wirfoddolwyr yn gweithio yn un o'n cyrff elusennol niferus i'w cynorthwyo i gyrraedd eu nodau, unwaith eto, i wneud gwahaniaeth i fywydau'r rhai sy'n byw yn ein cymunedau. Y bobl hyn yw arwyr di-glod ein trefi a'n pentrefi ac yn aml iawn, ni chânt unrhyw gydnabyddiaeth o gwbl. Wel, heddiw, Aelodau, hoffwn gofnodi fy niolch o galon i'r holl hyrwyddwyr cymunedol hynny ar draws Cymru sy'n bwrw iddi'n dawel ac yn ddiffwdan ond gan wneud cymaint o wahaniaeth. Rwy'n talu gwrogaeth iddynt oll.

Welsh Conservatives believe strongly in our communities and in these community heroes. But, we believe too that they should be empowered to rise up to any challenge that presents and that might come their way. It might be to mount a campaign to save a local pub, a community library or a public building. Often, these include the need to raise money in the long term, but setting up a constitution to include specifically named positions such as chairman and treasurer, and holding AGMs et cetera, can appear very daunting at first. We believe that this is when such professional support and guidance is required and we also feel that there should be such support and guidance. Bodies such as the Wales Council for Voluntary Action and local authorities could be further empowered to help these groups. The biggest obstacle for us, however, in Wales, of course, is not always knowing who owns a particular building of interest—hence why it is vital that there is a local and national register of community assets and that it is published locally for all to see and available online.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu'n gryf yn ein cymunedau ac yn yr arwyr cymunedol hyn. Ond credwn hefyd y dylent gael eu grymuso i ymateb i unrhyw her sy'n codi ac a allai eu hwynebu. Gallai fod yn drefnu ymgyrch i achub tafarn leol, llyfrgell gymunedol neu adeilad cyhoeddus. Yn aml, mae'r rhain yn cynnwys yr angen i godi arian yn y tymor hir, ond gall sefydlu cyfansoddiad i gynnwys swyddi a enwir yn benodol fel cadeirydd a thrysorydd, a chynnal cyfarfodydd cyffredinol blynyddol ac yn y blaen ymddangos yn anodd iawn ar y dechrau. Credwn mai dyma'r adeg y bydd angen cefnogaeth ac arweiniad proffesiynol o'r fath ac rydym hefyd yn teimlo y dylid cael cefnogaeth ac arweiniad o'r fath. Gallai cyrff fel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac awdurdodau lleol gael eu grymuso ymhellach i helpu'r grwpiau hyn. Ond y rhwystr mwyaf i ni yng Nghymru, wrth gwrs, yw nad ydym bob amser yn gwybod pwy sy'n berchen ar adeilad penodol sydd o ddiddordeb—a dyna pam ei bod yn hanfodol cael cofrestr leol a chenedlaethol o asedau cymunedol a'i bod yn cael ei chyhoeddi'n lleol i bawb ei gweld ac ar gael ar-lein.

Under Labour here, we have seen a blatant refusal to give new powers to our people to challenge and shape decision making with local authorities still not currently obliged to undertake community asset transfers. Instead, we have seen a top-down centralised agenda. The forcing through of the forthcoming local authority merger plans without community engagement, the yearly exorbitant council tax rises and the dictatorial nature of the Well-being and Future Generations Act 2015 are all fine examples of this. I, and my colleagues, have regularly called in the strongest terms for this Government to adopt many of the articles in the Localism Act 2011, an Act that is already making a significant and positive impact on the lives of numerous community groups and individuals across the country.

O dan y Blaid Lafur yma, rydym wedi gweld gwrthodiad haerllug i roi pwerau newydd i'n pobl i herio a llunio'r broses o wneud penderfyniadau, gydag awdurdodau lleol yn dal heb fod o dan rwymedigaeth ar hyn o bryd i drosglwyddo asedau cymunedol. Yn lle hynny, rydym wedi gweld agenda ganolog o'r brig i lawr. Mae'r modd y mae cynlluniau uno awdurdodau lleol sydd ar ddod wedi'u gwthio drwodd heb ymgysylltiad cymunedol, y cynnydd afresymol blynyddol yn y dreth gyngor a natur unbenaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i gyd yn enghreifftiau gwych o hyn. Rwyf i a fy nghyd-Aelodau wedi galw'n gyson yn y modd cryfaf ar y Llywodraeth hon i fabwysiadu nifer o'r erthyglau yn Neddf Lleoliaeth 2011, Deddf sydd eisoes yn effeithio'n sylweddol a chadarnhaol ar fywydau nifer o grwpiau cymunedol ac unigolion ar draws y wlad.

The Welsh Government's own consultation on protection of community assets received a hugely favourable response for precisely what we are calling for today. But, this has gone largely ignored by this Government, with 59 per cent of respondents to the national survey for Wales disagreeing or strongly disagreeing that they felt they could influence local decisions. Since its introduction in 2012, uptake of the community right to bid has increased year on year. More than 2,600 much-loved assets are now listed across the country, including nearly 900 pubs, and 150 assets have been transferred into community ownership.

Cafodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ei hun ar ddiogelu asedau cymunedol ymateb hynod o ffafriol i'r union beth rydym yn galw amdano heddiw. Ond anwybyddwyd hyn i raddau helaeth gan y Llywodraeth hon, gyda 59 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg cenedlaethol ar gyfer Cymru yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf eu bod yn teimlo y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau lleol. Ers ei gyflwyno yn 2012, mae'r nifer sy'n manteisio ar hawl y gymuned i wneud cais wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae mwy na 2,600 o asedau sy'n annwyl i bobl yn awr wedi'u rhestru ledled y wlad, gan gynnwys bron i 900 o dafarnau, a throsglwyddwyd 150 o asedau i berchnogaeth y gymuned.

Recently, when I raised the question here, the Minister was unable to respond and when asked how many such community assets have been retained by local individuals or groups, she said that she would come back to me. I am still waiting for that answer.

Yn ddiweddar, pan ofynnais y cwestiwn yma, nid oedd y Gweinidog yn gallu ymateb a phan ofynnwyd faint o asedau cymunedol o'r fath a gadwyd gan unigolion neu grwpiau lleol, dywedodd y byddai'n dod yn ôl ataf. Rwy'n dal i aros am yr ateb hwnnw.

Following her consultation on assets of community value, the Minister for Communities and Tackling Poverty said:

Yn dilyn ei hymgynghoriad ar asedau o werth cymunedol, dywedodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi:

'Legislative action on community assets will need to be considered by a future Government.'

'Bydd angen i Lywodraeth yn y dyfodol ystyried deddfu mewn perthynas ag asedau cymunedol.'

Well, I tell you, a Welsh Conservative Government will devolve significant powers more locally, as we believe our local and community champions know best. Whilst communities in England were given the right to bid four years ago, here in Wales, we are still waiting for the commencement of Chapter 3, Part 5 of the Localism Act 2011. This is despite the Minister's own admission, in her December statement, that there is

Wel, rwy'n dweud wrthych, bydd Llywodraeth Geidwadol yng Nghymru yn datganoli pwerau sylweddol yn fwy lleol, gan ein bod yn credu mai ein hyrwyddwyr lleol a chymunedol sy'n gwybod orau. Er bod yr hawl i wneud cais wedi'i rhoi i gymunedau yn Lloegr bedair blynedd yn ôl, yma yng Nghymru, rydym yn dal i aros am gychwyn Pennod 3, Rhan 5 o Ddeddf Lleoliaeth 2011. Mae hyn er gwaethaf cyfaddefiad y Gweinidog ei hun, yn ei datganiad ym mis Rhagfyr, fod

'popular support for establishing a Welsh scheme'

'llawer iawn o gefnogaeth i sefydlu cynllun ar gyfer Cymru'

along the lines of the right to bid—totally ignored.

yn debyg i'r hawl i wneud cais—anwybyddwyd hyn yn llwyr.

Labour has made it increasingly difficult for local people to have a say over issues that impact upon the delivery of vital local services. The campaign to trigger a local referendum for a directly elected mayor in Cardiff is very welcome news, and much supported here on these benches. The 10 per cent support required, however, to trigger such a referendum, is double the 5 per cent required in England.

Mae Llafur wedi'i gwneud yn gynyddol anodd i bobl leol leisio barn ar faterion sy'n effeithio ar y ddarpariaeth o wasanaethau lleol hanfodol. Mae'r ymgyrch i sbarduno refferendwm lleol ar faer a etholir yn uniongyrchol i Gaerdydd yn newyddion da iawn, ac mae llawer o gefnogaeth i hynny yma ar y meinciau hyn. Fodd bynnag, mae'r gefnogaeth o 10 y cant sy'n ofynnol i sbarduno refferendwm o'r fath yn ddwbl y 5 y cant sy'n ofynnol yn Lloegr.

Why such a negative approach by this Government, one could ask? Is the Welsh Labour Government frightened by the possibility that the community and the people of Cardiff know better what they want, and how they want to get it? We are calling now today for there to be a level playing field with other parts of the United Kingdom when calling for a directly elected mayor referendum.

Gallai rhywun ofyn pam fod agwedd y Llywodraeth hon mor negyddol? A yw Llywodraeth Lafur Cymru yn ofni'r posibilrwydd fod cymuned a phobl Caerdydd yn gwybod yn well beth y maent ei eisiau, a sut y maent am ei gael? Rydym yn galw heddiw am fod yn gyfartal â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig wrth alw am refferendwm ar feiri a etholir yn uniongyrchol.

The Welsh Conservatives in Government would also introduce new community powers to challenge the way local authorities carry out their duties under a community rights agenda, allowing local people the ability to influence planning within their communities, to run services themselves, and the ability to make an offer or a bid for a building or area that they feel is a local amenity and is of significant interest. We do not shy away either from calling for referenda in the event of excessive council tax rises, providing the opportunity to veto or approve such important decisions.

Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig mewn Llywodraeth hefyd yn cyflwyno pwerau cymunedol newydd i herio'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan agenda hawliau cymunedol, gan ganiatáu i bobl leol gael y gallu i ddylanwadu ar gynllunio yn eu cymunedau, i redeg gwasanaethau eu hunain, a'r gallu i wneud cynnig neu gais am adeilad neu leoliad y maent yn teimlo ei fod yn amwynder lleol ac sydd o ddiddordeb arwyddocaol. Nid ydym ychwaith yn celu rhag galw am refferenda mewn achosion o godiadau gormodol yn y dreth gyngor, gan roi cyfle i wahardd neu gymeradwyo penderfyniadau pwysig o'r fath.

Of course, Welsh Conservatives also believe very strongly that our residents and council tax payers have the right—and know best how they want this money to be spent, and also that, when given a consequential to freeze council tax, putting that cash back into their pockets is significantly better than seeing it frittered away here by Government departments on other initiatives without any practical or meaningful outcomes. Furthermore, many local authorities have moneys set aside for community engagement, yet how many of our constituents even know this?

Wrth gwrs, mae'r Ceidwadwyr Cymreig hefyd yn credu'n gryf iawn fod gan ein trigolion a thalwyr y dreth gyngor yr hawl—ac yn gwybod yn well na neb arall sut y maent am i'r arian hwn gael ei wario, a phan roddir swm canlyniadol i rewi'r dreth gyngor, mae rhoi'r arian hwnnw yn ôl yn eu pocedi gryn dipyn yn well na'i weld yn cael ei wastraffu yma gan adrannau Llywodraeth ar fentrau eraill heb unrhyw ganlyniadau ymarferol neu ystyrlon. Ar ben hynny, mae gan lawer o awdurdodau lleol arian a neilltuwyd ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, ac eto faint o'n hetholwyr sy'n gwybod hyn hyd yn oed?

Conservative-led Monmouthshire—leading the way, the authority—one of the very first authorities to hold very regular consultation events, allowing residents to have a say on how their money should be spent and on what. And whilst this idea is catching on elsewhere, other authorities forge ahead with their own plans to cut vital services when looking for efficiency savings.

Sir Fynwy dan arweiniad y Ceidwadwyr—yr awdurdod sy'n arwain y ffordd—un o'r awdurdodau cyntaf un i gynnal digwyddiadau ymgynghori rheolaidd iawn, gan alluogi preswylwyr i leisio barn ar sut y dylid gwario eu harian ac ar beth. Ac er bod y syniad yn dwyn ffrwyth mewn mannau eraill, mae awdurdodau eraill yn bwrw ymlaen gyda'u cynlluniau eu hunain i dorri gwasanaethau hanfodol wrth chwilio am arbedion effeithlonrwydd.

Conwy County Borough Council—very recently reducing bin collections to four-weekly. I thank, and I've worked with, my colleague Darren Millar on this, and our online petitions have drawn in much support from hundreds of constituents. Extending parking charges to all free car parks and popular tourism destinations and withdrawing the number 19 bus service—a vital lifeline to our more rural parts. All this without any consultation whatsoever with those it affects.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy—yn ddiweddar iawn yn lleihau casgliadau biniau i bob pedair wythnos. Rwy'n diolch i fy nghyd-Aelod Darren Millar y bûm yn gweithio gydag ef ar hyn, ac mae ein deisebau ar-lein wedi denu llawer o gefnogaeth gan gannoedd o etholwyr. Codi taliadau parcio ym mhob maes parcio am ddim a chyrchfannau twristiaeth poblogaidd a chael gwared ar wasanaeth bws rhif 19—gwasanaeth hanfodol i'n hardaloedd mwy gwledig. Mae hyn i gyd wedi digwydd heb unrhyw ymgynghori o gwbl â'r rhai y mae'n effeithio arnynt.

The proposals put today by the Welsh Conservatives will give back respect, trust and power to our communities and to our local people. I urge you all to support these aims.

Bydd y cynigion a gyflwynwyd heddiw gan y Ceidwadwyr Cymreig yn rhoi parch, ymddiriedaeth a grym yn ôl i'n cymunedau ac i'n pobl leol. Rwy'n eich annog i gyd i gefnogi'r amcanion hyn.

15:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the three amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. I call on Simon Thomas to move amendment 1, tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol. Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:*

*Delete points 2 and 3 and replace with:*

*Yn credu bod cynigion Plaid Cymru ar gyfer ymgysylltu lleol, a nodir yn y papur ar ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus, yn darparu sail gadarnhaol i gyrraedd y nod o rymuso unigolion yn y Cynulliad nesaf.*

*Believes that Plaid Cymru's proposals for local engagement, set out in the public services reform paper, provide a positive basis to achieve the aim of empowering individuals in the next Assembly.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

15:45

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer, and I move amendment 1. As we can tell from the amendment, we agree with the Conservatives on the first point of this motion and on very little else, certainly very little else that was spoken about by the Conservative spokesperson.

Diolch i chi, Lywydd, a chynigiaf welliant 1. Fel y gallwn ddweud o'r gwelliant, rydym yn cytuno â'r Ceidwadwyr ar bwynt cyntaf y cynnig hwn ac ar fawr ddim arall iawn, yn sicr ar fawr iawn arall y soniodd llefarydd y Ceidwadwyr amdano.

I think it's quite a surprising thing to talk about accountability in local government without recognising that the accountability of local government comes primarily from elections and that what we should be doing in strengthening accountability is strengthening the responsibility of local councillors to their wards by the introduction of the single transferable vote or a more fair voting system. We should be supporting it through the increase in representation of our councillors—more women, more young people, more people with disabilities being able to take part in council debates and stand for elections. That's the real issue here, not some narrow-minded approach to individual decision making by communities that the Conservative spokesperson set out. I'm afraid she did.

Rwy'n credu mai peth eithaf rhyfedd yw siarad am atebolrwydd mewn llywodraeth leol heb gydnabod bod atebolrwydd llywodraeth leol yn deillio'n bennaf o etholiadau ac mai'r hyn y dylem ei wneud o ran cryfhau atebolrwydd yw cryfhau cyfrifoldeb cynghorwyr lleol dros eu wardiau drwy gyflwyno'r bleidlais sengl drosglwyddadwy neu system bleidleisio fwy teg. Dylem ei gefnogi drwy'r cynnydd yng nghynrychiolaeth ein cynghorwyr—mwy o fenywod, mwy o bobl ifanc, mwy o bobl ag anableddau yn gallu cymryd rhan mewn trafodaethau cyngor a sefyll etholiadau. Dyna'r mater go iawn yma, nid rhyw ymagwedd gul tuag at wneud penderfyniadau unigol gan gymunedau fel y nododd llefarydd y Ceidwadwyr. Rwy'n ofni ei bod hi wedi gwneud hynny.

15:46

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member take an intervention?

A wnaiff yr Aelod dderbyn ymyriad?

15:46

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Oh, go on then.

O, o'r gorau.

15:46

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you saying, then, as a Member, that you don't agree with putting power back into the hands of our local communities and the people we serve?

A ydych yn dweud, felly, fel Aelod, nad ydych yn cytuno y dylid rhoi grym yn ôl yn nwylo ein cymunedau lleol a'r bobl rydym yn eu gwasanaethu?

15:46

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I'm not saying that. That's why I said that we agree with the first point of your motion, but I'm setting out, I think in our amendment, our alternative proposals. I'm saying that strength and responsibility and accountability really come from democratic elections and consultation after that, yes, but not, I'm afraid, consultation—for example, referenda on the individual proposals for mergers, which is actually just a figleaf for the embarrassment of your not having a national policy or national vision or any national idea of how local government should work in collaboration with national government or regional government in Wales. Local referenda are just a figleaf for an absence of a policy in that context.

Na, nid wyf yn dweud hynny. Dyna pam y dywedais ein bod yn cytuno â phwynt cyntaf eich cynnig, ond rwy'n nodi ein cynigion amgen, rwy'n meddwl, yn ein gwelliant. Rwy'n dweud bod cryfder a chyfrifoldeb ac atebolrwydd yn bendant yn deillio o etholiadau democrataidd ac ymgynghori ar ôl hynny, ydw, ond nid, rwy'n ofni, ymgynghori—er enghraifft, refferenda ar y cynigion unigol ar gyfer uno, sydd mewn gwirionedd yn ddim ond deilen ffigys dros eich embaras nad oes gennych bolisi cenedlaethol neu weledigaeth genedlaethol neu unrhyw syniad cenedlaethol o sut y dylai llywodraeth leol weithio ar y cyd â llywodraeth genedlaethol neu lywodraeth ranbarthol yng Nghymru. Nid yw refferenda lleol yn ddim ond deilen ffigys i guddio diffyg polisi yn y cyd-destun hwnnw.

I think it is also ironic that you've chosen to debate today elected mayors at the very time when your party's being ripped apart by an elected mayor taking on your Prime Minister and disagreeing with the Government proposals. Elected mayors are very often just an alternative source of power to challenge the other body that may actually be charged in a more widely representative role.

Rwy'n credu ei bod hefyd yn eironig eich bod wedi dewis trafod meiri etholedig heddiw ar yr union adeg pan fo'ch plaid yn cael ei rhwygo yn ei hanner gan faer etholedig yn herio eich Prif Weinidog ac yn anghytuno â chynigion y Llywodraeth. Yn aml iawn, nid yw meiri etholedig ond yn ffynhonnell amgen o rym i herio'r corff arall a allai fod â rôl ehangach yn gynrychiadol.

15:47

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv Fideo Video

15:47

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

From the leave campaign, I certainly will.

O'r ymgyrch dros adael, fe wnaf yn sicr.

Senedd.tv Fideo Video

15:47

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Yes, and a proud campaigner as well. What I'm a little confused about here is that your No. 2 on the south Wales regional list, Neil McEvoy, is fully supportive of the establishment of a directly elected mayor here in Cardiff, he has been at the launch of the campaign, and yet you're contradicting him. What is Plaid's position on this?

Ie, ac ymgyrchydd balch hefyd. Yr hyn rwy'n eithaf dryslyd yn ei gylch yma yw bod eich Rhif 2 ar restr ranbarthol de Cymru, Neil McEvoy, yn gwbl gefnogol i sefydlu maer a etholir yn uniongyrchol yma yng Nghaerdydd, mae wedi bod yn lansiad yr ymgyrch, ac eto rydych yn gwrthddweud yr hyn y mae ef yn ei ddweud. Beth yw safbwynt Plaid Cymru ar hyn?

Senedd.tv Fideo Video

15:47

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

I'm not contradicting Neil McEvoy at all. Plaid's position is very clear. If the people of Cardiff want to have an elected mayor, they can have a referendum and they can have an elected mayor. I have to tell Andrew R.T Davies that I'm a veteran of an elected mayor campaign. Ceredigion is the only part of Wales that's gone through this in the past under the current legislation, and Elin Jones and I are veterans of that. I couldn't say whether it was right or not that the people of Ceredigion rejected an elected mayor. All I remember is this: the number on the petition calling for the referendum was higher than the people who actually took part and voted for the mayor at the end of the day. So, sometimes, referenda and petitions for elected mayors are more about the lack of leadership in the local authority and the lack of leadership by the local, maybe, Labour Party than they are about the merits of elected mayors or not—[Interruption.] Well, Ceredigion wasn't led by Plaid Cymru, I can tell you, at that time. It was led by a bunch of conservative independents—let's put it that way.

Nid wyf yn gwrthddweud Neil McEvoy o gwbl. Mae safbwynt Plaid Cymru yn glir iawn. Os yw pobl Caerdydd am gael maer etholedig, gallant gael refferendwm a gallant gael maer etholedig. Mae'n rhaid i mi ddweud wrth Andrew R.T. Davies fy mod wedi hen arfer ymgyrchu dros feiri etholedig. Ceredigion yw'r unig ran o Gymru sydd wedi mynd drwy hyn yn y gorffennol o dan y ddeddfwriaeth bresennol, ac mae Elin Jones a minnau wedi hen arfer ymgyrchu dros hynny. Ni allwn ddweud a oedd yn gywir ai peidio fod pobl Ceredigion wedi gwrthod maer etholedig. Y cyfan rwy'n ei gofio yw hyn: roedd y nifer ar y ddeiseb yn galw am y refferendwm yn uwch na'r bobl a gymerodd ran mewn gwirionedd ac a bleidleisiodd dros y maer yn y pen draw. Felly, weithiau, mae refferenda a deisebau dros feiri etholedig yn ymwneud mwy â diffyg arweinyddiaeth yn yr awdurdod lleol a diffyg arweinyddiaeth gan y Blaid Lafur leol, efallai, nag y maent yn ymwneud â rhinweddau meiri etholedig neu fel arall—[Torri ar draws.] Wel, nid oedd Ceredigion dan arweiniad Plaid Cymru ar yr adeg honno, gallaf ddweud wrthych. Câi ei harwain gan griw o annibynwyr ceidwadol—gadewch i ni ei roi felly.

So, when we are looking at the future of local government, we have to have a coherent approach that is nationally available to all parts of Wales, not something that builds on the basis of one individual area of Wales saying, 'We can't collaborate with another area because we had a referendum on a turnout of 12 per cent', which was the Ceredigion turnout, for example. So, we have to be careful, I think, that we have to have a sense of national strategy, national purpose, national vision and, therefore, national delivery together with partners in local government. That's why our amendment refers very simply to our proposals for local government reform. You may not agree with them; I accept that. But there is an election coming in May when the people of Wales will decide the nature of local government in Wales because they will choose the Government that will deliver that. I think one thing we can agree on here—but I sadly regret the Conservative Party doesn't seem to agree on this—is that local government, following the establishment of national government in Wales, does need reform, does need reorganisation and does need to be relooked at. I am waiting still for the vision of the Conservative Party as regards to that.

Felly, pan edrychwn ar ddyfodol llywodraeth leol, mae'n rhaid i ni gael dull cydlynol sydd ar gael yn genedlaethol i bob rhan o Gymru, nid rhywbeth sy'n adeiladu ar sail un ardal unigol yng Nghymru yn dweud, 'Nid ydym yn gallu cydweithio ag ardal arall oherwydd cawsom refferendwm gyda 12 y cant o'r boblogaeth yn pleidleisio', sef y nifer a bleidleisiodd yng Ngheredigion, er enghraifft. Felly, mae'n rhaid i ni fod yn ofalus, rwy'n meddwl, fod yn rhaid i ni gael ymdeimlad o strategaeth genedlaethol, pwrpas cenedlaethol, gweledigaeth genedlaethol ac felly, cyflawniad cenedlaethol ynghyd â phartneriaid mewn llywodraeth leol. Dyna pam y mae ein gwelliant yn cyfeirio yn syml iawn at ein cynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol. Efallai nad ydych yn cytuno â hwy; rwy'n derbyn hynny. Ond mae yna etholiad yn dod ym mis Mai pan fydd pobl Cymru yn penderfynu ar natur llywodraeth leol yng Nghymru gan y byddant yn dewis y Llywodraeth a fydd yn cyflawni hynny. Rwy'n credu mai un peth y gallwn gytuno arno yn y fan hon—ond yn anffodus rwy'n difaru nad yw'r Blaid Geidwadol i'w gweld yn cytuno ar hyn—yw bod llywodraeth leol, yn dilyn sefydlu llywodraeth genedlaethol yng Nghymru, angen ei diwygio, angen ei had-drefnu ac angen ailedrych arni. Rwy'n dal i aros am weledigaeth y Blaid Geidwadol ar hynny.

15:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Peter Black to move amendments 2 and 3, tabled in the name of Aled Roberts. Peter Black

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Peter Black

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Dileu pwynt 2.*

*Delete point 2.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Dileu pwynt 3(a) a rhoi yn ei le:*

*Delete point 3(a) and insert:*

*cyflwyno pleidlais sengl drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod cynghorwyr yn fwy atebol i'w hetholwyr.*

*introducing STV for local government elections in order to ensure that councillors are more accountable to their constituents.*

*Cynigiwyd gwelliannau 2 a 3.*

*Amendments 2 and 3 moved.*

15:50

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Can I move amendments 2 and 3 in the name of Aled Roberts and start by saying I agree with slightly more of this motion than Simon Thomas, but that doesn't mean to say I agree with all of it, which is why we've tabled these amendments? In particular, I agree, as did Simon Thomas, that the importance of empowering individuals and community groups to tackle issues of local significance is important.

Diolch i chi, Lywydd. A gaf fi gynnig gwelliannau 2 a 3 yn enw Aled Roberts a dechrau drwy ddweud fy mod yn cytuno gydag ychydig mwy o'r cynnig hwn na Simon Thomas, ond nid yw hynny'n golygu fy mod yn cytuno â phob rhan ohono, a dyna pam rydym wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn? Yn benodol, rwy'n cytuno, fel y gwnaeth Simon Thomas, ynghylch pwysigrwydd rhoi grym i unigolion a grwpiau cymunedol fynd i'r afael â materion o bwys yn lleol.

I agree with Simon that accountability comes through local elections, but I'd also add that we need to have meaningful consultation and empowerment as part of that, which is why we're happy to support 3(b) in this particular motion, because I think the rights that were introduced in England, which have not been taken up here in Wales, are long overdue for many Welsh councils. I think that involving individuals in key local resolutions and having the community right to bid and the community right to challenge and a community rights agenda would help transform the way local government is run in Wales. Certainly, we're prepared to support that particular aspect of this motion.

Rwy'n cytuno gyda Simon fod atebolrwydd yn dod drwy etholiadau lleol, ond byddwn yn ychwanegu hefyd fod angen i ni gael proses ymgynghori a grymuso ystyrlon yn rhan o hynny, a dyna pam rydym yn hapus i gefnogi 3(b) yn y cynnig penodol hwn, oherwydd rwy'n meddwl ei bod yn hen bryd i lawer o gynghorau Cymru gael yr hawliau a gyflwynwyd yn Lloegr, ac na fanteisiwyd arnynt yma yng Nghymru. Credaf y byddai cynnwys unigolion mewn penderfyniadau lleol allweddol a sicrhau hawl y gymuned i wneud cais a hawl y gymuned i herio ac agenda hawliau cymunedol yn helpu i drawsnewid y ffordd y mae llywodraeth leol yn cael ei rhedeg yng Nghymru. Yn sicr, rydym yn barod i gefnogi'r agwedd benodol honno o'r cynnig hwn.

I think, in terms of the rest of the motion, there are some other issues that need to be addressed. Clearly, in terms of the referendum for a directly elected mayor in Cardiff, I'm not in a position to pass judgment on that because I don't represent Cardiff, and I think it's important that I don't stand here and say what is right and what is wrong for Cardiff—that's a matter for people in Cardiff themselves. What I would say is I've talked to my party in Cardiff and they are not supportive of this referendum at this time, and the reason they've given for that, which I think is a very valid reason, is because, with the possible reorganisation of local government, it is the wrong time to have this referendum. If you're going to have a referendum, let's have a settled structure and settled boundaries for the Cardiff area around which you would have this referendum, so that we know exactly who this mayor would be representing and which areas this mayor would be representing. I think, in that sense, this particular clause of this motion is premature. I also think it's not appropriate that this Assembly passes judgment on having a referendum. Again, that's a matter for the people of Cardiff and I wouldn't want to support anything that seeks to pre-empt what the people of Cardiff want to do.

O ran gweddill y cynnig, rwy'n meddwl bod yna rai materion eraill sydd angen rhoi sylw iddynt. Yn amlwg, o ran y refferendwm i ethol maer yn uniongyrchol yng Nghaerdydd, nid wyf mewn sefyllfa i fynegi barn ar hynny oherwydd nid wyf yn cynrychioli Caerdydd, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig nad wyf yn sefyll yma a dweud beth sy'n iawn a beth nad yw'n iawn i Gaerdydd—mater i bobl yng Nghaerdydd eu hunain yw hynny. Yr hyn y byddwn yn ei ddweud yw fy mod wedi siarad â fy mhlaid yng Nghaerdydd ac nid ydynt yn gefnogol i'r refferendwm hwn ar hyn o bryd, a'r rheswm y maent wedi'i roi dros hynny, a chredaf ei fod yn rheswm dilys iawn, yw oherwydd, gyda'r posibilrwydd o ad-drefnu llywodraeth leol, nid yw'r amser yn iawn i gael refferendwm o'r fath. Os ydych yn mynd i gael refferendwm, gadewch i ni gael strwythur sefydlog a ffiniau sefydlog ar gyfer ardal Caerdydd ar gyfer cael y refferendwm hwn, fel ein bod yn gwybod yn union pwy fyddai'r maer yn ei gynrychioli a pha ardaloedd y byddai'r maer yn eu cynrychioli. Rwy'n meddwl, o ran hynny, fod y cymal penodol hwn yn y cynnig yn gynamserol. Rwy'n credu hefyd nad yw'n briodol i'r Cynulliad hwn ddyfarnu ynglŷn â chael refferendwm. Unwaith eto, mater i bobl Caerdydd yw hynny ac ni fyddwn am gefnogi dim sy'n ceisio achub y blaen ar yr hyn y mae pobl Caerdydd am ei wneud.

As it happens, I'm fairly open to the idea of elected mayors. I've been thinking about this for a long, long time. I know, in the case of Swansea—and I need to declare an interest as a member of the City and County of Swansea, Presiding Officer—where I am still a councillor, I happen to think that having an elected mayor for Swansea might actually change the dynamic, if you like, in terms of helping Swansea be heard better within Wales and elsewhere. But again, that's a matter for the people of Swansea and that's a view that I have personally, which I need to persuade my party of and I need to persuade the people of Swansea of. So, this is an issue that needs to be decided, I think, in a democratic way and it isn't for this Assembly to make that decision on the part of Cardiff, or even Swansea, or any other part of Wales.

Fel mae'n digwydd, rwy'n weddol agored i'r syniad o feiri etholedig. Rwyf wedi bod yn meddwl am hyn ers amser hir iawn. Rwy'n gwybod, yn achos Abertawe—ac mae angen i mi ddatgan buddiant fel aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe, Lywydd—lle rwy'n dal yn gynghorydd, rwy'n digwydd meddwl mewn gwirionedd y gallai cael maer etholedig ar gyfer Abertawe newid y dynamig, os mynnwch, o ran helpu Abertawe i gael ei chlywed yn well yng Nghymru ac mewn mannau eraill. Ond unwaith eto, mater i bobl Abertawe yw hynny a dyna fy marn bersonol, ac mae angen i mi ddwyn perswâd ar fy mhlaid ynghylch hyn a bydd angen i mi berswadio pobl Abertawe ynghylch hyn hefyd. Felly, mae hwn yn fater sydd angen ei benderfynu, rwy'n meddwl, mewn ffordd ddemocrataidd ac nid lle'r Cynulliad hwn yw gwneud y penderfyniad ar ran Caerdydd, neu hyd yn oed Abertawe, neu unrhyw ran arall o Gymru.

In terms of the other amendments that we've put in, I'm not particularly keen on referenda on proposed council mergers and local authority council tax rises. We have a representative democracy. We have councillors elected to make those decisions. They can be made accountable, particularly if you have a more meaningful electoral system, as Simon Thomas has outlined—single transferable voting, which means that the councillors who are elected are more representative of the people who are voting. The outcome of those elections reflects the way that people have voted, and that makes them more representative. Because they're more representative, they are more accountable and it makes for better decision making and more transparent decision making. I think if you have that system in place, you don't need to have these constant referenda. What you can do, however, is you can have better consultation processes, you can have better empowerment and I think that would certainly improve things. Mike.

O ran y gwelliannau eraill rydym wedi eu rhoi i mewn, nid wyf yn arbennig o hoff o refferenda ar gamau arfaethedig i uno cynghorau a chodiadau yn nhreth gyngor awdurdodau lleol. Mae gennym ddemocratiaeth gynrychiadol. Mae gennym gynghorwyr etholedig i wneud y penderfyniadau hynny. Gellir eu gwneud yn atebol, yn enwedig os oes gennych system etholiadol fwy ystyrlon, fel y disgrifiodd Simon Thomas—pleidlais sengl drosglwyddadwy, sy'n golygu bod y cynghorwyr sy'n cael eu hethol yn fwy cynrychiadol o'r bobl sy'n pleidleisio. Mae canlyniad yr etholiadau hynny'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl wedi pleidleisio, ac mae hynny'n eu gwneud yn fwy cynrychiadol. Oherwydd eu bod yn fwy cynrychiadol, maent yn fwy atebol sy'n gwella'r broses o wneud penderfyniadau ac yn gwneud penderfyniadau'n fwy tryloyw. Rwy'n meddwl os oes gennych y system honno ar waith, nid oes angen i chi gael y refferenda cyson hyn. Yr hyn y gallwch ei wneud, fodd bynnag, yw cael prosesau ymgynghori gwell, grymuso gwell ac rwy'n meddwl y byddai hynny'n sicr yn gwella pethau. Mike.

15:53 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Also with STV, you have very large wards where councillors are very distant from the members. Isn't that true?

Hefyd, gyda'r bleidlais sengl drosglwyddadwy, mae gennych wardiau mawr iawn lle y mae cynghorwyr yn bell iawn oddi wrth yr aelodau. Onid yw hynny'n wir?

15:54 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Mike, it seems to work very well in Scotland, which has large rural areas, and also in Northern Ireland as well. Of course, in the area that you and I represent, we have large wards as well with large populations. So, STV does work in these multimember wards, even in rural areas, as has been demonstrated in both Scotland and Northern Ireland, and, of course, in the Republic of Ireland as well. I don't think that's a particular barrier to having a single transferrable vote system, which, I think, would create more representative local governments. I think I've made clear as well that if we are going to have a reorganisation of local government—and I don't support the current proposals—then, you need to have a single transferrable vote system, a proportional system of electing councillors for those larger authorities, otherwise, it's just going to become very difficult to hold them to account. It seems to me that that's an important aspect of that.

Wel, Mike, mae'n ymddangos ei bod yn gweithio'n dda iawn yn yr Alban, sydd ag ardaloedd gwledig mawr, ac yng Ngogledd Iwerddon hefyd. Wrth gwrs, yn yr ardal rydych chi a minnau'n ei chynrychioli, mae gennym wardiau mawr yn ogystal â phoblogaethau mawr. Felly, mae'r bleidlais sengl drosglwyddadwy yn gweithio yn y wardiau hyn sydd â mwy nag un aelod, hyd yn oed mewn ardaloedd gwledig, fel y dangoswyd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac wrth gwrs, yng Ngweriniaeth Iwerddon yn ogystal. Nid wyf yn credu bod hynny'n rhwystr arbennig i gael system pleidlais sengl drosglwyddadwy, a fyddai, rwy'n credu, yn creu llywodraethau lleol mwy cynrychiadol. Rwy'n credu fy mod wedi gwneud yn glir hefyd, os ydym yn mynd i ad-drefnu llywodraeth leol—ac nid wyf yn cefnogi'r cynigion presennol—yna, mae angen i chi gael system pleidlais sengl drosglwyddadwy, system gyfrannol o ethol cynghorwyr ar gyfer yr awdurdodau mwy o faint hynny, neu fel arall, mae'n mynd i fod yn anodd iawn eu dwyn i gyfrif. Mae'n ymddangos i mi fod honno'n agwedd bwysig o hyn.

So, I think, Presiding Officer, in conclusion, although there are a number of elements in this motion that we can support, it would be massively improved by passing our amendments, and I would hope that the Assembly will support them.

Felly, rwy'n meddwl, Lywydd, i gloi, er bod nifer o elfennau yn y cynnig hwn y gallwn eu cefnogi, byddai'n gwella'n aruthrol drwy basio ein gwelliannau, a byddwn yn gobeithio y bydd y Cynulliad yn eu cefnogi.

15:55 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Asset-based community development is a large and growing movement that considers people as the primary building blocks of sustainable community development. Put another way, this is about giving voice, choice, control and real power to the people in our communities. Building on the skills of local residents, the power of local associations and the support of local institutions, this is about drawing upon existing community strengths to build stronger communities for the future. This is, of course, anathema to Welsh Labour's state organisation of society and top-down control over persons and activities within their jurisdiction, apparently, as we've heard, supported by Plaid Cymru.

Mae datblygu cymunedol ar sail asedau yn symudiad mawr a chynyddol sy'n ystyried pobl fel blociau adeiladu sylfaenol mewn datblygu cymunedol cynaliadwy. Mewn geiriau eraill, mae hyn yn ymwneud â rhoi llais, dewis, rheolaeth a grym go iawn i'r bobl yn ein cymunedau. Gan adeiladu ar sgiliau trigolion lleol, grym cymdeithasau lleol a chefnogaeth sefydliadau lleol, mae'n ymwneud â phwyso ar gryfderau cymunedol presennol i adeiladu cymunedau cryfach ar gyfer y dyfodol. Mae hyn, wrth gwrs, yn anathema i ddull Llafur Cymru o drefnu cymdeithas yn wladwriaethol a rheolaeth o'r brig i lawr dros bobl a gweithgareddau o fewn eu hawdurdodaeth, gyda chefnogaeth Plaid Cymru yn ôl pob golwg, fel y clywsom.

Since the UK Localism Act 2011, we have campaigned for its community empowering provisions to be enacted in Wales. However, we had to wait until 2015 for the Welsh Labour Government to set out its plans for community ownership, a watered-down version of the opportunities available in England, leaving communities in Wales with a far smaller voice than their English counterparts. Welsh Labour has now put off proposals for community groups to become involved in the delivery of local services until after the 2016 Assembly elections, proposals that still exclude a statutory right for communities to challenge council services or bid for local authority property.

Ers Deddf Lleoliaeth 2011 y DU, rydym wedi ymgyrchu dros roi ei darpariaethau grymuso cymunedau mewn grym yng Nghymru. Fodd bynnag, bu'n rhaid i ni aros tan 2015 i Lywodraeth Lafur Cymru amlinellu ei chynlluniau ar gyfer perchnogaeth gymunedol, fersiwn wanach o'r cyfleoedd sydd ar gael yn Lloegr, gan adael cymunedau yng Nghymru â llais llawer llai grymus na'u cymheiriaid yn Lloegr. Mae Llafur Cymru bellach wedi gohirio cynigion ar gyfer cynnwys grwpiau cymunedol yn y broses o gyflwyno gwasanaethau lleol tan ar ôl etholiadau'r Cynulliad 2016, cynigion sy'n dal i fethu â chynnwys hawl statudol i gymunedau herio gwasanaethau cyngor neu wneud cais am eiddo awdurdod lleol.

The Localism Act 2011 introduced neighbourhood development plans that allow local people to get the right type of development for their community, which must still meet the needs for the wider area and take into account the local council's assessment of housing and other development needs. Detailed or general plans identify what local people want, where new homes and offices should be built, what they should look like, but this is denied to people in Wales. Welsh Conservatives would introduce neighbourhood planning, including a community right to build and neighbourhood development plans, allowing communities to bring forward small-scale community-led developments, such as shops, services or affordable housing, and allowing communities to show where they would like a new development to happen and what it should look like.

Cyflwynodd Deddf Lleoliaeth 2011 gynlluniau datblygu cymdogaethau sy'n caniatáu i bobl leol gael y math iawn o ddatblygiad ar gyfer eu cymuned, ac sy'n gorfod parhau i ateb yr anghenion ar gyfer yr ardal ehangach ac ystyried asesiad y cyngor lleol o anghenion datblygu tai ac anghenion datblygu eraill. Mae cynlluniau manwl neu gyffredinol yn nodi beth y mae pobl leol ei eisiau, lle y dylid adeiladu cartrefi a swyddfeydd newydd, sut y dylent edrych, ond caiff hyn ei wrthod i bobl yng Nghymru. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn cyflwyno cynllunio cymdogaethau, gan gynnwys hawl gymunedol i adeiladu a chynlluniau datblygu cymdogaethau, gan ganiatáu cymunedau i gyflwyno datblygiadau ar raddfa fach a arweinir gan y gymuned, megis siopau, gwasanaethau neu dai fforddiadwy, a chaniatáu i gymunedau ddangos lle y byddent yn hoffi cael datblygiad newydd a sut y dylai edrych.

By April 2014, 1,000 communities in England had taken the first formal steps for development plans, 80 had been sent out to consultation and 13 had been passed at local referenda. These new powers in Wales would engage communities at a local level, giving them a voice to shape the future of local authority services, assets and planning in their neighbourhoods.

Erbyn Ebrill 2014, roedd 1,000 o gymunedau yn Lloegr wedi rhoi'r camau ffurfiol cyntaf o gynlluniau datblygu ar waith, 80 yn destun ymgynghoriad a 13 wedi'u pasio mewn refferenda lleol. Byddai'r pwerau newydd hyn yng Nghymru yn ymgysylltu â chymunedau ar lefel leol, gan roi llais iddynt lunio dyfodol gwasanaethau awdurdodau lleol, asedau a chynllunio yn eu cymdogaethau.

Consider the private rented sector. Quoting the National Landlord Association, a committee report at the end of the last Assembly stated that there should be Wales-wide private rented sector access agencies for vulnerable people, like Cefni Lettings, a partnership of trust between the private sector and local authorities, with landlords and third sector implementing and delivering more for less rather than replicating for higher cost. They told me that this required a new way of working, true partnership with the public sector and a period of transition for the supply of housing to equalise. Instead, this Welsh Government introduced anti-business regulation for all landlords, hitting investment and supply, rather than targeted enforcement against bad and criminal landlords and support for the worst-affected tenants.

Ystyriwch y sector rhentu preifat. Gan ddyfynnu Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid, roedd adroddiad pwyllgor ar ddiwedd y Cynulliad diwethaf yn dweud y dylai fod cyfryngau mynediad ar draws Cymru gyfan i'r sector rhentu preifat ar gyfer pobl sy'n agored i niwed, fel Gosodiadau Cefni, partneriaeth o ymddiriedaeth rhwng y sector preifat ac awdurdodau lleol, gyda landlordiaid a'r trydydd sector yn gweithredu ac yn darparu mwy am lai yn hytrach na dyblygu am gost uwch. Dywedodd y rhain wrthyf fod hyn yn galw am ffordd newydd o weithio, gwir bartneriaeth gyda'r sector cyhoeddus a chyfnod o newid er mwyn i'r cyflenwad tai ddod yn gydradd â'r galw. Yn lle hynny, cyflwynodd Llywodraeth Cymru reoliadau gwrth-fusnes i'r holl landlordiaid, gan daro buddsoddiad a chyflenwad, yn hytrach na gorfodaeth wedi'i thargedu yn erbyn landlordiaid gwael a throseddol a chymorth i'r tenantiaid yr effeithiwyd arnynt waethaf.

As the Centre for Social Justice housing report states, we need to redirect spending on temporary accommodation to a new breed of social letting agencies, providing long-term security and support for vulnerable renters, while also increasing the number of landlords willing to rent to those on benefits. The auditor general states that councils need to consider alternative models of delivery, but found that, although some councils are managing to provide key services with less money, many councils are too slow in reviewing alternative methods of delivery and missing out on opportunities to reduce expenditure. For example, he found that 18 of the 22 Welsh councils reduced expenditure on supporting leisure services, with the greatest savings where councils had transferred leisure facilities to community trusts. However, Flintshire had the second largest increase in expenditure and yet one of the biggest reductions in people visiting leisure centres, when 14 councils had seen an increase.

Fel y mae adroddiad tai y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol yn nodi, mae angen i ni ailgyfeirio gwariant ar lety dros dro i frid newydd o asiantaethau gosod tai cymdeithasol, gan ddarparu sicrwydd hirdymor a chymorth i rentwyr sy'n agored i niwed, gan gynyddu nifer y landlordiaid sy'n barod i rentu i rai ar fudd-daliadau hefyd. Mae'r archwilydd cyffredinol yn datgan bod angen i gynghorau ystyried dulliau amgen o ddarparu, ond gwelodd, er bod rhai cynghorau yn llwyddo i ddarparu gwasanaethau allweddol gyda llai o arian, mae llawer o gynghorau yn rhy araf yn adolygu dulliau amgen o ddarparu ac yn colli allan ar gyfleoedd i leihau gwariant. Er enghraifft, darganfu fod 18 o'r 22 cyngor yng Nghymru wedi lleihau gwariant ar gefnogi gwasanaethau hamdden, gyda'r arbedion mwyaf lle roedd cynghorau wedi trosglwyddo cyfleusterau hamdden i ymddiriedolaethau cymunedol. Fodd bynnag, yn Sir y Fflint y gwelwyd y cynnydd mwyaf ond un yn y gwariant ac eto, un o'r gostyngiadau mwyaf yn nifer y bobl sy'n ymweld â chanolfannau hamdden, er bod 14 o gynghorau wedi gweld cynnydd.

In response to big Welsh Government cuts to homelessness prevention and local voluntary council funding, community-based organisations state that this is a false economy that will devastate their ability to support more user-led, preventative and cost-effective services. Is it any wonder that Wales has the lowest prosperity, greatest child poverty and highest worklessness in the UK after 17 years of this? It's time to turn the power thing upside down, design the system backwards and set the people free.

Mewn ymateb i doriadau mawr gan Lywodraeth Cymru yn y cyllid ar gyfer atal digartrefedd a chyllid cynghorau gwirfoddol lleol, mae sefydliadau cymunedol yn datgan mai economi ffug yw hon a fydd yn dinistrio eu gallu i gefnogi mwy o wasanaethau ataliol a chosteffeithiol a arweinir gan ddefnyddwyr. A yw'n unrhyw syndod mai yng Nghymru y mae'r lefel isaf o ffyniant, y lefel uchaf o dlodi pant a'r nifer fwyaf o bobl heb waith yn y DU ar ôl 17 mlynedd o hyn? Mae'n amser troi mater grym wyneb i waered, dylunio'r system am yn ôl a rhyddhau'r bobl.

16:00

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have to say I agree with absolutely everything that Mark Isherwood has said, but I don't think I've got time to unpick all of that. I think it's very difficult to disagree with the first point of your motion:

Rhaid i mi ddweud fy mod yn cytuno gyda phopeth a ddywedodd Mark Isherwood, ond nid wyf yn meddwl fod gennyf amser i drafod hynny i gyd. Rwy'n credu ei bod yn anodd iawn anghytuno â phwynt cyntaf eich cynnig:

'Recognises the importance of empowering individuals and community groups to tackle issues of local significance'.

'Yn cydnabod pwysigrwydd rhoi'r grym i unigolion a grwpiau cymunedol fynd i'r afael â materion o bwys lleol'.

I think we'd all agree with that. I can't think of a single individual in this Chamber, unless they're on the Tory benches, who would disagree with that.

Rwy'n credu ein bod i gyd yn cytuno â hynny. Ni allaf feddwl am neb yn y Siambr hon, oni bai eu bod ar feinciau'r Torïaid, a fyddai'n anghytuno â hynny.

So, I think that the fact that the Conservatives are now joining up with a few dissident Labour councillors and Neil McEvoy in an attempt to get a mayor for Cardiff is very interesting. We need to remember, as I do on the doorstep, that an earlier attempt to produce a mayor and cabinet in Cardiff by the back door led to absolutely visceral hostility to the individual involved and, more than a decade later, there's still a good deal of suspicion about the idea of such concentrated power in a single individual's hands.

Felly, credaf fod y ffaith fod y Ceidwadwyr yn awr yn ymuno â rhai cynghorwyr Llafur anghydffurfiol a Neil McEvoy mewn ymgais i gael maer i Gaerdydd yn ddiddorol iawn. Mae angen i ni gofio, fel rwy'n ei wneud ar garreg y drws, fod ymgais gynharach i gynhyrchu maer a chabinet yng Nghaerdydd drwy'r drws cefn wedi arwain at elyniaeth hollol angerddol yn erbyn yr unigolyn dan sylw a thros ddegawd yn ddiweddarach, mae'n dal i fod cryn dipyn o amheuaeth ynglŷn â'r syniad o'r fath rym wedi'i grynhoi yn nwylo un person.

We need to remember that it was UK Government policy under the New Labour Government that introduced this idea of elected mayors in 2000, and it's interesting to note that the vast majority of elected mayors are and have been Labour mayors. The Conservative Party were late converts to this idea. It isn't until 2009 that we find you promoting this concept, and then the Lib Dems got bundled into it as part of the coalition agreement of 2010. It's interesting to note that the Lib Dems are now proposing the deletion of point 2.

Mae angen i ni gofio mai polisi Llywodraeth y DU o dan y Llywodraeth Lafur Newydd a gyflwynodd y syniad hwn o feiri etholedig yn 2000, ac mae'n ddiddorol nodi bod y mwyafrif helaeth o feiri etholedig yn, ac wedi bod yn feiri Llafur. Yn hwyr yn y dydd y cynhesodd y Blaid Geidwadol at y syniad. Nid tan 2009 y gwelsom ni chi'n hyrwyddo'r cysyniad hwn, a chafodd y Democratiaid Rhyddfrydol eu cynnwys yn rhan o gytundeb clymblaid 2010. Mae'n ddiddorol nodi bod y Democratiaid Rhyddfrydol bellach yn cynnig dileu pwynt 2.

I think that the main reservation about elected mayors is the concentration of too much power in the hands of one individual. In fact, this is more perception than reality. Elected mayors, under the Local Government (Wales) Measure 2011, have no more powers than the leader of a council working with a cabinet. An elected mayor has to work with a cabinet of elected councillors in the same way that an elected leader does. The difference is they would have been elected directly by the residents, rather than by their peers on the council. It's hugely down to the leadership skills of the individual who is chosen to take on that role.

Rwy'n meddwl mai'r brif amheuaeth ynghylch meiri etholedig yw'r crynodiad o ormod o rym yn nwylo un unigolyn. Mewn gwirionedd, mae'n fwy o ganfyddiad na realiti. Nid oes gan feiri etholedig, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, fwy o bwerau nag arweinydd cyngor yn gweithio gyda chabinet. Mae'n rhaid i faer etholedig weithio gyda chabinet o gynghorwyr etholedig yn yr un ffordd ag y mae arweinydd etholedig yn ei wneud. Y gwahaniaeth yw y byddent wedi cael eu hethol yn uniongyrchol gan y trigolion, yn hytrach na chan eu cymheiriaid ar y cyngor. Mae'n ymwneud i raddau helaeth â sgiliau arwain yr unigolyn sy'n cael ei ddewis i ymgymryd â'r rôl honno.

Bristol, for example, decided to elect a mayor in 2015, and this was on the wave of an anti-politics mood that swept an independent, George Ferguson, to power. Research by Professor Hambleton of the University of the West of England and Dr Sweeting of the University of Bristol does indeed show that there's been a perceived improvement in leadership and a clearer vision for the city of Bristol. Cardiff council certainly found him a good person to do business with as part of Cardiff's work to develop a western powerhouse alliance between Bristol, Cardiff and Newport.

Er enghraifft, penderfynodd Bryste ethol maer yn 2015, a digwyddodd hyn ar don o wrth-wleidyddiaeth a ysgubodd yr ymgeisydd annibynnol, George Ferguson, i rym. Mae ymchwil gan yr Athro Hambleton o Brifysgol Gorllewin Lloegr a Dr Sweeting o Brifysgol Bryste yn dangos y cafwyd gwelliant canfyddedig yn yr arweinyddiaeth a gweledigaeth gliriach ar gyfer dinas Bryste. Yn sicr, roedd cyngor Caerdydd yn ei ystyried yn berson da i wneud busnes ag ef fel rhan o waith Caerdydd i ddatblygu cynghrair pwerdy'r gorllewin rhwng Bryste, Caerdydd a Chasnewydd.

But elected mayors, we have to remember, have not always been such a resounding success, starting with H'Angus the Monkey who was first elected in Hartlepool in 2002, whose third term ended with dismal rejection by the people of Hartlepool, who resoundingly decided to go back to the leader and cabinet model. We've also, more recently, had the Lutfur Rahman experience in Tower Hamlets—another supposed independent who was thrown out by the courts, which declared his election invalid.

Ond nid yw meiri etholedig, mae'n rhaid i ni gofio, bob amser wedi bod yn gymaint o lwyddiant ysgubol, gan ddechrau gyda H'Angus the Monkey a etholwyd gyntaf yn Hartlepool yn 2002, y daeth ei drydydd tymor i ben drwy gael ei wrthod yn drybeilig gan bobl Hartlepool, a benderfynodd yn bendant eu bod am ddychwelyd at y model arweinydd a chabinet. Yn fwy diweddar hefyd, cawsom brofiad Lutfur Rahman yn Tower Hamlets—ymgeisydd annibynnol honedig arall a wrthodwyd gan y llysoedd, a ddatganodd ei fod wedi'i ethol yn annilys.

My own view is that government for the people, rather than with them, is not a model that works in the new world of austerity politics. The old model of carrot and stick to obtain compliance for the ruling group is simply not possible in today's local government. As 'A Picture of Public Services' makes clear, there are huge challenges facing local government, and simply managing services better or doing less is unlikely to be sufficient. Doing things differently requires the engagement and permission of the local population, which, in my view, is difficult to do in the shape of one individual.

Yn fy marn i, nid yw llywodraeth ar gyfer y bobl, yn hytrach na gyda hwy, yn fodel sy'n gweithio mewn byd newydd o wleidyddiaeth caledi. Nid yw'r hen fodel o wobrwyo a chosbi i sicrhau cydymffurfiaeth â'r grŵp sy'n rheoli yn bosibl o gwbl mewn llywodraeth leol heddiw. Fel y mae 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus' yn ei wneud yn glir, mae heriau enfawr yn wynebu llywodraeth leol, ac nid yw'n debygol y bydd rheoli gwasanaethau'n well neu wneud llai yn ddigon ohonynt eu hunain. Mae gwneud pethau'n wahanol yn galw am ymgysylltiad a chaniatâd y boblogaeth leol, sydd, yn fy marn i, yn anodd ei wneud ar ffurf un person.

After a hesitant start, the current leadership of Cardiff council is both engaging with its citizens on the difficult choices ahead of them, faced as a result of the Tory austerity economic policy, and, where possible, coming up with co-operative solutions. I note that the future generations Act puts the strength of communities and sustainable development at the heart of everything that public services will need to deliver on in the future. In my view, that is better done by elected leaders with elected cabinets.

Ar ôl dechrau petrus, mae arweinyddiaeth bresennol cyngor Caerdydd yn ymgysylltu â'i dinasyddion ynghylch y dewisiadau anodd sy'n eu hwynebu o ganlyniad i bolisi economaidd y Torïaid sy'n seiliedig ar galedi, ac yn creu atebion cydweithredol lle y bo'n bosibl. Nodaf fod Deddf cenedlaethau'r dyfodol yn rhoi cryfder cymunedau a datblygu cynaliadwy wrth wraidd popeth y bydd angen i wasanaethau cyhoeddus eu cyflawni yn y dyfodol. Yn fy marn i, gwneir hynny'n well gan arweinwyr etholedig gyda chabinetau etholedig.

16:05

## Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Localism is true devolution in action. To put it simply, it is about transferring power from central government to local authorities. It is about empowering communities so that they have a bigger say in the issues that matter to them. It is disappointing to note, therefore, that the Welsh Government has failed to implement the community rights agenda in Wales. The Localism Act 2011 sets out a series of measures with the potential to achieve a substantial shift of power to our local people.

Datganoli ar waith go iawn yw lleoliaeth. O'i roi'n syml, mae'n ymwneud â throsglwyddo grym o'r llywodraeth ganolog i awdurdodau lleol. Mae'n ymwneud â grymuso cymunedau er mwyn iddynt gael mwy o lais yn y materion sy'n bwysig iddynt. Mae'n siomedig nodi, felly, bod Llywodraeth Cymru wedi methu â gweithredu'r agenda hawliau cymunedol yng Nghymru. Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn nodi cyfres o fesurau sydd â'r potensial i sicrhau bod grym sylweddol yn trosglwyddo i'n pobl leol.

Two of these rights were the community right to challenge and the community right to bid. First, the community right to challenge: this still has not commenced in Wales. Local authorities in Wales face a budgetary constraint and they may attempt to relieve the pressure by letting go of assets such as leisure centres. Without the community right to challenge, allowing communities to take over the running of services, these assets could be lost permanently. The best councils in Wales are constantly on the lookout for new and better ways to design and deliver local services. Many recognise the potential of social enterprises and community groups to provide higher quality services and good value. They should work together to deliver these services, but councils in Wales do not have to keep a register of assets of community value.

Dwy o'r hawliau hyn oedd hawl y gymuned i herio a hawl y gymuned i wneud cais. Yn gyntaf, hawl y gymuned i herio: nid yw hyn wedi cychwyn yng Nghymru o hyd. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn wynebu cyfyngiad cyllidebol a gallant geisio lleddfu'r pwysau drwy ollwng gafael ar asedau megis canolfannau hamdden. Heb hawl y gymuned i herio, i ganiatáu i gymunedau ymgymryd â'r gwaith o redeg gwasanaethau, gallai'r asedau hyn gael eu colli am byth. Mae'r cynghorau gorau yng Nghymru yn gyson yn chwilio am ffyrdd newydd a gwell o gynllunio a chyflwyno gwasanaethau lleol. Mae llawer yn cydnabod potensial mentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uwch a gwerth da. Dylent weithio gyda'i gilydd i ddarparu'r gwasanaethau hyn, ond nid oes rhaid i gynghorau yng Nghymru gadw cofrestr o asedau o werth cymunedol.

Last year, the Welsh Government launched a consultation on protecting community assets. The majority of respondents supported community rights for Wales, and an overwhelming majority wanted to initiate transfers from public bodies, emphasising the support in Wales for a community right to bid. Every community is home to buildings or amenities that play a vital role in local life. These include community centres, libraries, swimming pools, village shops, markets and pubs. It is a matter of concern that 26 public libraries closed in Wales between 2010 and 2015—many in spite of local opposition. The closure of these assets can present a real loss to the community. Community groups often need more time to organise a bid to raise money than the private enterprises that may be bidding against them. This is why we need a list of assets of community value, nominated by the local communities themselves. Should these listed assets then come up for sale or change of ownership, community groups will then have the time to develop a bid and raise the funds required to keep these assets as part of the local life. I believe that these rights should be extended to Wales to enhance the existing community asset transfer and community facilities and activities programmes.

Y llynedd, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ddiogelu asedau cymunedol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi hawliau cymunedol i Gymru, ac roedd mwyafrif llethol yn awyddus i gychwyn trosglwyddo o ddwylo cyrff cyhoeddus, gan bwysleisio'r gefnogaeth yng Nghymru i hawl y gymuned i wneud cais. Mae pob cymuned yn gartref i adeiladau neu gyfleusterau sy'n chwarae rhan hanfodol yn y bywyd lleol. Mae'r rhain yn cynnwys canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd, pyllau nofio, siopau pentref, marchnadoedd a thafarndai. Mae'n fater o bryder fod 26 o lyfrgelloedd cyhoeddus wedi cau yng Nghymru rhwng 2010 a 2015—llawer ohonynt er gwaethaf gwrthwynebiad lleol. Gall cau'r asedau hyn beri colled wirioneddol i'r gymuned. Yn aml mae angen mwy o amser ar grwpiau cymunedol i drefnu cais i godi arian na mentrau preifat a allai fod yn gwneud cais yn eu herbyn. Dyma pam y mae arnom angen rhestr o asedau o werth cymunedol, wedi'u henwebu gan y cymunedau lleol eu hunain. Os yw'r asedau a restrir yma wedyn yn mynd ar werth neu'n newid dwylo, bydd grwpiau cymunedol yn cael amser i ddatblygu cais a chodi'r arian sydd ei angen i gadw'r asedau hyn yn rhan o'r bywyd lleol. Rwy'n credu y dylai'r hawliau hyn gael eu hymestyn i Gymru i wella trosglwyddo asedau cymunedol a'r rhaglenni cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol sy'n bodoli eisoes.

Allowing communities to challenge these local authorities over the services they provide or to build their own will greatly enhance community involvement and engagement. Presiding Officer, the community rights agenda has benefited England for the last five years. In contrast, the Welsh Government has been tinkering around the edges of community rights for far too long. Their approach to this subject clearly indicates a tired Government that has run out of ideas, run out of steam, and is running out of time. As a result, Welsh communities are being disadvantaged. I call on the Minister to embrace the community rights agenda and to implement the Localism Act in full in Wales. I support this motion. Thank you.

Mae caniatáu i gymunedau herio'r awdurdodau lleol hyn ynghylch y gwasanaethau y maent yn eu darparu neu i ddatblygu eu gwasanaethau eu hunain yn gwella cyfranogiad ac ymgysylltiad â'r gymuned yn fawr. Lywydd, mae'r agenda hawliau cymunedol wedi bod o fudd i Loegr dros y pum mlynedd diwethaf. Mewn cyferbyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn chwarae ar ymylon hawliau cymunedol ers llawer gormod o amser. Mae eu hagwedd tuag at y pwnc yn dangos Llywodraeth sy'n amlwg wedi blino ac wedi mynd yn brin o syniadau, wedi rhedeg allan o stêm, a'i hamser yn dirwyn i ben. O ganlyniad, mae cymunedau Cymru yn cael eu rhoi dan anfantais. Galwaf ar y Gweinidog i groesawu'r agenda hawliau cymunedol ac i weithredu'r Ddeddf Lleoliaeth yn llawn yng Nghymru. Rwy'n cefnogi'r cynnig hwn. Diolch.

16:09 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wanted to speak on the part of the motion that welcomes the campaign for the introduction of a directly elected mayor in Cardiff.

Roeddwn i eisiau siarad am y rhan o'r cynnig sy'n croesawu'r ymgyrch dros gyflwyno maer a etholir yn uniongyrchol i Gaerdydd.

First of all, I wanted to say a bit about Cardiff. I think Cardiff is a fantastic place to live and work in, and it's obviously topped many polls and surveys as being one of the best places to live in the UK. In a survey of residents of Europe's top cities in 2014, Cardiff came out as the best place to live in the UK. It's a top UK city for quality of life: 92 per cent of residents said they liked living here and 93 per cent said they're happy with the city's cultural attractions—more than the number in Paris and more than the number in Berlin. It's also one of the greenest cities in the UK. The Green Alliance said this month that it's the fourth greenest city in England and the UK, as 16 per cent of its electricity consumption comes from renewable energy. That, of course, is going to increase once the Radyr weir hydroelectric scheme opens up and comes into operation, and Cardiff will be even greener. It's recognised as a green city and, of course, it's one of the fastest growing cities in the UK. Cardiff has achieved all these great things without, of course, the benefit of a city mayor.

Yn gyntaf oll, roeddwn eisiau dweud ychydig am Gaerdydd. Rwy'n credu bod Caerdydd yn lle gwych i fyw a gweithio ynddo, ac mae'n amlwg ei fod ar frig llawer o restrau ac arolygon fel un o'r llefydd gorau i fyw ynddo yn y DU. Mewn arolwg o breswylwyr dinasoedd gorau Ewrop yn 2014, Caerdydd oedd y lle gorau i fyw ynddo yn y DU. Mae'n ddinas sydd ar y brig yn y DU o ran ansawdd bywyd: roedd 92 y cant o drigolion yn dweud eu bod yn hoffi byw yma a 93 y cant yn dweud eu bod yn hapus gydag atyniadau diwylliannol y ddinas—mwy na'r nifer ym Mharis a Berlin. Mae hefyd yn un o'r dinasoedd mwyaf gwyrdd yn y DU. Dywedodd y Gynghrair Werdd y mis hwn mai dyma'r bedwaredd ddinas fwyaf gwyrdd yn Lloegr a'r DU, gan fod 16 y cant o'i defnydd o drydan yn deillio o ynni adnewyddadwy. Mae hynny, wrth gwrs, yn mynd i gynyddu pan fydd cynllun trydan dŵr cored Radyr yn agor ac yn dod yn weithredol, a bydd Caerdydd hyd yn oed yn fwy gwyrdd. Mae'n cael ei chydnabod yn ddinas werdd ac wrth gwrs, mae'n un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf yn y DU. Mae Caerdydd wedi cyflawni'r holl bethau gwych hyn heb y fantais o gael maer y ddinas wrth gwrs.

I do believe it's important to have as much local democracy as possible. I think encouraging and engaging people in the democratic process is one of the things that can make a real difference to a city, which, of course, has been done in Cardiff, with extensive consultation in this very difficult round of budget setting. There has been intensive consultation in all parts of Cardiff. The other way, of course, of making democracy more real is to have councillors who widely represent the communities they come from. Labour is going in to the next local authority elections with a pledge of having half their councillors as women. I think those sorts of initiatives are the sorts of things that will make councils more accountable.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig cael cymaint o ddemocratiaeth leol ag sy'n bosibl. Rwy'n credu bod annog a chynnwys pobl yn y broses ddemocrataidd yn un o'r pethau a all wneud gwahaniaeth go iawn i ddinas, sydd, wrth gwrs, wedi cael ei wneud yng Nghaerdydd, gydag ymgynghori helaeth yn y cylch cyllidebol anodd iawn hwn. Cafwyd ymgynghori dwys ym mhob rhan o Gaerdydd. Y ffordd arall, wrth gwrs, o wneud democratiaeth yn fwy real yw cael cynghorwyr sy'n cynrychioli'r cymunedau y dont ohonynt yn eang. Mae Llafur yn cychwyn yr etholiadau awdurdodau lleol nesaf gydag addewid y bydd hanner eu cynghorwyr yn fenywod. Rwy'n credu mai'r mathau hynny o fentrau yw'r math o bethau a fydd yn gwneud cynghorau yn fwy atebol.

But, rather than enhancing local democracy, I actually think having an elected mayor would be a diversion from the issues that have to be tackled in local government at the present time—the most important of which, of course, is tackling the reduction in local authority funding caused by the major cuts in funding to the Assembly by the Conservative Government in Westminster. That's what local government is tackling. Cardiff council and councils all over Wales are trying to think of imaginative ways of preserving the jewels in the crown of the city—like the New Theatre, like St David's Hall and like the libraries—and trying to find ways of keeping these wonderful cultural organisations going. So, why on earth would we want to have a distraction like a campaign to trigger a referendum? I can't imagine why the Conservatives think that this is such an important thing. I think it's an absolute distraction from the real issues.

Ond yn hytrach na gwella democratiaeth leol, rwy'n meddwl o ddifrif y byddai cael maer etholedig yn tynnu sylw oddi wrth y materion sy'n rhaid mynd i'r afael â hwy mewn llywodraeth leol ar hyn o bryd—a'r pwysicaf o'r rhain, wrth gwrs, yw mynd i'r afael â'r gostyngiad yng nghyllid yr awdurdod lleol a achoswyd gan y toriadau mawr yn y cyllid i'r Cynulliad gan y Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan. Dyna'r hyn y mae llywodraeth leol yn mynd i'r afael ag ef. Mae cyngor Caerdydd a chynghorau ledled Cymru yn ceisio meddwl am ffyrdd dychmygus o warchod trysorau'r ddinas—fel y New Theatre, fel Neuadd Dewi Sant ac fel y llyfrgelloedd—ac yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o gadw'r sefydliadau diwylliannol gwych hyn. Felly, pam ar y ddaear y byddem eisiau ymyrraeth fel yr ymgyrch i sbarduno refferendwm? Ni allaf ddychmygu pam y mae'r Ceidwadwyr yn credu bod hwn yn fater mor bwysig. Rwy'n credu ei fod yn ymyrraeth llwyr sy'n tynnu sylw oddi ar y problemau go iawn.

It's also being done at a very inappropriate time. Local government reorganisation has already been mentioned. There's also a debate ongoing about securing a city deal for Cardiff, which, of course, involves 10 local authorities working together. We're talking now in terms of the regional. In local government reorganisation, one of the proposals is that Cardiff might go in with the Vale, so a vote that only includes people in Cardiff would be pretty meaningless. So, why on earth do we want to have another layer of government in these difficult, cash-strapped times? The cost of the referendum would be nearly £0.5 million. Are the Conservatives seriously proposing that this £0.5 million should, in these times, go towards a referendum? Should it be successful, an election would be another £0.5 million.

Mae hefyd yn cael ei wneud ar adeg amhriodol iawn. Soniwyd eisoes am ad-drefnu llywodraeth leol. Mae yna hefyd ddadl yn mynd rhagddi ynghylch sicrhau cytundeb dinas i Gaerdydd, sydd, wrth gwrs, yn cynnwys 10 awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd. Rydym yn siarad yn awr yn nhermau'r rhanbarthol. Yn y cynlluniau i ad-drefnu llywodraeth leol, un o'r cynigion yw y gallai Caerdydd uno gyda'r Fro, felly byddai pleidlais nad yw ond yn cynnwys pobl yng Nghaerdydd yn eithaf diystyr. Felly, pam ar y ddaear rydym eisiau cael haen arall o lywodraeth yn y cyfnod anodd, a phrin o arian hwn? Byddai cost y refferendwm bron yn £0.5 miliwn. A yw'r Ceidwadwyr o ddifrif yn cynnig y dylai'r £0.5 miliwn hwn fynd tuag at refferendwm, yn y cyfnod hwn? Os yw'n llwyddiannus, byddai etholiad yn costio £0.5 miliwn arall.

16:13

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'm grateful to Julie Morgan for giving way. You say that this is a needless distraction, and ask why we should have another layer of government. But the point that we've made is that it will be the people in those areas who will decide if they want that extra layer of government. I don't understand why you're so afraid of giving the people the right to choose the sort of structure that they want.

Diolch i Julie Morgan am ildio. Rydych yn dweud bod hyn yn ymyrraeth ddiangen, ac yn gofyn pam y dylem gael haen arall o lywodraeth. Ond y pwynt rydym wedi'i wneud yw mai'r bobl yn yr ardaloedd hynny fydd yn penderfynu a ydynt am gael yr haen ychwanegol o lywodraeth. Nid wyf yn deall pam rydych mor ofnus ynglŷn â rhoi hawl i'r bobl ddewis y math o strwythur y maent ei eisiau.

16:14

## Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I certainly think it's completely wrong to have the distraction of a referendum campaign, and all the expense of paying for a referendum. I just think it is a complete distraction. I also think, as Jenny Rathbone has said, that this would be a move to a much more centralised system, and too much power in one person. A council leader can be removed by a vote of his or her colleagues, but it is very difficult to remove an elected mayor before their time of office elapses. Most efforts to have elected mayors have been defeated by local votes. George Osborne's proposal for the Northern Powerhouse brings with it the obligation to have an elected mayor, even though those cities that are mainly involved have actually voted against having elected mayors in those northern towns and cities. So, I think this is an issue that should not be pursued.

Rwy'n sicr yn credu ei bod yn hollol anghywir cael ymyrraeth ymgyrch refferendwm, a'r holl gost o dalu am refferendwm. Rwy'n meddwl mai ymyrraeth lwyr yw hynny. Rwyf hefyd yn credu, fel y mae Jenny Rathbone wedi dweud, y byddai hyn yn symud tuag at system lawer mwy canolog, a gormod o rym i un person. Gellir cael gwared ar arweinwyr cynghorau drwy bleidlais eu cyd-aelodau, ond mae'n anodd iawn cael gwared ar feiri etholedig cyn i'w hamser yn y swydd ddod i ben. Mae'r rhan fwyaf o'r ymdrechion i gael meiri etholedig wedi cael eu trechu gan bleidleisiau lleol. Mae cynnig George Osborne ar gyfer Pwerdy Gogledd Lloegr yn creu rhwymedigaeth i gael maer etholedig, er bod y dinasoedd sy'n bennaf gysylltiedig wedi pleidleisio yn erbyn cael meiri etholedig yn y trefi a dinasoedd gogleddol hynny mewn gwirionedd. Felly, rwy'n credu na ddylid bwrw ymlaen â'r mater hwn.

16:15

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I welcome the opportunity to contribute to this debate today, and I'd like to maybe confine my comments to the directly elected mayor part of the motion, and also town and community councils, and the important role I believe many of the town and community councils do have to play as the bedrock, really, of our democracy.

Rwy'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl hon heddiw, a hoffwn gyfyngu fy sylwadau efallai i'r rhan o'r cynnig sy'n ymwneud â meiri a etholir yn uniongyrchol, a hefyd cynghorau tref a chymuned, a'r rhan bwysig y credaf sydd gan lawer o'r cynghorau tref a chymuned i'w chwarae fel sylfaen ein democratiaeth mewn gwirionedd.

Certainly, the first part of the motion does recognise the empowering of individuals and community groups to tackle issues of local significance. We have over 700 town and community councils the length and breadth of Wales, and I have pressed the Minister on many occasions in this Chamber as to what level of engagement the Government has and what role, going forward, he believes many of those town and community councils can have in being, as I said, the bedrock of our democracy. For many people, that is the volunteer approach: that many people give their time up to go and represent their community and start in politics, albeit that many town and community councils are non-political because, obviously, that's the make-up they choose. I do believe they are an under-utilised asset, and I do believe that, especially when you look at some of the bigger town councils, such as Barry in my own elected area—which I believe is the biggest town council in Wales, but, equally, many other areas of Wales have significant councils with significant responsibilities placed on them, and they could be far more involved in the planning process to address many of the concerns that many people face in the planning system, where they do believe that their voice has been excluded in the consultation process that the larger county authority has taken supposedly on their behalf, but yet they do not feel that they've been engaged in that process.

Yn sicr, mae rhan gyntaf y cynnig yn cydnabod yr angen i rymuso unigolion a grwpiau cymunedol i fynd i'r afael â materion o bwys lleol. Mae gennym dros 700 o gynghorau tref a chymuned ar hyd a lled Cymru, ac rwyf wedi holi'r Gweinidog droeon yn y Siambr hon pa lefel o ymgysylltiad sydd gan y Llywodraeth a pha rôl, wrth symud ymlaen, y mae'n credu y gall llawer o'r cynghorau tref a chymuned hynny ei chael wrth fod, fel y dywedais, yn sylfaen i'n democratiaeth. I lawer o bobl, dyna'r dull gwirfoddol: fod llawer o bobl yn rhoi o'u hamser i fynd i gynrychioli eu cymuned a dechrau mewn gwleidyddiaeth, er bod llawer o gynghorau tref a chymuned yn anwleidyddol oherwydd, yn amlwg, dyna'r strwythur y maent yn ei ddewis. Rwy'n credu eu bod yn ased nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol, ac rwy'n credu, yn enwedig pan edrychwch ar rai o'r cynghorau tref mwy o faint, megis y Barri yn yr ardal lle cefais fy ethol—credaf mai dyna'r cyngor tref mwyaf yng Nghymru—ond yn yr un modd, mae gan lawer o ardaloedd eraill yng Nghymru gynghorau sylweddol gyda chyfrifoldebau sylweddol wedi'u gosod arnynt, a gallent fod yn llawer mwy o ran yn y broses gynllunio i fynd i'r afael â llawer o'r pryderon y mae llawer o bobl yn eu hwynebu yn y system gynllunio, lle y credant nad yw eu llais yn cael ei glywed yn y broses ymgynghori y mae'r awdurdod sirol mwy o faint wedi'i chynnal ar eu rhan yn ôl yr honiad, ond eto nid ydynt yn teimlo eu bod wedi bod yn rhan o'r broses honno.

But, moving to the directly elected mayor, I do believe that this is a great opportunity for areas, in particular Cardiff, which is in my own electoral area of South Wales Central, to actually start to compete, especially economically, with Bristol on our doorstep, which does have a directly elected mayor. And, if you go into north Wales, where you've got Liverpool and Manchester right on the doorstep, many of the economic challenges that north Wales faces are because people are going to Liverpool and Manchester because of the incentives and because of the decisions around the Northern Powerhouse. It is vital that north Wales does not get left behind, and there is the opportunity to be able, from this place, to devolve responsibility and power out, especially on economic issues. I notice the CBI are very keen for that decision making to be localised in north Wales, and what better way to do it than via a directly elected mayor, who would be accountable for that particular area on a four- or five-year cycle?

Ond o symud ymlaen at faer a etholir yn uniongyrchol, rwy'n credu bod hwn yn gyfle gwych i ardaloedd, yn enwedig Caerdydd, yn fy ardal etholiadol fy hun sef Canol De Cymru, i ddechrau cystadlu go iawn, yn enwedig yn economaidd, gyda Bryste ar garreg ein drws, a chanddi faer a etholir yn uniongyrchol. Ac os ewch i ogledd Cymru, lle y mae gennych Lerpwl a Manceinion ar garreg y drws, mae llawer o'r heriau economaidd sy'n wynebu gogledd Cymru yn deillio o'r ffaith fod pobl yn mynd i Lerpwl a Manceinion oherwydd y cymhellion ac oherwydd y penderfyniadau'n ymwneud â Phwerdy Gogledd Lloegr. Mae'n hanfodol nad yw ardal gogledd Cymru yn cael ei adael ar ôl, ac mae cyfle i allu datganoli cyfrifoldeb a grym allan o'r lle hwn, yn enwedig ar faterion economaidd. Rwy'n sylwi bod y CBI yn awyddus iawn i'r broses honno o wneud penderfyniadau gael ei lleoleiddio yng ngogledd Cymru, a pha ffordd well o wneud hynny na thrwy faer a etholir yn uniongyrchol, a fyddai'n atebol am yr ardal benodol honno ar gylch o bedair neu bum mlynedd?

It's interesting to note as well, when you take Bristol as an example—which is a major economic challenge for south-east Wales—that the Avon area is also looking at the 'metro mayor' concept to consolidate many of the aspects of economic development into the hands of a metro mayor who, ultimately, would speak for a far wider area than just the Bristol area.

Mae'n ddiddorol nodi hefyd, pan fyddwch yn edrych ar Fryste fel enghraifft—sy'n her economaidd o bwys i dde-ddwyrain Cymru—fod ardal Avon hefyd yn edrych ar y cysyniad o 'faer metro' i gydgrynhoi llawer o'r agweddau ar ddatblygu economaidd yn nwylo maer metro a fyddai yn y pen draw yn siarad ar ran ardal lawer ehangach nag ardal Bryste'n unig.

I did listen to Julie and what she said about Manchester and the Northern Powerhouse. Many if not all the Labour authorities in that particular area have embraced the idea of this devolution of power and responsibility out from the centre, from Whitehall to the great northern city of Manchester. I'll gladly take the intervention, Julie.

Gwrandewais ar Julie a'r hyn a ddywedodd ynghylch Manceinion a Phwerdy Gogledd Lloegr. Mae llawer os nad yr holl awdurdodau Llafur yn yr ardal benodol honno wedi croesawu'r syniad o ddatganoli grym a chyfrifoldeb allan o'r canol, o Whitehall i ddinas ogleddol wych Manceinion. Rwy'n hapus i gymryd yr ymyriad, Julie.

16:18 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would Andrew R.T. Davies not agree that, in fact, they all voted against having a directly elected mayor?

A fyddai Andrew R.T. Davies yn cytuno, mewn gwirionedd, eu bod i gyd wedi pleidleisio yn erbyn cael maer a etholir yn uniongyrchol?

16:18 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There was a referendum on this particular issue, but the actual deal that has been put in place for the responsibility of over £6 billion of health and social care budgets, and for police and crime commissioners, obviously, which were introduced in the last Parliament—to actually consolidate that responsibility into directly elected officials at a city level has energised that part of the north of England. When you look at participation rates and understanding of what roles the mayors undertake, there has been a dramatic improvement. If you take Bristol, for example, where the figures of public participation and understanding—[Interruption.] I have taken one intervention. I've only got 50 seconds left, Julie.

Cafwyd refferendwm ar y mater penodol hwn, ond y cytundeb go iawn a roddwyd ar waith i fod yn gyfrifol am dros £6 biliwn o gyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol, ac ar gyfer comisiynwyr heddlu a throseddu, yn amlwg, a gyflwynwyd yn y Senedd ddiwethaf—mae cydgrynhoi'r cyfrifoldeb hwnnw mewn gwirionedd ar ffurf swyddogion a etholir yn uniongyrchol ar lefel y ddinas wedi grymuso'r rhan honno o ogledd Lloegr. Pan edrychwch ar gyfraddau cyfranogiad a dealltwriaeth o'r rolau y mae'r meiri'n ymgymryd â hwy, gwelwyd gwelliant dramatig. Os ystyriwch ddinas Bryste, er enghraifft, lle y mae ffigurau cyfranogiad a dealltwriaeth y cyhoedd—[Torri ar draws.] Rwyf wedi derbyn un ymyriad. 50 eiliad yn unig sydd gennyf ar ôl, Julie.

I do believe that it is a concept worth exploring. I do believe that the motion that is before the electorate at the moment to instigate the referendum by getting, I think, 26,000 signatures in the city of Cardiff does warrant the support of the people of Cardiff because I do believe that it would create a really dynamic and competitive edge to this part of Wales, the part of Wales that I'm very proud to represent in this Assembly. But I do take issue with the point that the Plaid Cymru local government spokesperson said, because you can't have people on the ground, like Neil McEvoy, supporting that campaign as Plaid—as he came out and said—and then be contradicted in this Chamber. You're either supporting the concept or you're not, and, ultimately, it is vital that everyone gets the opportunity to have the chance to support this motion and it would actually transform the democratic engagement of people in the city of Cardiff if it did get through the 26,000 threshold. When you look at the success in other parts of the United Kingdom, a directly elected mayor has driven that economic development, has driven that public participation, and, importantly, driven local accountability. On all counts, the arguments are won, and I do hope this afternoon the argument on this motion will be won in this Chamber.

Rwy'n credu ei fod yn gysyniad gwerth ei archwilio. Rwy'n credu bod y cynnig sydd gerbron yr etholwyr ar hyn o bryd i gychwyn refferendwm drwy gael, rwy'n meddwl, 26,000 o lofnodion yn ninas Caerdydd yn gwarantu cefnogaeth pobl Caerdydd gan fy mod yn credu y byddai'n creu awch dynamig a chystadleuol i'r rhan hon o Gymru, y rhan o Gymru rwy'n falch iawn o'i chynrychioli yn y Cynulliad hwn. Ond rwy'n anghytuno â'r pwynt a wnaeth llefarydd llywodraeth leol Plaid Cymru, oherwydd ni allwch gael pobl ar lawr gwlad, fel Neil McEvoy, yn cefnogi'r ymgyrch honno ar ran Plaid Cymru—fel y dywedodd yn gyhoeddus—a'i wrthddweud wedyn yn y Siambr hon. Rydych naill ai'n cefnogi'r cysyniad neu'n ei wrthod, ac yn y pen draw, mae'n hanfodol fod pawb yn cael cyfle i gefnogi'r cynnig hwn a byddai'n trawsnewid ymgysylltiad democrataidd pobl yn ninas Caerdydd mewn gwirionedd os yw'n torri drwy'r trothwy o 26,000. Pan edrychwch ar y llwyddiant mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, mae meiri a etholir yn uniongyrchol wedi gyrru'r datblygu economaidd hwnnw, wedi gyrru cyfranogiad y cyhoedd, ac yn bwysig, wedi gyrru atebolrwydd lleol. Ar bob cyfrif, mae'r dadleuon wedi'u hennill, ac rwy'n gobeithio y prynhawn yma y bydd y ddadl ar y cynnig hwn yn cael ei hennill yn y Siambr hon.

16:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Public Services to speak on behalf of the Government—Leighton Andrews.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i siarad ar ran y Llywodraeth—Leighton Andrews.

16:20 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Llywydd, the Conservative spokesperson started by mentioning her constituency of Aberconwy. Many of my colleagues and I were in her constituency at the weekend. Indeed, I got a standing ovation in her constituency. [Laughter.] She wasn't there at the time, obviously.

Lywydd, dechreuodd llefarydd y Ceidwadwyr drwy sôn am ei hetholaeth yn Aberconwy. Roedd llawer o fy nghydweithwyr a minnau yn ei hetholaeth ar y penwythnos. Yn wir, cefais gymeradwyaeth sefyll yn ei hetholaeth. [Chwerthin.] Nid oedd hi yno ar y pryd, yn amlwg.

In the draft local government Bill—. [Interruption.] There were councillors as well giving me a standing ovation. That's not often seen, I accept, but there we are.

Yn y Bil llywodraeth leol drafft—. [Torri ar draws.] Roedd cynghorwyr yn ogystal ar eu traed yn fy nghymeradwyo. Nid yw honno'n olygfa a welwch yn aml, rwy'n derbyn, ond dyna ni.

In the draft local government Bill, I set out our plans for empowering local people. I believe in activist councils, as we said in the White Paper, providing high-quality services, sharing power with local people. We've been scrutinised as a Government extensively on the proposals that we've put forward to make this happen. We agree with the general argument for local empowerment, but we disagree fundamentally with the approach offered by the opposition. Localism is a term that the Conservatives are abusing to disguise their real intentions to slash the budgets of public services and make sure that local government takes the blame for service cuts.

Yn y Bil llywodraeth leol drafft, nodais ein cynlluniau ar gyfer rhoi grym i bobl leol. Rwy'n credu mewn cynghorau gweithredol, fel y dywedasom yn y Papur Gwyn, i ddarparu gwasanaethau o safon uchel, gan rannu grym gyda phobl leol. Rydym wedi bod yn craffu'n helaeth fel Llywodraeth ar y cynigion a gyflwynwyd gennym i wneud i hyn ddigwydd. Rydym yn cytuno â'r ddadl gyffredinol dros rymuso lleol, ond rydym yn anghytuno'n sylfaenol â'r dull a gynigir gan y gwrthbleidiau. Mae lleoliaeth yn derm y mae'r Ceidwadwyr yn ei gamddefnyddio i guddio eu bwriadau go iawn i dorri cyllidebau gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau bod llywodraeth leol yn cymryd y bai am doriadau i wasanaethau.

I'd like to reiterate the comments I made a few weeks ago on what's happening to local government across the border. Authorities in England have seen far more serious cuts in spending. Since 2010-11, spending on local services in England has decreased by around 10 per cent in cash terms, while in Wales it has increased by 2.5 per cent.

Hoffwn ailadrodd y sylwadau a wneuthum ychydig wythnosau'n ôl ar yr hyn sy'n digwydd i lywodraeth leol ar draws y ffin. Mae awdurdodau yn Lloegr wedi gweld toriadau llawer mwy difrifol i'w gwariant. Ers 2010-11, mae gwariant ar wasanaethau lleol yn Lloegr wedi gostwng tua 10 y cant yn nhermau arian parod, tra yng Nghymru mae wedi cynyddu 2.5 y cant.

The Local Government Association in England made it clear this week that the additional 2 per cent rise allowed on council tax does not equate to proper funding of social care and that councils in England are dangerously close to a social care crisis. We're all well aware of David Cameron's letter to his own local authority complaining about the cuts being imposed in his own back yard, and his mum doesn't like them either. So, these cuts, of course—[Interruption.] Nor his aunty, quite right.

Dywedodd y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn Lloegr yn glir yr wythnos hon nad oedd y cynnydd o 2 y cant ychwanegol a ganiateir ar y dreth gyngor yn cyfateb i gyllido gofal cymdeithasol yn briodol, a bod cynghorau yn Lloegr yn beryglus o agos at argyfwng ym maes gofal cymdeithasol. Rydym i gyd yn ymwybodol iawn o lythyr David Cameron at ei awdurdod lleol ei hun yn cwyno am y toriadau a wnaed yn ei filltir sgwâr ei hun, ac nid yw ei fam yn eu hoffi chwaith. Felly, mae'r toriadau hyn, wrth gwrs—[Torri ar draws.] Na'i fodryb, yn hollol.

These were, of course, a direct result of his own Government's policies. Perhaps the leader of the opposition here today disagrees with David Cameron about the cuts in local government in England as well. He's disagreed with him on at least one major policy issue this week. Perhaps we'll hear—[Laughter.]

Roedd y rhain, wrth gwrs, yn deillio'n uniongyrchol o bolisïau ei Lywodraeth ei hun. Efallai fod arweinydd yr wrthblaid yma heddiw yn anghytuno â David Cameron ynghylch y toriadau i gyllid llywodraeth leol yn Lloegr hefyd. Mae wedi anghytuno ag ef ar o leiaf un mater polisi pwysig yr wythnos hon. Efallai y cawn glywed—[Chwerthin.]

16:22

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The one thing that unites the Conservative Party and has delivered the Conservative Party over the Labour Party is economic competence, and that has given us a solid, growing economy—[Interruption.]—a solid, growing economy that has allowed us to invest in that economy, create a record number of jobs and make record amounts of money available to protect public services.

Yr un peth sy'n uno'r Blaid Geidwadol ac wedi codi'r Blaid Geidwadol uwchben y Blaid Lafur yw cymhwysedd economaidd, ac mae hynny wedi rhoi economi solet, sy'n tyfu i ni— [Torri ar draws.]—economi solet sy'n tyfu ac sydd wedi ein galluogi i fuddsoddi yn yr economi honno, creu'r nifer uchaf erioed o swyddi a sicrhau bod mwy o arian nag erioed ar gael i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus.

16:23

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it's something of an irony that you make a statement like that on the day that we have delivered Aston Martin in Wales, and I pay tribute to my colleague, the Minister for Economy, Science and Transport. I think the leader of the opposition today—perhaps it's apt—. He's rather more Blofeld than Boris today.

Rwy'n credu ei bod yn eironig braidd eich bod yn gwneud datganiad o'r fath ar y diwrnod rydym wedi sicrhau bod Aston Martin yn dod i Gymru, ac rwy'n talu teyrnged i fy nghyd-Aelod, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Rwy'n meddwl bod arweinydd yr wrthblaid heddiw—efallai ei bod yn briodol—. Mae ychydig yn debycach i Blofeld na Boris heddiw.

On council tax, of course, we can all agree that local people, businesses, partners and workforces must have a say in how public money is spent. But council tax revenues—[Interruption.]

Ar y dreth gyngor, wrth gwrs, gallwn i gyd gytuno bod yn rhaid i bobl, busnesau, partneriaid a gweithluoedd lleol gael llais yn y ffordd y caiff arian cyhoeddus ei wario. Ond nid yw refeniw'r dreth gyngor—[Torri ar draws.]

16:23

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order.

Trefn, trefn.

16:23

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—only make up a small part of a council's total budget. We encourage authorities to engage with their communities on their whole budget to gain the information they need to allocate resources and make decisions. It also helps to raise public awareness of financial challenges. Most councils in Wales engage on the budget-setting process and a handful do this comprehensively. But we recognise there is more to do. That is why the draft Bill will place a new duty to consult communities and partners in the setting of spending priorities for each financial year, before budgets are agreed by the council.

[Yn parhau.]—ond yn rhan fach o gyfanswm cyllideb cyngor. Rydym yn annog awdurdodau i ymgysylltu â'u cymunedau ynglŷn â'u cyllideb gyfan i gael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddyrannu adnoddau a gwneud penderfyniadau. Mae hefyd yn helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o heriau ariannol. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru yn ymgysylltu ar y broses o bennu cyllideb ac mae llond llaw yn gwneud hyn mewn modd cynhwysfawr. Ond rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud. Dyna pam y bydd y Bil drafft yn gosod dyletswydd newydd i ymgynghori â chymunedau a phartneriaid ynghylch pennu blaenoriaethau gwariant ar gyfer pob blwyddyn ariannol, cyn y bydd cyngor yn cytuno ar gyllidebau.

This is a better way for councils and local people to work together than through divisive and confrontational referendums on arbitrary limits. It's also important to mention here that, of course, the English council tax freeze is rapidly becoming something of a national joke. For 2016-17, the Local Government Association in England expects to see average council tax rises of around 3.7 per cent for councils with social care responsibilities.

Mae hon yn ffordd well i gynghorau a phobl leol weithio gyda'i gilydd na thrwy refferenda ymrannol a gwrthdrawiadol ar derfynau mympwyol. Mae hefyd yn bwysig crybwyll yma, wrth gwrs, fod rhewi'r dreth gyngor yn Lloegr yn datblygu'n gyflym i fod yn jôc genedlaethol. Ar gyfer 2016-17, mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn Lloegr yn disgwyl gweld cynnydd cyfartalog yn y dreth gyngor o tua 3.7 y cant i gynghorau sydd â chyfrifoldebau gofal cymdeithasol.

On the issue of empowering local communities, the draft Bill empowers elected members, individuals and communities through the public participation duty, improvement requests, community area committees and extensive reforms relating to empowered community councils, and I can agree with the leader of the opposition on the important role of town and community councils. The provisions in our draft Bill give individuals and communities extensive rights to have their say over council decisions, to set local priorities and get involved in the improvement of services, and this includes the transfer of assets from local authorities to local groups, which, of course, is already taking place across Wales at the present time, and we have published additional guidance on alternative delivery models and, indeed, on community asset transfer.

Ar fater grymuso cymunedau lleol, mae'r Bil drafft yn grymuso aelodau etholedig, unigolion a chymunedau drwy'r ddyletswydd cyfranogiad y cyhoedd, ceisiadau gwella, pwyllgorau ardal cymunedol a diwygiadau helaeth yn ymwneud â chynghorau cymuned wedi'u grymuso, a gallaf gytuno gydag arweinydd yr wrthblaid ynghylch rôl bwysig cynghorau tref a chymuned. Mae'r darpariaethau yn ein Bil drafft yn rhoi hawliau helaeth i unigolion a chymunedau leisio barn ar benderfyniadau cyngor, i bennu blaenoriaethau lleol ac i gymryd rhan yn y broses o wella gwasanaethau, ac mae hyn yn cynnwys trosglwyddo asedau o awdurdodau lleol i grwpiau lleol, sydd, wrth gwrs, eisoes yn digwydd ledled Cymru ar hyn o bryd, ac rydym wedi cyhoeddi canllawiau ychwanegol ar fodelau cyflwyno amgen ac yn wir, ar drosglwyddo asedau cymunedol.

This, however, is different from the market-oriented approach set out in the Localism Act 2011. For example, the right to challenge enables local groups or council staff to bid to run a service, but it does this by exposing them to an open market procurement exercise. This, of course, means more services in the hands of private companies, whose focus is profit, not necessarily the wellbeing of vulnerable people. It means fair terms and conditions replaced by zero-hours contracts and low pay. It means quality care services replaced by 15-minute tick-box exercises. That does not amount to empowerment in my book.

Mae hyn, fodd bynnag, yn wahanol i'r ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y farchnad a nodwyd yn Neddf Lleoliaeth 2011. Er enghraifft, mae'r hawl i herio yn galluogi grwpiau lleol neu staff cyngor i wneud cais i redeg gwasanaeth, ond mae'n gwneud hyn drwy eu cynnwys mewn ymarfer caffael ar y farchnad agored. Mae hyn, wrth gwrs, yn golygu mwy o wasanaethau yn nwylo cwmnïau preifat, sy'n rhoi'r ffocws ar elw, ac nid lles pobl sy'n agored i niwed o reidrwydd. Mae'n golygu bod contractau dim oriau a chyflogau isel yn disodli telerau ac amodau teg. Mae'n golygu bod ymarferion ticio blychau 15 munud o hyd yn disodli gwasanaethau gofal o ansawdd. Nid yw hynny'n gyfystyr â grymuso yn fy marn i.

On the issue of elected mayors, I remind this Chamber that it was a Labour Government that first gave people the opportunity to hold referendums for elected mayors through the Local Government Act 2000, but our position has not changed: it's for local people to decide if they can demonstrate that there is sufficient local support. We set the threshold at 10 per cent, which is a realistic measure of support to trigger a referendum. Compare this with the thresholds in the UK Government's Trade Union Bill, where, for a vote to carry, there must be a 50 per cent turnout and at least 40 per cent of those must vote in favour—a punishingly high barrier that makes a mockery of democracy. A lower threshold than 10 per cent runs the risk of frivolous referendums, and, in the current financial circumstances imposed by the Chancellor, this can't be justified as a good use of public money. The current system is fair and democratic, in contrast with the position in England. There, the UK Government is forcing elected mayors on combined authorities in an undemocratic way, as my colleague, the Member for Cardiff North said, disregarding the views of local people.

Ar fater meiri etholedig, rwy'n atgoffa'r Siambr hon mai Llywodraeth Lafur a roddodd gyfle i bobl yn y lle cyntaf i gynnal refferenda ar gyfer meiri a etholir drwy Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ond nid yw ein safbwynt wedi newid: mater i bobl leol ei benderfynu ydyw os gallant ddangos bod digon o gefnogaeth leol. Rydym yn gosod y trothwy ar 10 y cant, sy'n fesur realistig o gefnogaeth i sbarduno refferendwm. Cymharwch hyn â'r trothwyon ym Mil Undebau Llafur Llywodraeth y DU, sy'n mynnu bod 50 y cant o'r rhai sy'n gymwys i bleidleisio yn pleidleisio er mwyn i bleidlais ennill, a rhaid i o leiaf 40 y cant o'r rheini bleidleisio o blaid—rhwystr poenus o uchel sy'n sarhad ar ddemocratiaeth. Mae trothwy is na 10 y cant yn arwain at risg o gynnal refferenda ar sail wamal, ac yn yr amgylchiadau ariannol presennol a fynnir gan y Canghellor, ni ellir ei gyfiawnhau fel defnydd da o arian cyhoeddus. Mae'r system bresennol yn deg a democrataidd, yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr. Yno, mae Llywodraeth y DU yn gorfodi meiri etholedig ar awdurdodau cyfunol mewn ffordd annemocrataidd, fel y dywedodd fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ogledd Caerdydd, gan anwybyddu barn pobl leol.

We will not be supporting the motion or any of the amendments. We have supported local democracy in Wales, and we will strengthen local democracy in Wales and strengthen local government in the next Assembly.

Ni fyddwn yn cefnogi'r cynnig nac unrhyw un o'r gwelliannau. Rydym wedi cefnogi democratiaeth leol yng Nghymru, a byddwn yn cryfhau democratiaeth leol yng Nghymru ac yn cryfhau llywodraeth leol yn y Cynulliad nesaf.

16:27

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Nick Ramsay to reply to the debate. Nick Ramsay.

Galwaf ar Nick Ramsay i ymateb i'r ddadl. Nick Ramsay.

16:27

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer, and can I thank the Minister for his remarks? I've heard the leader of the opposition described as many things over the years in this Chamber, but I think Blofeld is a new one. I imagine, if there were a white cat in here, it would probably be more comfortable on the Labour front bench, but that's probably another discussion.

Diolch i chi, Lywydd, ac a gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei sylwadau? Rwyf wedi clywed arweinydd yr wrthblaid yn cael ei ddisgrifio fel llawer o bethau dros y blynyddoedd yn y Siambr hon, ond rwy'n meddwl bod Blofeld yn un newydd. Rwy'n dychmygu, pe bai yna gath wen i mewn yma, mae'n debyg y byddai'n fwy cyfforddus ar fainc flaen Llafur, ond testun trafodaeth arall yw hynny, mae'n siŵr.

Can I thank everyone who has contributed to this afternoon's debate, recognising the importance of empowering individuals and community groups to deal with local issues? As Janet Finch-Saunders said in opening this debate this afternoon, this is basically a discussion about real devolution, belief in our communities, how you construct and how you deliver that real devolution that so many of us talk about so much. Yes, this is often about money, but it's about more than money, it's also about the right support and guidance, as Janet Finch-Saunders said, and about issues such as having an available register of community assets and, indeed, community asset transfer, which was referred to by a number of Members.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl y prynhawn yma i gydnabod pwysigrwydd grymuso unigolion a grwpiau cymunedol i ymdrin â materion lleol? Fel y dywedodd Janet Finch-Saunders wrth agor y ddadl y prynhawn yma, yn y bôn mae'n drafodaeth ynghylch datganoli go iawn, cred yn ein cymunedau, sut rydych yn adeiladu a sut rydych yn sicrhau'r datganoli go iawn hwnnw y mae cynifer ohonom yn sôn amdano. Ydy, mae hyn yn aml yn ymwneud ag arian, ond mae'n ymwneud â mwy nag arian, mae hefyd yn ymwneud â'r cymorth a'r arweiniad cywir, fel y dywedodd Janet Finch-Saunders, a materion megis sicrhau bod cofrestr o asedau cymunedol ar gael ac yn wir, trosglwyddo asedau cymunedol, fel y soniodd nifer o Aelodau.

All of our calls today have been made against the backdrop of the enormous uncertainties that are being created by the Welsh Government's local government reorganisation plans—uncertainties that have reverberated around council chambers out there, and which many of us AMs have been involved in, some more than others. Meanwhile, where is a Welsh right to bid in the current Welsh Government approach? Where is Government support for the locally elected mayors that so many Members have referred to this afternoon? Where is support for enhancing our democracy? Directly elected mayors have massive potential to develop local democracy and, whether you are for them or whether you are against them, to simply brush aside the notion that they could play an important role in developing cities such as Cardiff, such as Swansea, and other cities, is not really facing up to the importance of this discussion.

Mae pob un o'n galwadau heddiw wedi'u gwneud yn erbyn cefndir o ansicrwydd enfawr a grëwyd gan gynlluniau ad-drefnu llywodraeth leol Llywodraeth Cymru—ansicrwydd sydd wedi atseinio o gwmpas siambrau cynghorau drwy'r wlad, ac mae llawer ohonom ni, Aelodau'r Cynulliad, wedi bod yn rhan ohono, rai ohonom yn fwy nag eraill. Yn y cyfamser, ble mae'r hawl i wneud cais yng Nghymru yn ymagwedd bresennol Llywodraeth Cymru? Ble mae cefnogaeth y Llywodraeth i feiri a etholir yn lleol y mae cynifer o'r Aelodau wedi cyfeirio atynt y prynhawn yma? Ble mae'r gefnogaeth i wella ein democratiaeth? Mae potensial anferth gan feiri a etholir yn uniongyrchol i ddatblygu democratiaeth leol a pha un a ydych o'u plaid neu yn eu herbyn, mae mynd ati'n syml i ddiystyru'r syniad y gallent chwarae rhan bwysig yn y broses o ddatblygu dinasoedd fel Caerdydd, fel Abertawe, a dinasoedd eraill, yn dangos methiant i wynebu pwysigrwydd y drafodaeth hon.

Simon Thomas supported—well, you did at the end of your speech, anyway, Simon—the enhancement of democracy in name. You did refer to our proposals as narrow-minded. Well, I think you've made that comment about our proposals in the past, so there was no surprise there. But you have to acknowledge that what we are trying to do here is move this debate about local democracy onwards. I think you do seem to have a level of support for Cardiff's choice to have a mayor, or indeed other cities and communities in Wales to have a mayor, if that is their wish. So, I think there was a level of agreement between us there.

Roedd Simon Thomas yn cefnogi—wel, fe wnaethoch ar ddiwedd eich araith, beth bynnag, Simon—gwella democratiaeth mewn enw. Fe gyfeirioch at ein cynigion fel rhai cul. Wel, rwy'n meddwl eich bod wedi gwneud y sylw hwnnw am ein cynigion yn y gorffennol, felly nid oedd hynny'n syndod. Ond rhaid i chi gydnabod mai'r hyn rydym yn ceisio'i wneud yma yw symud y ddadl hon am ddemocratiaeth leol yn ei blaen. Rwy'n credu ei bod yn ymddangos bod gennych lefel o gefnogaeth dros ddewis Caerdydd i gael maer, neu'n wir dros ddewis dinasoedd a chymunedau eraill yng Nghymru i gael maer, os mai dyna yw eu dymuniad. Felly, rwy'n meddwl bod lefel o gytundeb rhyngom ar hynny.

Peter Black, again, was a lot closer to the view on the Conservative benches than first appeared. And Peter, we are not imposing elected mayors on communities; we want to give communities the opportunity to have one if they want. And I do quite agree with you, Peter Black, that Swansea may well benefit from this sort of role; I understand you have to have that discussion with your own group, and that discussion has to be had with the public as well. But I think there's no doubt at all that Swansea could reap massive benefits from having an elected-mayor-type structure.

Roedd Peter Black, unwaith eto, yn llawer agosach at y farn ar feinciau'r Ceidwadwyr na'r hyn a oedd i'w weld ar yr olwg gyntaf. A Peter, nid ydym yn gorfodi meiri etholedig ar gymunedau; rydym am roi'r cyfle i gymunedau gael un os ydynt yn dymuno. Ac rwy'n cytuno'n llwyr â chi, Peter Black, y gallai Abertawe elwa o rôl o'r fath, yn sicr; rwy'n deall bod yn rhaid i chi gael y drafodaeth honno gyda'ch grŵp eich hun, a bod yn rhaid cael y drafodaeth gyda'r cyhoedd hefyd. Ond rwy'n credu nad oes amheuaeth o gwbl y gallai Abertawe fanteisio'n enfawr o gael strwythur tebyg i faer etholedig.

Mark Isherwood said in his comments—right at the end of your contribution, Mark—that we need to design the system backwards, I think you said, and set the people free. Well, who would disagree with that huge gesture?

Dywedodd Mark Isherwood yn ei sylwadau—ar ddiwedd eich cyfraniad, Mark—fod angen i ni gynllunio'r system tuag yn ôl, rwy'n meddwl y dywedoch chi, a rhyddhau'r bobl. Wel, pwy fyddai'n anghytuno â'r fath amcan anferth?

And I have to say I do agree completely with Jenny Rathbone; there is a perception that moving to an elected-mayor structure would create a role that is too powerful, too centralist; there definitely is that perception—you aren't wrong there. What we have to decide is how much of that is the perception and how much of that is actually the truth on the ground. And I'm sure, for one thing, that, actually, they wouldn't be too powerful—that you could construct that role in such a way that a mayor could actually have more benefits than disadvantages. But you're quite right, that would have to be got right at the outset. Mike Hedges.

Ac mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn cytuno'n llwyr â Jenny Rathbone; ceir canfyddiad fod symud at strwythur maer etholedig yn creu rôl sy'n rhy bwerus, yn rhy ganoliaethol; yn bendant mae'r canfyddiad yno—nid ydych yn anghywir ynglŷn â hynny. Yr hyn sy'n rhaid i ni benderfynu yw faint o hynny sy'n ganfyddiad a faint o hynny sy'n wir ar lawr gwlad. Ac rwy'n siŵr, yn un peth, na fyddent yn rhy bwerus—y gallech adeiladu'r rôl honno yn y fath fodd fel y gallai fod mwy o fanteision nag anfanteision i gael maer. Ond rydych yn llygad eich lle, byddai'n rhaid cael hynny'n iawn ar y cychwyn. Mike Hedges.

16:32

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Under the current legislation, if you get an elected mayor, they have full executive responsibility.

O dan y ddeddfwriaeth bresennol, os ydych yn cael maer etholedig, mae ganddynt gyfrifoldeb gweithredol llawn.

16:32

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes, and I think that the point is that, yes, full executive responsibility would be what the current legislation would provide. The point is, though, that you'd still be transferring powers you've got at the moment in another structure. As we know full well from your front benches, the current structure is not overly popular.

Oes, a chredaf mai'r pwynt yw, ie, cyfrifoldeb gweithredol llawn yw'r hyn y byddai'r ddeddfwriaeth bresennol yn ei ddarparu. Fodd bynnag, y pwynt yw y byddech yn dal i fod yn trosglwyddo pwerau sydd gennych ar hyn o bryd mewn strwythur arall. Fel y gwyddom yn iawn o'ch meinciau blaen, nid yw'r strwythur presennol yn rhy boblogaidd.

Can I also quash this idea that this is the wrong time to have this discussion because of local government reorganisation plans? The fact is that the public, as of yet, have not had a chance to comment on the Welsh Government's plans for local government reorganisation. I know that they will shortly—don't worry, Minister; I can see you were going to say that—but this is one way that you could engage the public and could get their view on how we could be constructing local democracy.

A gaf fi hefyd ddiddymu'r syniad mai dyma'r adeg anghywir i gael y drafodaeth hon oherwydd cynlluniau ad-drefnu llywodraeth leol? Y ffaith yw nad yw'r cyhoedd, hyd yn hyn, wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol. Rwy'n gwybod y byddant yn cael cyfle'n fuan—peidiwch â phoeni, Weinidog; gallaf weld eich bod yn mynd i ddweud hynny—ond dyma un ffordd y gallech ymgysylltu â'r cyhoedd a chael eu barn ar sut y gallem adeiladu democratiaeth leol.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair.*

16:32

## Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

So, when are you going to call for a directly elected mayor in Monmouthshire, then?

Felly, pa bryd rydych chi'n mynd i alw am faer a etholir yn uniongyrchol yn Sir Fynwy, felly?

16:33

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Like Peter, I will be having that discussion with my own colleagues back in Monmouthshire, but I think that in Monmouthshire a directly elected mayor could be a very powerful asset, and I suspect that it would be much more popular than your proposal for Monmouthshire, which is simply to wipe it off the face of the map, against all the views of local people in Monmouthshire. So, yes, I'd certainly choose a mayor above that.

Fel Peter, byddaf yn cael y drafodaeth honno gyda fy nghydweithwyr yn ôl yn Sir Fynwy, ond rwy'n meddwl y gallai maer wedi'i ethol yn uniongyrchol yn Sir Fynwy fod yn ased pwerus iawn, ac rwy'n amau y byddai'n llawer mwy poblogaidd na'ch cynnig chi ar gyfer Sir Fynwy, sef yn syml ei thynnu oddi ar wyneb y map, yn erbyn holl farnau'r bobl leol yn Sir Fynwy. Felly, byddwn yn sicr yn dewis maer yn lle hynny.

I think the big fear, Deputy Presiding Officer, behind this debate is that, unlike across the border in England, and indeed in Scotland, the localism agenda is getting lost here in Wales; it's not being adequately pushed forward. I certainly detect a fear on the Labour benches of the sort of democracy that elected mayors and these other innovations represent. And I can understand to a certain extent why there are fears like that, but I think it's time for all of us to face up to the fact that we need, overall for our democracy, to do it in a way which is attractive and acceptable to the people of Wales, and what better way than giving them the right to be involved?

Rwy'n meddwl mai'r ofn mawr, Ddirprwy Lywydd, sy'n sail i'r ddadl hon yw bod agenda lleoliaeth, yn wahanol i dros y ffin yn Lloegr, ac yn wir yn yr Alban, yn mynd ar goll yma yng Nghymru; nid yw'n cael ei hyrwyddo'n ddigonol. Rwy'n sicr yn canfod ofn ar y meinciau Llafur ynghylch y math o ddemocratiaeth y mae meiri a etholir a'r syniadau arloesol eraill hyn yn eu cynrychioli. A gallaf ddeall i ryw raddau pam y ceir ofnau o'r fath, ond rwy'n meddwl ei bod yn bryd i bob un ohonom wynebu'r ffaith fod angen i ni, yn gyffredinol er mwyn ein democratiaeth, ei wneud mewn ffordd sy'n ddeniadol ac yn dderbyniol i bobl Cymru, a pha ffordd well na rhoi hawl iddynt gymryd rhan?

As Andrew Davies said, there is an economic dimension here, and we have many discussions about the city region project in this Chamber. This could be a vital aspect of the city region project; why are we seeing it in isolation to that? It's a way of enhancing local identity, it's a way of involving the people and it's a way of pushing forward economic regional development. And above all, Deputy Presiding Officer, it's about local accountability.

Fel y dywedodd Andrew Davies, ceir dimensiwn economaidd yma, ac rydym yn cael llawer o drafodaethau am y prosiect dinas-ranbarth yn y Siambr hon. Gallai hon fod yn agwedd hanfodol o'r prosiect dinas-ranbarth; pam rydym yn ei weld ar wahân i hynny? Mae'n ffordd o wella hunaniaeth leol, mae'n ffordd o gynnwys y bobl ac mae'n ffordd o wthio datblygu rhanbarthol economaidd yn ei flaen. Ac yn bennaf oll, Ddirprwy Lywydd, mae'n ymwneud ag atebolrwydd lleol.

I urge Members to support this motion today. It has been brought forward as a way of opening and continuing a debate on the value of local democracy. As Mark Isherwood said, 'Let the people decide, set the people free.'

Anogaf yr Aelodau i gefnogi'r cynnig hwn heddiw. Cafodd ei gyflwyno fel ffordd o agor a pharhau dadl ar werth democratiaeth leol. Fel y dywedodd Mark Isherwood, 'Gadewch i'r bobl benderfynu, rhyddhewch y bobl.'

16:34

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I'll defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

16:34

## 7. Cyfnod Pleidleisio

## 7. Voting Time

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we'll vote first on the Committee of the Regions report. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. Voted in favour 43, voted against four, there was one abstention. Therefore, amendment 1 is agreed.

Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes, felly pleidleisiwn yn gyntaf ar adroddiad Pwyllgor y Rhanbarthau. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 43 o blaid, pleidleisiodd 4 yn erbyn, roedd 1 yn ymatal. Felly, derbyniwyd gwelliant 1.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 43, Yn erbyn 4, Ymatal 1.*

*Amendment agreed: For 43, Against 4, Abstain 1.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5925.

Result of the vote on motion amendment 1 to motion NDM5925.

16:35

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi adroddiad Pwyllgor y Rhanbarthau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ionawr 2016.

1. Notes the Committee of the Regions' report to the National Assembly for Wales, laid in the Table Office on 15 January 2016.

2. Yn credu y dylai Cymru a'r DU barhau i fod yn aelodau o'r UE ac yn penderfynu meithrin deialog gadarnach gyda sefydliadau Ewropeaidd fel Pwyllgor y Rhanbarthau.

2. Believes that Wales and the UK should remain members of the EU and resolves to build a stronger dialogue with European institutions such as the Committee of the Regions.

16:35

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. Voted in favour 43, voted against four, there was one abstention. Therefore, the motion as amended is agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 43 o blaid, pleidleisiodd 4 yn erbyn, roedd 1 yn ymatal. Felly, derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

*Derbyniwyd cynnig NDM5925 fel y'i diwygiwyd: O blaid 43, Yn erbyn 4, Ymatal 1.*

*Motion NDM5925 as amended agreed: For 43, Against 4, Abstain 1.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5925 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5925 as amended.

16:35

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We'll now vote on the Welsh Conservatives debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. Voted in favour 11, voted against 37. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na dderbynnir y cynnig, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid, pleidleisiodd 37 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 11, Yn erbyn 37, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 11, Against 37, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5976.

Result of the vote on motion NDM5976.

16:36

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We'll now vote on the amendments. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. Voted in favour eight, voted against 40. Therefore, amendment 1 is not agreed.

Pleidleisiwn ar y gwelliannau yn awr. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 8 o blaid, pleidleisiodd 40 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 1.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 8, Yn erbyn 40, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 8, Against 40, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5976.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5976.

16:36

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. Voted in favour five, voted against 35, there were eight abstentions. Therefore, amendment 2 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 5 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn, roedd 8 yn ymatal. Felly, gwrthodwyd gwelliant 2.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 5, Yn erbyn 35, Ymatal 8.*

*Amendment not agreed: For 5, Against 35, Abstain 8.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5976.

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5976.

16:37

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. Voted in favour 13, voted against 35. Therefore, amendment 3 is not agreed, and nothing is agreed under that motion.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 13 o blaid, pleidleisiodd 35 yn erbyn. Felly, gwrthodwyd gwelliant 3, ac ni dderbyniwyd dim o dan y cynnig hwnnw.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 13, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 13, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5976.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5976.

16:37

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would ask all Members who are leaving the Chamber to do so quickly and quietly.

Hoffwn ofyn i'r holl Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

16:38

# 8. Dadl Fer: Darparu ar gyfer Canolbarth Cymru—Pam fod Angen Signal Ffonau Symudol Cyffredinol i Drawsnewid Economi Canolbarth Cymru

# 8. Short Debate: Mobilising Mid Wales—Why Universal Mobile Coverage is Needed to Transform the Mid Wales Economy

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 8 is the short debate, and I call on Russell George to speak on the topic he has chosen.

Eitem 8 yw'r ddadl fer, a galwaf ar Russell George i siarad ar y pwnc y mae wedi'i ddewis.

16:38 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am pleased to be able to introduce this short debate on why universal mobile coverage is needed to transform the mid Wales economy. I'm pleased to give a minute of my time to Kirsty Williams and Elin Jones.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o allu cyflwyno'r ddadl fer hon ar pam fod angen signal ffonau symudol cyffredinol i drawsnewid economi canolbarth Cymru. Rwy'n falch o roi munud o fy amser i Kirsty Williams ac Elin Jones.

Not so long ago, the lack of mobile coverage in parts of mid and west Wales was applauded by Visit Wales as a reason to escape the intrusions of modern life. In its advert, it celebrated Wales as the land of notoriously bad mobile coverage. Today, a decade on from this now infamous advert, efforts to improve mobile coverage have now taken a step forward, but there are still swathes of mid Wales that suffer from no mobile coverage at all, leaving people unable to make calls or send texts, an essential element of modern life. This is clearly having a detrimental effect on rural Wales and we can no longer celebrate the lack of mobile coverage as a reason to visit or live in Wales. In fact, the opposite is true. Mobile phones have become an essential part of people's lives and investment in world-class mobile infrastructure is fundamental for Wales to compete on the world stage.

Heb fod mor bell yn ôl â hynny, roedd diffyg signal ffonau symudol mewn rhannau o ganolbarth a gorllewin Cymru yn cael ei ganmol gan Croeso Cymru fel rheswm i ddianc rhag ymyrraeth bywyd modern. Yn ei hysbyseb, dathlai Gymru fel gwlad lle roedd signal ffonau symudol yn nodedig o wael. Heddiw, ddegawd ers yr hysbyseb enwog hwn, mae ymdrechion i wella signal ffonau symudol bellach wedi cymryd cam ymlaen, ond mae rhannau o ganolbarth Cymru sy'n dal i ddioddef o fod heb unrhyw signal ffôn symudol o gwbl, gan olygu bod pobl yn methu â gwneud galwadau neu anfon negeseuon testun, elfen hanfodol o fywyd modern. Mae hyn yn amlwg yn cael effaith niweidiol ar gefn gwlad Cymru a mwyach ni allwn ddathlu diffyg signal ffôn symudol fel rheswm dros ymweld â Chymru neu i fyw yng Nghymru. Mewn gwirionedd, mae'r gwrthwyneb yn wir. Mae ffonau symudol wedi dod yn rhan hanfodol o fywydau pobl ac mae buddsoddi mewn seilwaith symudol o safon fyd-eang yn hanfodol i Gymru allu cystadlu ar lwyfan y byd.

Ofcom research has identified a number of wide-ranging consequences of poor coverage, including the day-to-day inconvenience on personal and business arrangements, the effect on the social connectedness of communities and issues surrounding the potential impact to health and safety.

Mae ymchwil gan Ofcom wedi nodi nifer o ganlyniadau pellgyrhaeddol signal gwael, gan gynnwys anghyfleustra o ddydd i ddydd o ran trefniadau personol a busnes, yr effaith ar gysylltedd cymdeithasol cymunedau a materion yn ymwneud â'r effaith bosibl i iechyd a diogelwch.

The mobile phone is now considered an indispensable business tool and the relative lack of mobile coverage in rural Wales compared to towns and cities is forcing some businesses to consider relocation as the only way in which they can compete in the modern economy that is so dependent on mobile connectivity. Some people also fear coverage issues may impact on tourism, putting people off visiting mid and west Wales for a second or third time if their previous experience has been marred by poor mobile coverage.

Ystyrir bod ffôn symudol bellach yn offeryn busnes anhepgor ac mae'r diffyg cymharol o signal ffonau symudol yng nghefn gwlad Cymru o gymharu â threfi a dinasoedd yn gorfodi rhai busnesau i ystyried adleoli fel yr unig ffordd y gallant gystadlu yn yr economi fodern sydd mor ddibynnol ar gysylltedd symudol. Mae rhai pobl hefyd yn ofni y gall materion yn ymwneud â signal effeithio ar dwristiaeth, gan achosi i bobl beidio ag ymweld â chanolbarth a gorllewin Cymru am yr ail neu'r trydydd tro os difethwyd eu profiad blaenorol gan signal ffôn symudol gwael.

In 2011, in an effort to end the mobile notspots, the UK Government launched the mobile infrastructure project, which was designed to improve mobile connectivity in remote rural areas through the construction of 600 masts across the UK, which would help create local jobs and contribute to economic growth in rural communities.

Yn 2011, mewn ymdrech i roi diwedd ar fannau gwan signalau ffôn symudol, lansiodd Llywodraeth y DU y prosiect seilwaith symudol, a gynlluniwyd i wella cysylltedd symudol mewn ardaloedd gwledig anghysbell drwy godi 600 o fastiau ar draws y DU, a fyddai'n helpu i greu swyddi lleol a chyfrannu at dwf economaidd mewn cymunedau gwledig.

Powys was due to be prioritised in phase 1 of this project. However, progress has been slow and I understand that only one site in Powys has started. It is fully expected that the project, which provided much hope to thousands of residents in Powys, will be shelved in March due to the number of unexpected challenges. I have to say that's very disappointing news. However, there are a number of ways in which Government can assist the improvement of mobile coverage and I would like to see the Welsh Government—or I should say a future Welsh Government—play its part in making this a reality for Welsh residents.

Roedd Powys i fod i gael ei blaenoriaethu yng ngham 1 y prosiect hwn. Fodd bynnag, mae'r cynnydd wedi bod yn araf ac rwy'n deall mai un safle'n unig sydd wedi'i ddechrau ym Mhowys. Y disgwyliad pendant yw y bydd y prosiect, a roddodd lawer o obaith i filoedd o drigolion ym Mhowys, yn cael ei ohirio ym mis Mawrth oherwydd nifer yr heriau annisgwyl. Mae'n rhaid i mi ddweud bod hynny'n newyddion siomedig iawn. Fodd bynnag, mae yna nifer o ffyrdd y gall y Llywodraeth gynorthwyo i wella signal ffonau symudol a hoffwn weld Llywodraeth Cymru—neu dylwn ddweud Llywodraeth Cymru yn y dyfodol—yn chwarae ei rhan yn gwireddu hyn i drigolion Cymru.

Last year, I was pleased to be able to welcome all four mobile network operators to my Montgomeryshire constituency, so that they could hear directly from community leaders about the day-to-day difficulties that residents experience when trying to make simple phone calls or send a text message. Back in November and December of last year, I had hundreds of complaints about poor customer service and service deteriorating in coverage in the Newtown area as a result of the decommissioning of mobile masts, following a mast-sharing agreement between EE and Three.

Y llynedd, roeddwn yn falch o allu croesawu'r pedwar gweithredwr rhwydwaith ffôn symudol i fy etholaeth yn Sir Drefaldwyn, er mwyn iddynt glywed yn uniongyrchol gan arweinwyr cymunedol am yr anawsterau o ddydd i ddydd y bydd trigolion yn eu profi wrth geisio gwneud galwadau ffôn syml neu anfon neges destun. Yn ôl ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr y llynedd, cefais gannoedd o gwynion am wasanaeth gwael i gwsmeriaid a gwasanaeth yn gwaethygu mewn perthynas â'r signal yn ardal y Drenewydd yn sgil datgomisiynu mastiau ffôn symudol, yn dilyn cytundeb rhannu mastiau rhwng EE a Three.

In recent years, we have heard a lot of talk about the launch of new 4G services and new network sharing arrangements between the operators, which were supposed to have improved coverage and speeds. But the reality, I'm afraid, in some rural areas, is that mobile coverage has actually got worse. In other areas of Montgomeryshire, there have been issues of no coverage at all from any operator in areas, for example, like Staylittle, and I'm pleased that operators have provided assurances that there are plans afoot to improve coverage in some rural areas of Montgomeryshire, such as Llanfyllin and Abermule, in the near future.

Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi clywed llawer o siarad am lansio gwasanaethau 4G newydd a threfniadau rhannu rhwydwaith newydd rhwng y gweithredwyr, a oedd fod i wella signal a chyflymder. Ond y gwir amdani, yn anffodus, mewn rhai ardaloedd gwledig, yw bod y signal symudol wedi gwaethygu mewn gwirionedd. Mewn ardaloedd eraill o Sir Drefaldwyn, cafwyd problemau gyda dim signal o gwbl gan unrhyw weithredwr mewn rhai ardaloedd, er enghraifft, Penffordd-las, ac rwy'n falch fod gweithredwyr wedi rhoi sicrwydd fod cynlluniau ar y gweill i wella'r signal mewn rhai o ardaloedd gwledig Sir Drefaldwyn, megis Llanfyllin ac Aber-miwl, yn y dyfodol agos.

At the meeting in November, all four operators confirmed that determined action from Government and the regulator, Ofcom, was needed to tackle the barriers to infrastructure investment if coverage is to improve. First, reform of the electronic communications code—the ECC—governs the rights of operators to access, upgrade and maintain sites, and has been under review since 2011. The code is over 30 years old and needs reform to enable investment in the mobile network infrastructure in rural areas. Once reformed, I think the code will provide a modern regulatory system for mobile infrastructure that delivers the very best deal for UK customers.

Yn y cyfarfod ym mis Tachwedd, cadarnhaodd pob un o'r pedwar gweithredwr fod angen gweithredu penderfynol gan y Llywodraeth a'r rheoleiddiwr, Ofcom, i fynd i'r afael â'r rhwystrau i fuddsoddiad yn y seilwaith os yw'r signal i wella. Yn gyntaf, mae diwygio'r cod cyfathrebu electronig—yr ECC—yn llywodraethu hawliau gweithredwyr i fynd i safleoedd, i'w huwchraddio a'u cynnal, ac mae wedi bod dan arolwg ers 2011. Mae'r cod dros 30 mlwydd oed ac mae angen ei ddiwygio er mwyn galluogi buddsoddiad yn seilwaith y rhwydwaith ffonau symudol mewn ardaloedd gwledig. Ar ôl ei ddiwygio, rwy'n credu y bydd y cod yn darparu system reoleiddio fodern ar gyfer seilwaith symudol sy'n cynnig y fargen orau bosibl i gwsmeriaid yn y DU.

The proposed reforms would, I think, also ensure that they are better able to build new sites through a more competitive site rental regime, especially in more rural areas and would clear the way for operators to share sites in more areas. It will also help to ensure that fairer rents are paid on rural sites through the introduction of a rental regime similar to that in the energy market. And, while this is predominantly a matter for the UK Government, which, I have to say, I have lobbied hard on this, the Welsh Government can also play a part in facilitating this reform by urging the UK Government also to undertake reform without further delay.

Byddai'r diwygiadau arfaethedig, rwy'n meddwl, yn sicrhau hefyd eu bod yn gallu mynd ati'n well i adeiladu safleoedd newydd drwy drefniadau rhentu safleoedd mwy cystadleuol, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig a byddai'n ei gwneud hi'n bosibl i weithredwyr rannu safleoedd mewn mwy o ardaloedd. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod rhenti tecach yn cael eu talu ar safleoedd gwledig drwy gyflwyno trefn rentu debyg i'r un yn y farchnad ynni. Ac er mai mater i Lywodraeth y DU yw hyn yn bennaf, ac mae'n rhaid i mi ddweud fy mod wedi'i lobïo'n galed ar hyn, gall Llywodraeth Cymru hefyd chwarae rhan yn hwyluso'r broses o ddiwygio drwy annog Llywodraeth y DU hefyd i ddiwygio heb oedi pellach.

Another way in which mobile coverage could be improved is to mandate mobile roaming. I know that the UK Government has previously brought forward proposals to allow phones to search for another network when their own network is unavailable and compel mobile operators to share their infrastructure. I know that mobile phone operators were vehemently against roaming, but I still think that sharing mobile infrastructure could be a practical solution to solving partial notspots, and that progress on making this a reality could make a significant difference to the people living and working in rural areas of mid Wales. It surely can't be right that somebody from France with a French SIM card working or holidaying in Wales has the ability to roam between service operators, ensuring unbroken connectivity, when someone resident here does not.

Ffordd arall y gellid gwella'r signal symudol yw gwneud crwydro symudol yn orfodol. Gwn fod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno cynigion yn flaenorol i ganiatáu i ffonau chwilio am rwydwaith arall pan na fydd eu rhwydwaith eu hunain ar gael ac yn cymell gweithredwyr ffonau symudol i rannu eu seilwaith. Gwn fod gweithredwyr ffonau symudol yn ffyrnig yn erbyn crwydro, ond rwy'n dal i feddwl y gallai rhannu seilwaith symudol fod yn ateb ymarferol i ddatrys mannau gwan rhannol, ac y gallai cynnydd ar wireddu hyn wneud gwahaniaeth sylweddol i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd gwledig yng nghanolbarth Cymru. Ni all fod yn iawn fod rhywun o Ffrainc gyda cherdyn SIM Ffrengig sy'n gweithio neu ar wyliau yng Nghymru yn gallu crwydro rhwng gweithredwyr gwasanaethau, gan sicrhau cysylltedd di-dor, pan na all rhywun sy'n byw yma wneud hynny.

I understand that experts on Ofcom's advisory committee for Wales are also not convinced that market forces will alone encourage operators to solve remaining notspots. Furthermore, mobile must be genuinely mobile. How can it be right that a service provider is obliged to achieve static targets for mobile coverage on individual houses or businesses, yet, when you drive five minutes up the road, that signal is lost, although that particular area is covered by another operator?

Deallaf hefyd nad yw arbenigwyr ar bwyllgor ymgynghorol Ofcom ar gyfer Cymru yn argyhoeddedig y bydd grymoedd y farchnad ar eu pen eu hunain yn annog gweithredwyr i ddatrys y mannau gwan sydd ar ôl. Ar ben hynny, mae'n rhaid i symudol fod yn wirioneddol symudol. Sut y gall fod yn iawn fod darparwr gwasanaeth yn gorfod cyrraedd targedau sefydlog ar gyfer signal ffonau symudol i dai neu fusnesau unigol, ac eto, pan fyddwch yn gyrru bum munud i fyny'r ffordd, caiff y signal ei golli, er bod signal gweithredwr arall ar gael yn yr ardal benodol honno?

Finally, there are measures that the Welsh Government can take to review its planning framework to facilitate the roll-out of mobile infrastructure. All mobile network operators have expressed the view that, if the necessary mobile infrastructure is to be rolled out across rural areas of Wales, they must be permitted to do so by local planning authorities through more flexible planning regulation. Where there is demand and local agreement from the community, planning policies should be sufficiently flexible to allow this to occur. I would, therefore, be grateful for a commitment from the Welsh Government to examine whether the planning framework can be reformed to increase permitted development to a height of 25m and allow a 5m increase in mast height in non-protected areas, which are two changes that mobile operators say will result in a significant improvement in mobile coverage.

Yn olaf, mae yna gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i adolygu ei fframwaith cynllunio i hwyluso'r broses o gyflwyno seilwaith symudol. Mae'r holl weithredwyr rhwydweithiau symudol wedi mynegi'r farn, os yw'r seilwaith symudol angenrheidiol yn mynd i gael ei gyflwyno ar draws ardaloedd gwledig Cymru, mae'n rhaid iddynt gael caniatâd i wneud hynny gan awdurdodau cynllunio lleol drwy reoleiddio cynllunio mwy hyblyg. Lle y bo galw a chytundeb lleol y gymuned, dylai polisïau cynllunio fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i hyn ddigwydd. Byddwn yn ddiolchgar felly am ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i archwilio a ellir diwygio'r fframwaith cynllunio er mwyn cynyddu datblygiadau a ganiateir i uchder o 25m a chaniatáu cynnydd o 5m yn uchder mastiau mewn ardaloedd heb eu diogelu, sef y ddau newid y mae gweithredwyr ffonau symudol yn dweud y byddant yn arwain at welliant sylweddol yn signal ffonau symudol.

In conclusion, Deputy Presiding Officer, through a reform of the electronic communications code, greater co-operation between network operators and reform of the planning regime, Wales will have the best chance to become a land of notoriously good mobile coverage. I call on the next Welsh Government, whoever that may be, to make a commitment to achieving the vision of universal mobile coverage to transform the mid-Wales economy.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, drwy ddiwygio'r cod cyfathrebu electronig, mwy o gydweithredu rhwng gweithredwyr rhwydwaith a diwygio'r gyfundrefn gynllunio, bydd Cymru yn cael y cyfle gorau i ddod yn wlad sy'n enwog am ei signal ffonau symudol da. Rwy'n galw ar Lywodraeth nesaf Cymru, pwy bynnag y bydd, i ymrwymo i wireddu'r weledigaeth o signal ffonau symudol cyffredinol i drawsnewid economi canolbarth Cymru.

16:47

## Kirsty Williams [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Could I thank the Member for tabling this afternoon's debate? I share with him the disappointment of the decision by the Westminster Government to shelve the investment in the mobile infrastructure project when it has, in fact, delivered so little and the problems remain for many people in parts of Wales. Only today, the Parliamentary Under-Secretary of State for the Welsh Office was claiming that the 4G auction was going to solve Wales's mobile phone problems. I am less confident, and I'd be grateful to hear from the Minister whether she feels that the 4G auction will, indeed, solve our issues, and whether the Minister would agree with me that, apart from the economic development case, which has been well articulated here this afternoon by the Member, there are significant issues around safety for people who cannot access a mobile phone signal. There are large stretches of our trunk road networks, some of which are notorious accident black spots, where you cannot alert the emergency services to an accident. So, this is not just about economic development, which is highly important, but also there are significant safety issues for many people, including those living and working in rural areas who cannot alert the emergency services should they need to in the case of an accident, either on the road or in rural communities.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod am gyflwyno'r ddadl y prynhawn yma? Rwy'n rhannu ei siom ynghylch penderfyniad Llywodraeth San Steffan i ohirio'r buddsoddiad yn y prosiect seilwaith symudol ar ôl cyflwyno cyn lleied mewn gwirionedd ac mae'r problemau'n parhau i lawer o bobl mewn rhannau o Gymru. Heddiw ddiwethaf, roedd yr Is-Ysgrifennydd Gwladol ar ran y Swyddfa Gymreig yn honni bod arwerthiant 4G yn mynd i ddatrys problemau ffonau symudol Cymru. Rwy'n llai hyderus, a byddwn yn ddiolchgar o glywed gan y Gweinidog a yw'n teimlo y bydd arwerthiant 4G yn datrys ein problemau mewn gwirionedd, ac a fyddai'r Gweinidog yn cytuno, ar wahân i'r achos datblygu economaidd a fynegwyd yn dda yma y prynhawn yma gan yr Aelod, fod yna broblemau sylweddol ynghylch diogelwch i bobl nad ydynt yn gallu cael signal ffôn symudol. Mae rhannau mawr o'n rhwydweithiau cefnffyrdd, a rhai ohonynt yn enwog am eu mannau drwg am ddamweiniau, lle na allwch roi gwybod i'r gwasanaethau brys fod damwain wedi digwydd. Felly, mae'n ymwneud â mwy na datblygu economaidd, sy'n bwysig iawn, ond hefyd mae yna faterion diogelwch sylweddol i lawer o bobl, gan gynnwys rhai sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd gwledig nad ydynt yn gallu rhoi gwybod i'r gwasanaethau brys am ddamwain pe bai angen, naill ai ar y ffordd neu mewn cymunedau gwledig.

16:49

## Elin Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Diolch i'r Aelod am gyflwyno'r ddadl yma. Mae'r rhwystredigaeth yn parhau yn y canolbarth ynglŷn â'r diffyg cynnydd mewn signal ffonau symudol. Wrth gwrs, fe godwyd disgwyliadau, fel sydd wedi cael eu nodi, gan fwriad Llywodraeth San Steffan i gyflwyno'r 'mobile infrastructure project' yn fy etholaeth i. Fe fyddai hynny wedi codi wyth o fastiau ychwanegol, ond, mewn gwirionedd, dim ond un o'r rheini fydd yn cael ei gyflawni'n awr. Mae'n siomedig dros ben bod Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi penderfynu rhoi fyny ar y buddsoddiad yma a allai fod wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i 'coverage' ffôn symudol.

I thank the Member for putting forward this debate. The frustration continues in mid Wales regarding the lack of progress in the improvement of mobile phone signal. Of course, expectations were raised, as has been noted, by the Westminster Government's intention to introduce the mobile infrastructure project in my constituency. That would have raised eight additional masts, but, truth be told, only one of those will be provided. It's extremely disappointing that the UK Government has decided to give up on that investment that could have made a genuine difference to mobile phone coverage.

Un gŵyn gyson arall sydd yn dod ataf i nawr yw—nid cwynion yn unig gan bobl sydd yn derbyn dim 'mobile phone coverage' ond hefyd pobl sydd yn gweld, mewn ambell i gymuned, dirywiad yn eu signal ffôn symudol nhw. Mae'r cwmnïau yn gwadu bod y dirywiad yma yn digwydd ond, yn sicr iawn, yng Ngheredigion, mae yna ddirywiad signal ffôn gan rai o'r cwmnïau mewn rhai o'r ardaloedd. Efallai y byddai'r Dirprwy Weinidog yn barod i godi'r mater yma o ran tryloywder y wybodaeth i bobl ynglŷn â pherfformiad ac unrhyw ddirywiad yn y signal ffôn, achos, yn sicr, mae'n gŵyn gyson rwyf wedi dod ar ei thraws yn ystod y 18 mis i ddwy flynedd ddiwethaf yma.

One regular complaint that is made to me now is—not complaints just by those people who receive no mobile phone coverage but those people who see, in some communities, a deterioration in their mobile phone signal. The operators deny that this deterioration is happening, but, certainly, in Ceredigion, there has been a mobile phone signal deterioration by some companies in some areas. Perhaps the Deputy Minister would be willing to raise this matter in terms of the transparency of information available to people about the performance and any deterioration in the mobile phone signal, because, certainly, it is a complaint that has been made regularly to me over the past 18 months to two years.

16:50

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call the Deputy Minister for Skills and Technology to reply—Julie James.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg i ateb—Julie James.

16:50 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I, too, welcome this debate in the Chamber tonight and I just need, of course, to point out to our audience that telecommunications policy is not devolved to Wales, although I know everybody in the Chamber already knows that. Consequently, we're quite frustrated in our ability to do some things. It's quite clear that competition has failed in terms of the availability of service for both voice and data coverage across Wales, and we agree that Government intervention is needed to put that right.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf hefyd yn croesawu'r ddadl hon yn y Siambr heno ac mae angen i mi dynnu sylw ein cynulleidfa, wrth gwrs, nad yw polisi telathrebu wedi'i ddatganoli i Gymru, er fy mod yn gwybod bod pawb yn y Siambr eisoes yn gwybod hynny. O ganlyniad, rydym yn eithaf rhwystredig yn ein gallu i wneud rhai pethau. Mae'n gwbl glir fod cystadleuaeth wedi methu o ran argaeledd signal llais a data ar draws Cymru, ac rydym yn cytuno bod angen i'r Llywodraeth ymyrryd i unioni hynny.

We're very, very disappointed, as is everybody else in the Chamber, with the failure of the mobile network operators' announcements for Wales. We were expecting up to 88 masts in Wales to be delivered, and now we know that that will actually only deliver a maximum of nine masts. So, that's very disappointing indeed.

Rydym yn, siomedig tu hwnt, fel y mae pawb arall yn y Siambr, ynghylch methiant cyhoeddiadau gweithredwyr rhwydweithiau ffonau symudol ar gyfer Cymru. Roeddem yn disgwyl gweld hyd at 88 o fastiau yn cael eu darparu yng Nghymru, ac yn awr rydym yn gwybod na fydd hynny mewn gwirionedd ond yn darparu uchafswm o naw mast yn unig. Felly, mae hynny'n siomedig iawn yn wir.

In terms of the 4G licence, we are told that the coverage obligation is for at least 95 per cent of the population of Wales by 2017. We have pushed them to say that they will also cover—well, we've asked for 98 per cent coverage of the landmass of Wales and that conversation is an ongoing conversation. We have been told that they're looking at that and so on. However, even that would still leave areas of Wales with access to only one mobile network and in some places still no mobile network. But we can't wait for 2017 to see where those notspots are going to be, and I think there are some things we can do to ensure that coverage is as wide as it possibly can be.

O ran y drwydded 4G, dywedir mai'r rhwymedigaeth yw sicrhau signal i 95 y cant fan lleiaf o boblogaeth Cymru erbyn 2017. Rydym wedi'u gwthio i ddweud y byddent hefyd yn darparu signal—wel, rydym wedi gofyn am signal i 98 y cant o dir Cymru ac mae'r drafodaeth honno'n un barhaus. Dywedwyd wrthym eu bod yn edrych ar hynny ac yn y blaen. Fodd bynnag, byddai hyd yn oed hynny'n dal i adael ardaloedd yng Nghymru lle na fyddai ond un rhwydwaith ffôn symudol, a dim rhwydwaith symudol o gwbl mewn rhai mannau o hyd. Ond ni allwn aros tan 2017 i weld lle y bydd y mannau gwan hynny, ac rwy'n meddwl bod rhai pethau y gallwn eu gwneud i sicrhau bod y signal mor eang ag y gall fod.

The first was pointed out by Russell George in his contribution, which is the changes to the electronic communications code. We welcome the proposal to reform the code. We agree that in its current state it is very, very complex. We are waiting for the UK Government to come forward with two further legislative proposals and there are two key issues that we want to see covered by that. Those are: coverage for areas without or with very poor mobile coverage, but also the need to ensure roaming, as has been discussed, because we have a real problem if we're only going to have partial coverage right across Wales. It is ironic that if you've got a phone registered in France, for example, you can roam between operators, but if you've got one registered in Britain, you can't. That's a clear nonsense and I know I'm not alone in this Chamber in carrying several phones in my pocket because, quite often, when I'm out and about, one of them works and the other one doesn't and so on. It's a complete nonsense to do that.

Nododd Russell George y peth cyntaf yn ei gyfraniad, sef y newidiadau i'r cod cyfathrebu electronig. Rydym yn croesawu'r cynnig i ddiwygio'r cod. Rydym yn cytuno ei fod yn gymhleth tu hwnt yn ei gyflwr presennol. Rydym yn aros i Lywodraeth y DU gyflwyno dau gynnig deddfwriaethol pellach ac mae dau fater allweddol rydym am eu gweld yn cael eu cynnwys yn hynny, sef: signal i ardaloedd heb signal ffonau symudol neu signal symudol gwael iawn, ond hefyd yr angen i sicrhau crwydro, fel y trafodwyd, gan fod gennym broblem wirioneddol os mai signal rhannol fydd gennym ledled Cymru. Mae'n eironig meddwl, os oes gennych ffôn a gofrestrwyd yn Ffrainc, er enghraifft, eich bod yn gallu crwydro rhwng gweithredwyr, ond os oes gennych un a gofrestrwyd ym Mhrydain, ni allwch wneud hynny. Mae hynny'n amlwg yn nonsens ac rwy'n gwybod nad fi yw'r unig yn y Siambr hon sy'n cario nifer o ffonau yn fy mhoced oherwydd, yn aml iawn, pan af allan, mae un yn gweithio ond nid yw'r llall, ac yn y blaen. Mae'n nonsens llwyr i wneud hynny.

So, we need a regulatory intervention to yield a sustainable, long-term impact for us, and we have pushed the UK Government to consider that on a geographical basis for all of the reasons that have been pointed out in the Chamber. We've also pushed them to allow network operators to access the fibre network to provide a connection back to their networks, which is one of their problems. It's not just the masts, it's about the data transfer back to their own networks. There is the opportunity to create a class of price-regulated fibre access for use by the mobile operators, and that case is strengthened by the significant investment in public funds in rolling out the fibre network in the first place. We feel very strongly that the mobile network should be allowed to take advantage of the public investment.

Felly, mae angen ymyrraeth reoleiddiol i sicrhau effaith hirdymor a chynaliadwy i ni, ac rydym wedi gwthio Llywodraeth y DU i ystyried hynny ar sail ddaearyddol am bob un o'r rhesymau a nodwyd yn y Siambr. Rydym hefyd wedi'i gwthio i ganiatáu i weithredwyr rhwydwaith gael mynediad i'r rhwydwaith ffeibr i ddarparu cysylltiad yn ôl i'w rhwydweithiau, sy'n un o'u problemau. Nid yw'n ymwneud â mastiau'n unig, mae'n ymwneud â throsglwyddo data yn ôl i'w rhwydweithiau eu hunain. Mae yna gyfle i greu dosbarth o fynediad ffeibr a phris wedi'i reoleiddio i'w ddefnyddio gan y gweithredwyr ffonau symudol, a chryfheir yr achos hwnnw gan y buddsoddiad sylweddol o arian cyhoeddus tuag at gyflwyno'r rhwydwaith ffeibr yn y lle cyntaf. Rydym yn teimlo'n gryf iawn y dylid caniatáu i'r rhwydwaith symudol fanteisio ar y buddsoddiad cyhoeddus.

Also, we think that there should be price-regulated access to that to make investment a more attractive proposition for the mobile operators, but we, too, have encountered the mobile operators' reluctance to share infrastructure across the whole of the markets, and so we think that Ofcom should interfere in that, and we've pushed for that quite heavily. We think the price regulation also helps encourage third party wholesale infrastructure providers to invest, in terms of rolling the network out, if they can access more than one operator. So, we think that Ofcom should consider price regulation for rural areas very carefully and also build geographical coverage obligations into future spectrum auctions for obvious reasons to everybody here.

Hefyd, credwn y dylid cael mynediad a phris wedi'i reoleiddio at y rhwydwaith hwnnw i wneud buddsoddiad yn gynnig mwy deniadol i'r gweithredwyr ffonau symudol, ond rydym ninnau hefyd wedi profi amharodrwydd y gweithredwyr ffonau symudol i rannu seilwaith ar draws y marchnadoedd, ac felly credwn y dylai Ofcom ymyrryd yn hynny, ac rydym wedi gwthio am hynny'n eithaf cadarn. Rydym yn credu y bydd rheoleiddio prisiau hefyd yn helpu i annog darparwyr seilwaith cyfanwerthu trydydd parti i fuddsoddi, o ran cyflwyno'r rhwydwaith, os gallant gael mynediad i fwy nag un gweithredwr. Felly, credwn y dylai Ofcom ystyried rheoleiddio prisiau ar gyfer ardaloedd gwledig yn ofalus iawn a chynnwys rhwymedigaethau'n ymwneud â chyrhaeddiad daearyddol y signal mewn arwerthiannau sbectrwm yn y dyfodol am resymau amlwg i bawb yma.

I think the mobile roaming case has been well made, I don't need to reiterate it, only to say that we absolutely agree with you and we've made that point very forcibly in all of the fora that we've got access to. We also think that there are benefits and challenges in establishing a supply of neutral wholesale network for mobile infrastructure, in much the same way as you roll out an infrastructure for anything and then allow suppliers to take it up.

Rwy'n meddwl bod yr achos dros grwydro symudol wedi cael ei wneud yn dda, nid oes angen i mi ei ailadrodd, dim ond dweud ein bod yn cytuno'n llwyr â chi ac rydym wedi gwneud y pwynt hwnnw yn rymus iawn ym mhob un o'r fforymau y mae gennym fynediad iddynt. Rydym hefyd yn credu fod manteision a heriau wrth sefydlu cyflenwad o rwydwaith cyfanwerthu niwtral ar gyfer y seilwaith symudol, yn yr un ffordd ag y byddwch yn cyflwyno seilwaith ar gyfer unrhyw beth ac yna'n gadael i gyflenwyr ei ddefnyddio.

Welsh Government officials continue to investigate options to improve mobile coverage, including how mobile services across the rail and road network can be improved, and for exactly the points made by Kirsty Williams and, actually, by Elin about coverage and safety along the trunk road networks, at the very least, and the rail points and so on. So, we're very actively looking at that.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i ymchwilio i opsiynau i wella'r signal symudol, gan gynnwys edrych ar sut y gellid gwella gwasanaethau symudol ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd a ffyrdd, ac am yr union bwyntiau a wnaeth Kirsty Williams, ac Elin mewn gwirionedd, ynghylch signal a diogelwch ar hyd rhwydweithiau cefnffyrdd fan lleiaf, a phwyntiau rheilffyrdd ac yn y blaen. Felly, rydym wrthi'n frwd yn edrych ar hynny.

We're also, I'd like to say, looking actively at the planning regime and business rates and other factors in terms of viability of the new masts, and I just want to reassure everybody here that officials across the Welsh Government are working very hard with their counterparts in these areas to investigate what, if any, further action can be taken. So, if Members want to propose specific courses of action to us, I would be more than happy to listen to that. Thank you very much.

Hoffwn ddweud hefyd ein bod wrthi'n edrych ar y weithdrefn gynllunio ac ardrethi busnes a ffactorau eraill o ran hyfywedd y mastiau newydd, ac rwyf am sicrhau pawb yma fod swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed iawn gyda'u cymheiriaid yn y meysydd hyn yn ymchwilio i ba gamau pellach y gellir eu cymryd, os o gwbl. Felly, os yw Aelodau'n dymuno cynnig camau gweithredu penodol i ni, byddwn yn fwy na pharod i wrando ar hynny. Diolch yn fawr iawn.

16:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close. Thank you.

Diolch yn fawr, Weinidog. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw. Diolch.

*Daeth y cyfarfod i ben am 16:55.*

*The meeting ended at 16:55.*